



Joint Council for
Qualifications

**Amau Camymddwyn
Polisiâu a Gweithdrefnau**

1^{af} Medi 2025-31^{ain} Awst 2026

Cyhoeddwyd ar: 1af Medi 2025
Ailgyhoeddwyd ar **TBC**

Cynhyrchwyd ar ran:

Logos i'w mewnosod

©JCQ^{CIC} 2025

Cyhoeddwyd gyntaf ar 1^{af} Medi 2025
Y Cyd-gyngor Cymwysterau^{CIC}
E-bost: centresupport@jcq.org.uk

Ar gael ar ffurf pdf o:

<https://www.jcq.org.uk/exams-office/malpractice/>

Newidiadau allweddol ar gyfer 2025-26

Rhagarweiniad

1. Beth yw camymddwyn a chamweinyddu

2. Diffiniadau

3. Atal camymddwyn

Canolfannau

4. Nodi achosion o gamymddwyn a rhoi gwybod amdanynt

Cyfrifoldebau

Canolfannau yn nodi achosion o gamymddwyn ac yn rhoi gwybod amdanynt

Cyrff dyfarnu yn nodi achosion o gamymddwyn ac yn rhoi gwybod amdanynt

Pobl eraill yn nodi achosion o gamymddwyn ac yn rhoi gwybod amdanynt

Beth mae cyrff dyfarnu yn ei wneud ar ôl derbyn honiadau a hysbysiau sy'n amau camymddwyn

5. Casglu gwybodaeth

Ymchwiliadau

Penodi casglwr gwybodaeth

Gwrthdaro buddiannau

Dirprwyo cyfrifoldebau casglu gwybodaeth

Gwybodaeth a geir gan unigolion

Diogelu cyfrinachedd/anhysbysrwydd

Hawliau unigolion a gyhuddir – casglu gwybodaeth

Cwblhau a chyflwyno'r adroddiad

6. Y penderfyniad

Gweithdrefn ddiannod

Y Pwyllgor Camymddwyn

Gwneud y penderfyniad

7. Sancsiynau

8. Sancsiynau am gamymddwyn gan staff y ganolfan: unigolion

9. Sancsiynau am gamymddwyn gan staff y ganolfan: canolfannau

10. Sancsiynau a weithredir yn erbyn ymgeiswyr

11. Cyfathrebu penderfyniadau

12. Apeliadau

Atodiadau

Atodiad 1 Ffynonellau gwybodaeth

- Atodiad 2** Enghreifftiau o gamymddwyn
- Atodiad 3** Canllaw i gasglu gwybodaeth ar gyfer ymchwiliad i gamymddwyn
- Atodiad 4** Sancsiynau mynegol yn erbyn canolfannau
- Atodiad 5** Sancsiynau mynegol yn erbyn staff canolfannau
- Atodiad 6** Sancsiynau mynegol yn erbyn o ymgeiswyr
- Atodiad 7** Enghreifftiau o gamymddwyn
- Atodiad 8** JCQ M1 Amau camymddwyn gan ymgeisydd
- Atodiad 9** JCQ M2 Adroddiad ar amheumon o gamymddwyn/camweinyddu sy'n cynnwys staff y ganolfan
- Atodiad 10** JCQ M3 Adroddiad ar amheumon o gamymddwyn/camweinyddu sy'n cynnwys staff y ganolfan
- Atodiad 11** Canllawiau ar Gefnogi Diogelwch a Llesiant Staff Canolfan ac Ymgeiswyr yn ystod Achos o Amau Camymddwyn
- Atodiad 12** Cysylltiadau

Newidiadau allweddol ar gyfer 2025-26

Rhif y dudalen	Adran	Paragraff	Crynodeb o'r newid
5	1	1.8	Cyfeirio at ddarparu gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol yn fwriadol sy'n gyfystyr â chamymddwyn.
7	2		Wedi ychwanegu diffiniad o gamymddwyn gan ganolfan.
11	4	4.1.2	Wedi cynnwys y posibilrwydd o ddal tystysgrifau yn ôl a chynnwys ystyried rhoi gwybod i swyddog dynodedig yr awdurdod lleol am bryderon gwirioneddol.
11	4	4.1.3	Cadarnhau digwyddiadau camymddwyn hysbysadwy.
13	4	4.5	Cadarnhau digwyddiadau camymddwyn hysbysadwy.
14	4	4.1.1	Cyfeirio at ddatgelu.
14	4	4.1.2	Cyfeirio at gamau lliniaru.
15	4	4.1.5	Cyfeirio at y weithdrefn ddiannod, rhannu gwybodaeth a chamau gweithredu priodol.
16	5	5.4	Cyfeirio at fod methu â chyflwyno adroddiad yn yr amser a nodwyd yn gallu cyfateb i gamymddwyn.
18	5	5.12	Cyfeirio at bryderon am lesiant mewn cyfweiliadau.
19	5	5.22	Cyfeirio at anawsterau neu anabledau dysgu, neu gorfforol, mewn cyfweiliadau.
20	5	5.33	Cyfeirio at fod darparu gwybodaeth gamarweiniol neu anghywir yn fwriadol yn gyfystyr â chamymddwyn.
21	5	5.8	Cyfeirio at restr wirio ar wahân i bob aelod staff sydd wedi'i gysylltu â'r honiad.
27	7	7.10	Cyfeirio at gamymddwyn posibl.
39	Atodiad 2		Cyfeirio at gamymddwyn gan ganolfan. Nodi nad deallusrwydd artiffisial yw'r unig ffordd o farcio. Cyfeirio at ddarparu'r trefniadau mynediad cywir i ymgeiswyr lle rhoddwyd cymeradwyaeth.
53	Atodiad 7		Cynnwys enghraifft newydd o gamymddwyn.

60	Atodiad 8	JCQ/M1	Cyfeirio at y ddogfen Gwybodaeth i ymgeiswyr – AI (Deallusrwydd Artificial ac asesiadau). Ychwanegu lle i roi manylion pellach os bu angen ticio na yn y rhestr wirio.
60	Atodiad 8	JCQ/M1	Ychwanegu eitemau ar y rhestr wirio ar y ffurflen JCQ M1. Bydd hyn yn cefnogi canolfannau i sicrhau bod yr holl ofynion 'hawl yr unigolyn' (o adran 5.33) wedi'u cwblhau mewn achosion o amau camymddwyn gan ymgeiswyr. Bydd yn sicrhau hefyd bod y corff dyfarnu yn derbyn cadarnhad bod hyn wedi digwydd pan gyflwynir y ffurflen.
72	Atodiad 10	JCQ/M3	Ychwanegu cadarnhad ychwanegol at yr adran Unigolyn/unigolion a gasglodd y wybodaeth. Cyfeirio at restr wirio ar wahân i bob aelod staff sydd wedi'i gysylltu â'r honiad. Ychwanegu lle i roi manylion pellach os bu angen ticio na yn y rhestr wirio.
77	Atodiad 11		Atodiad newydd – Canllawiau ar Gefnogi Diogelwch a Lles Staff Canolfan ac Ymgeiswyr yn ystod Achos o Amau Camymddwyn.
77	Atodiad 11		Ychwanegu canllawiau i sicrhau bod unrhyw ddatganiadau y gofynnir amdany'n nhw gan unigolion ag anableddau, wedi'u casglu gan roi ystyriaeth i anghenion a llesiant yr unigolion hynny.

Diweddariad canol blwyddyn yw'r ail newid ar Dudalen 60 Atodiad 8.

Diweddariad canol blwyddyn yw'r ail newid ar Dudalen 77 Atodiad 11.

Rhagarweiniad

Mae'r ddogfen hon ar gyfer pawb sy'n rhan o ddigwyddiadau camymddwyn neu sy'n cael eu heffeithio ganddynt, gan gynnwys y rhai sydd am roi gwybod am bryderon am gamymddwyn wrth gyflwyno cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol a gaiff eu hardystio gan gyrff dyfarnu'r Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC).

Mae'r ddogfen yn manylu ar y polisiau a'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt gan gyrff dyfarnu'r CGC ar gyfer delio ag ymchwiliadau i dor diogelwch a chamymddwyn sy'n ymwneud ag ymgeiswyr, staff canolfannau a chanolfannau. Mae gan gyrff dyfarnu'r CGC weithdrefnau ar wahân ar gyfer ymchwilio i bryderon sy'n ymwneud ag ymddygiad arholwyr, cymedrolwyr a staff cyrff dyfarnu.

Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng rheoliadau'r corff dyfarnu a'r gweithdrefnau hyn, y ddogfen hon sy'n cymryd blaenoriaeth.

Mae'r ddogfen hon yn:

- cydymffurfio ag Amod A8 – Camymddwyn a chamweinyddu yn ôl diffiniad y Rheoleiddwyr ac Egwyddor 14 dogfen Regulatory Principles SQA Accreditation;
- enwi'r rheoliadau ar gyfer gweithredu arholiadau ac asesiadau;
- diffinio camymddwyn yng nghyd-destun arholiadau ac asesiadau;
- nodi hawliau a chyfrifoldebau'r cyrff dyfarnu, staff canolfannau ac ymgeiswyr mewn perthynas â materion o'r fath;
- disgrifio'r gweithdrefnau i'w dilyn mewn achosion lle mae rheswm i gredu y gall y rheoliadau fod wedi'u torri;
- rhoi manylion gweithdrefnau sy'n ymwneud ag ymchwilio a phenderfynu ar honiadau o gamymddwyn sydd yn eu tegwch, trylwyredd, amhleidioldeb a gwrthrychedd yn bodloni gofynion y gyfraith gyfredol mewn perthynas â materion o'r fath neu'n mynd y tu hwnt iddi.

Mae'r newidiadau a wnaed i gynnwys y ddogfen hon ers y fersiwn blaenorol (1 Medi 2024 hyd at 31 Awst 2025) wedi'u huwcholeuo mewn melyn i'w gwneud yn haws eu gweld ac mae'r prif newidiadau wedi'u rhestru ar dudalen 1.

1. Beth yw camymddwyn a chamweinyddu?

1.1 Mae gan bawb sy'n rhan o'r system cymwysterau cyhoeddus rôl i'w chwarae er mwyn helpu i gynnal asesiadau'n briodol a sicrhau uniondeb cymwysterau. Er na fydd y mwyafrif helaeth o ganolfannau, staff canolfannau nac ymgeiswyr fel arfer yn profi unrhyw fath o gamymddwyn, mae'n bwysig bod pawb yn ymwybodol o risgiau camymddwyn ac yn cymryd camau i'w atal rhag digwydd. Os bydd camymddwyn yn digwydd, mae'n hollbwysig bod camau'n cael eu cymryd yn gyflym i ddiogelu uniondeb cymwysterau.

1.2 Mae 'camymddwyn' a 'camweinyddu' yn gysyniadau gwahanol ond cysylltiedig, a'r hyn sy'n gyffredin yw bod y ddau'n ymwneud â methiant i ddilyn rheolau arholiad neu asesiad. Mae'r ddogfen hon yn defnyddio'r gair 'camymddwyn' i gyfeirio at 'gamymddwyn' a 'chamweinyddu'. Mae'n mesur unrhyw weithred, gosodiad diofyn neu ymarfer sy'n:

- torri'r Rheoliadau a/neu'n
 - torri gofynion corff dyfarnu ynghylch sut y dylid cyflwyno cymhwyster; a/neu'n
 - fethiant i ddilyn gweithdrefnau sefydledig mewn perthynas â chymhwyster;
- sy'n:
- arwain at ragfarn yn erbyn ymgeiswyr; a/neu'n
 - tansellio hyder y cyhoedd mewn cymwysterau; a/neu'n
 - cyfaddawdu, ceisio cyfaddawdu neu'n gallu cyfaddawdu'r broses asesu, uniondeb unrhyw gymhwyster neu ddilysrwydd canlyniad neu dystysgrif; a/neu'n
 - niweidio awdurdod, enw da neu hygredd unrhyw gorff dyfarnu neu ganolfan neu unrhyw swyddog, gweithiwr neu asiant unrhyw gorff dyfarnu neu ganolfan.

1.3 Bydd achosion o gamymddwyn yn digwydd am nifer o resymau, megis:

- gwneir rhai pethau'n fwriadol gyda'r bwriad o roi mantais annheg mewn arholiad neu asesiad;
- mae rhai digwyddiadau'n datblygu oherwydd diffyg ymwybyddiaeth o'r rheoliadau, diofalwch neu anghofio wrth weithredu'r rheoliadau (a gaiff ei alw'n aml yn 'camweinyddu');
- mae rhai'n digwydd fel canlyniad i rym amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y rhai dan sylw (e.e. larwm tân yn canu ac yn amharu ar y gallu i oruchwylio ymgeiswyr).

1.4 Mae'r math o unigolion sy'n camymddwyn hefyd yn amrywio. Gallant gynnwys:

- ymgeiswyr;
- athrawon, darlithwyr, tiwtoriaid, hyfforddwyr, aseswyr neu eraill sy'n gyfrifol am gynnal, gweinyddu neu sicrhau ansawdd arholiadau ac asesiadau gan gynnwys swyddogion arholiadau, goruchwylwyr a'r rhai sy'n hwyluso trefniadau mynediad (e.e. darllenwyr, ysgrifenyddion a chynorthwyywyr ymarferol);
- personél asesu megis arholwyr, aseswyr, cymedrolwyr neu wirwyr mewnlol ac allanol;
- unrhyw drydydd parti arall, (e.e. rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid, brodyr/chwioriudd, ffrindiau'r ymgeisydd).

1.5 Mae'r *Polisiâu a Gweithdrefnau Camymddwyn Posibl* y CGC hyn yn berthnasol i bob ymgeisydd ac i ganolfannau a staff canolfannau sy'n cyflwyno cymwysterau cyrff dyfarnu'r CGC. Pan amheuir camymddygiad gan arholwyr, cymedrolwyr neu staff cyrff dyfarnu, glynir at y gweithdrefnau disgyblu priodol.

1.6 Nid yw camymddwyn bob amser yn ymwneud yn uniongyrchol ag asesiad. Mae cyrff dyfarnu yn ymwybodol o'r posibilrwydd y gall mathau newydd neu annisgwyl o gamymddwyn ymddangos wrth i dechnolegau a natur a threfniadaeth canolfannau arholi newid.

1.7 Dylai canolfan hysbysu, ymchwilio ac adrodd yn ôl i gorff dyfarnu am unrhyw honiadau o gamymddwyn neu amheuo'n o gamymddwyn. Mae methiant i wneud hynny'n gamymddwyn ynddo'i hun.

1.8 Mae methiant i weithredu'n unol â gofynion corff dyfarnu, ar sail y manylion yn y ddogfen hon, neu fethiant i gydweithredu ag ymchwiliad corff dyfarnu, yn gamymddwyn. Mae hyn yn cynnwys rhoi gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol yn fwriadol yn ystod ymchwiliad.

1.9 Mae cyrff dyfarnu sy'n aelodau o'r CGC wedi diffinio'r gwahanol fathau o gamymddwyn fel a ganlyn (mae Atodiad 2 yn rhoi dwy enghraifft o bob math):

- tanseilio diogelwch;
- twyll;
- cymorth amhriodol i ymgeiswyr;
- methiant i gydweithredu ag ymchwiliad;
- camweinyddu;
- camymddwyn gan ymgeiswyr.

2. Diffiniadau

Rheoleiddiwr

Corff a ddynodir gan y llywodraeth i sefydlu safonau cenedlaethol ar gyfer cymwysterau ac i sicrhau bod pawb yn cydymffurfio â hwy. Rheoleiddwyr cymwysterau'r DU yw:

- Ofqual (Lloegr): <https://www.gov.uk/government/organisations/ofqual>
- Cymwysterau Cymru (Cymru): <https://cymwysterau.cymru/cymraeg/>
- CCEA Regulation (Gogledd Iwerddon): <https://ccea.org.uk/regulation>
- SQA (Yr Alban): <https://www.sqa.org.uk>

Canolfan

Sefydliad (megis ysgol, coleg, cwmni/darparwr hyfforddiant, man cyflogaeth) sydd wedi'i gymeradwyo gan gorff dyfarnu ac sy'n atebol iddo am y trefniadau arholi ac asesu sy'n arwain at ddyfarniad cymhwyster.

Pennaeth y ganolfan

Pennaeth y ganolfan yw'r unigolyn sy'n atebol i'r cyrff dyfarnu am sicrhau bod y ganolfan bob amser yn cydymffurfio â rheoliadau cyhoeddedig y CGC a hefyd gofynion y cyrff dyfarnu i sicrhau diogelwch ac uniondeb yr arholiadau/asesiadau.

Os gwneir honiad o gamymddwyn yn erbyn pennaeth canolfan, dylai'r sawl a enwebir gan y corff dyfarnu perthnasol i gasglu gwybodaeth, megis Cadeirydd y Llywodraethwyr, ymgymryd â'r cyfrifoldebau hynny y mae'r pennaeth yn eu cyflawni fel arfer.

Ymgeiswyr preifat

Diffiniad ymgeisydd preifat yw myfyriwr sydd wedi'i gofrestru ar gyfer cymhwyster mewn pwnc penodol gan y ganolfan ond sydd heb gael ei addysgu o gwbl yn y pwnc hwnnw yn y ganolfan yn ystod y flwyddyn academaidd y cynhelir y gyfres arholiadau ynddi. Gall y myfyriwr fod wedi cael ei addysgu yn y ganolfan mewn pynciau neu gymwysterau gwahanol, neu yn yr un pwnc neu gymhwyster ar gyfer cyfres arholiadau flaenorol.

Rheoliadau

Ystyr 'Rheoliadau' yw'r rhestr o ddogfennau sydd i'w gweld yn Atodiad 1. Maen nhw'n cynnwys arweiniad a rheoliadau'n ymwneud â darparu trefniadau mynediad a chynnal asesiadau dan reolaeth, gwaith cwrs, arholiadau ac asesiadau di-arholiad.

Mae'r Rheoliadau yn seiliedig ar ofynion y rheoleiddwyr cymwysterau yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, fel y rhai sydd i'w gweld yn nogfennau Amodau Cydnabod Safonol Cymwysterau Cymru, General Conditions of Recognition Ofqual a Regulatory Principles SQA Accreditation.

Mae'n rhaid i gyrff dyfarnu hysbysu rheoleiddwyr cymwysterau am enghreifftiau penodol o gamymddwyn, yn unol ag amodau'r rheoleiddwyr.

Amau camymddwyn

At ddibenion y ddogfen hon ystyr amau camymddwyn yw unrhyw achosion o gamymddwyn sy'n cael ei honni neu ei amau (ni waeth sut gellid categorio'r achos yn ôl y disgrifiad yn adran 1.9).

Camymddwyn gan staff y ganolfan

Ystyr "camymddwyn gan staff y ganolfan" yw camymddwyn gan un o'r canlynol:

- aelod o staff, contractwr (pa un ai wedi'i gyflogi dan gontract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau) neu wirfoddolwr mewn canolfan; neu
- unigolyn a benodwyd mewn unrhyw rôl arall gan ganolfan megis goruchwyliwr, Gweithiwr Cyfathrebu Proffesiynol, Addasydd Iaith, cynorthwydd ymarferol, anogwr, darllenydd neu

ysgrifennydd.

Nodir enghreifftiau o gamymddwyn gan staff canolfannau yn Atodiad 2, Rhan 1. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ac nid yw'n cyfyngu ar gwmpas y diffiniadau eraill a nodwyd yn y ddogfen hon. Gall achosion eraill o gamymddwyn gael eu nodi a'u hystyried gan y cyrff dyfarnu gan arfer eu doethineb.

Camymddwyn gan ymgeiswyr

Mae 'camymddwyn gan ymgeisydd' fel arfer yn cynnwys camymddwyn gan ymgeisydd mewn perthynas ag unrhyw arholiad neu asesiad, gan gynnwys paratoi a dilysu unrhyw asesiadau dan reolaeth, gwaith cwrs neu asesiadau di-arholiad, cyflwyno unrhyw waith ymarferol, casglu portffolios o dystiolaeth asesu a chwblhau unrhyw arholiad.

Nodir enghreifftiau o gamymddwyn gan ymgeiswyr yn Atodiad 2, Rhan 2. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr ac nid yw'n cyfyngu ar gwmpas y diffiniadau a nodwyd yn y ddogfen hon. Gall y cyrff dyfarnu ystyried achosion eraill o gamymddwyn yn ôl eu hewylllys.

Camymddwyn gan Ganolfan

Mae 'camymddwyn gan ganolfan' yn golygu camymddwyn lle mae elfen o fethiant systematig, torri polisiau neu gamymddwyn eang ac felly bod sancsiwn ar lefel canolfan yn briodol.

Nodir enghreifftiau o gamymddwyn fyddai'n gallu arwain at ganfyddiad o gamymddwyn gan ganolfan yn Atodiad 2, Rhan 1. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ac nid yw'n cyfyngu ar gwmpas y diffiniadau eraill a nodwyd yn y ddogfen hon. Gall achosion eraill o gamymddwyn gael eu nodi a'u hystyried gan y cyrff dyfarnu gan arfer eu doethineb.

3. Atal camymddwyn

3.1 Mae dogfen Amodau Cydnabod (A8.1) y rheoleiddwyr yn nodi bod yn rhaid i gyrff dyfarnu wneud y canlynol:

- cymryd pob cam rhesymol i atal unrhyw fath o gamymddwyn neu gamweinyddu wrth ddatblygu, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau y maent yn eu darparu neu'n cynnig eu darparu.

3.2 Bydd cyrff dyfarnu'n lleihau neu'n dileu'r risg o gamymddwyn drwy amrywiaeth o ddulliau sy'n cynnwys y canlynol, ymhlith eraill:

- Sicrhau bod cymwysterau'n cael eu dylunio mewn ffordd sy'n lleihau'r cyfle i gamymddwyn ddigwydd, i'r graddau sy'n rhesymol bosibl.
- Darparu prosesau clir ar gyfer gweinyddu cymwysterau sy'n lleihau'r cyfle i gamymddwyn ddigwydd, i'r graddau sy'n rhesymol bosibl.
- Cyhoeddi dogfennau canllaw clir a chadarn ar bob agwedd ar gyflwyno a gweinyddu pob cymhwyster, gan gynnwys dogfennau canlynol y CGC:
 - *Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau Cymeradwy*
 - *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau (ICE)*
 - *Cyfarwyddiadau ar gynnal gwaith cwrs*
 - *Cyfarwyddiadau ar gynnal asesiadau di-arholiad*
 - *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol*
 - *Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig*
 - *Amau Camymddwyn: Polisiâu a Gweithdrefnau* (y ddogfen hon)
 - *Llên-ladrad mewn Asesiadau*
 - *Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI) mewn Asesiadau: Diogelu Uniondeb Cymwysterau*
 - *Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau*
 - *Canllaw i brosesau apelio'r cyrff dyfarnu*
 - *Canllawiau i ganolfannau ar seiberddiogelwch.*
- Defnyddio pob cyfrwng cyfathrebu priodol i roi'r wybodaeth, yr arweiniad a'r hyfforddiant diweddaraf i bob rhanddeiliad, gan gynnwys dysgwyr, mewn perthynas ag atal camymddwyn a chamweinyddu.
- Defnyddio Gwasanaeth Arolygu Canolfannau'r CGC yn llawn. Mae'r Gwasanaeth hwn yn gweithio ar ran cyrff dyfarnu gan sicrhau bod gwiriadau canolfannau'n cael eu cynnal yn ddigon rheolaidd a thrylwyr.
- Ymateb mewn ffordd effeithlon a chlr i gais gan ganolfan am arweiniad ar y ffordd orau o atal camymddwyn a chamweinyddu.
- Monitro'r cyfryngau cymdeithasol, lle bo hynny'n briodol, am unrhyw arwydd o gamymddwyn a chamweinyddu.
- Monitro data, gan gynnwys data cofrestru, er mwyn canfod patrymau, tueddiadau, cofrestradau dwbl, methiant i gwrdd â therfynau amser ac unrhyw wybodaeth arall a allai awgrymu bod camymddwyn wedi digwydd.
- Adolygu achosion o gamymddwyn a brofwyd er mwyn dadansoddi beth, os o gwbl, y dylai'r corff/cyrff dyfarnu ei ddysgu o'r digwyddiad.

3.3 Canolfannau

Rhaid i ganolfannau gymryd pob cam rhesymol i atal camymddwyn. Gallai'r rhain gynnwys y canlynol, ond heb gael eu cyfyngu iddynt:

3.3.1 Camymddwyn a chamweinyddu gan staff y ganolfan

- Sicrhau bod staff sy'n cynnal asesiadau ac arholiadau yn deall y gofynion ar gyfer gwneud hynny, fel y nodir yn nogfennau'r CGC uchod ac unrhyw ganllawiau eraill gan gyrff dyfarnu.
- Sicrhau bod staff sy'n ymwneud â chyflwyno asesiadau ac arholiadau yn deall y dyddiadau allweddol a therfynau amser a bod gweithdrefnau cadarn ar waith i sicrhau bod y rhain yn cael eu bodloni.
- Sicrhau bod Swyddogion Arholiadau yn cael hyfforddiant, adnoddau a chefnogaeth briodol.

- Sicrhau bod arholiadau, gan gynnwys rhai sy'n cael eu darparu ar safleoedd eraill yn cael eu cynnal yn unol â'r gofynion a nodir yng nghyfarwyddiadau'r CGC ar gyfer cynnal arholiadau (dogfen ICE).
- Sicrhau bod pob aelod o staff sy'n rheoli ac yn gweithredu trefniadau ystyriaeth arbennig a threfniadau mynediad yn ymwybodol o'r gofynion ac yn cael cefnogaeth ac adnoddau priodol.
- Sicrhau nad yw aelodau o staff yn cyfathrebu unrhyw wybodaeth gyfrinachol am arholiadau a deunyddiau asesu gan gynnwys drwy'r cyfryngau cymdeithasol.
- Sicrhau bod aelodau o staff yn dilyn gweithdrefnau diogelwch priodol i sicrhau nad yw gwybodaeth gyfrinachol yn ymwneud ag arholiadau a deunyddiau asesu yn cael ei thorri.
- Sicrhau bod trefniadau ar gyfer arholiadau sy'n gwrthdaro yn cael eu cynllunio a'u rheoli'n effeithiol.
- Sicrhau bod prosesau cadarn yn eu lle i staff sy'n cynnal/asesu gwaith cwrs, asesiadau mewnlol a/neu asesiadau di-arholiad i nodi a rhoi gwybod am lèn-ladrad (gan gynnwys camddefnyddio AI) neu gamymddwyn arall posibl gan ymgeiswyr, a bod y staff hyn yn ymwybodol o weithdrefnau'r ganolfan sy'n ymwneud â dilysu gwaith dysgwyr.
- Sicrhau bod gan y ganolfan ddiwylliant o fod yn onest ac yn agored fel y gall unrhyw bryderon am gamymddwyn posibl gael eu huwchgyfeirio'n briodol heb ofni unrhyw ôl-ffeithiau.

3.3.2 Camymddwyn gan ymgeiswyr

- Sicrhau bod pob hysbysiad gan y CGC e.e. Gwybodaeth i ymgeiswyr, asesiadau di-arholiad, gwaith cwrs, profion ar-sgrin, arholiadau ysgrifenedig, cyfryngau cymdeithasol, llên-ladrad ar gael i ymgeiswyr cyn cynnal asesiadau/arholiadau.
- Sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu hysbysu ar lafar ac yn ysgrifenedig o'r amodau sy'n ofynnol ar gyfer cynnal yr asesiadau, gan gynnwys rhybuddion am ddeunyddiau a dyfeisiau sydd wedi'u gwahardd yn yr asesiadau, a mynediad at adnoddau cyfyngedig.
- Sicrhau bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'r gweithredoedd hynny sy'n cyfrif fel camymddwyn a'r sanctiynau y gallent eu derbyn am gamymddwyn.
- Sicrhau bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'r sanctiynau'n ymwneud â throsglwyddo neu dderbyn deunyddiau asesu cyfrinachol (hyd yn oed os na ofynnwyd am y wybodaeth honno). Os bydd ymgeisydd yn derbyn gwybodaeth gyfrinachol yna rhaid iddo roi gwybod i aelod o staff y ganolfan am hynny ar unwaith.
- Sicrhau bod ymgeiswyr sydd ag arholiadau'n gwrthdaro yn ymwybodol o'r ffordd briodol o ymddwyn pan fyddant yn cael eu goruchwylio h.y. sicrhau nad oes modd i ymgeiswyr drosglwyddo na derbyn gwybodaeth am gynnwys asesiadau, a chamymddwyn wrth wneud hynny.
- Sicrhau bod ymgeiswyr sy'n cwblhau gwaith cwrs neu asesiadau di-arholiad yn ymwybodol mai eu gwaith nhw eu hunain ddylai unrhyw waith fod a'u bod yn cael cyfarwyddiadau clir o ran sut i osgoi llên-ladrad (gan gynnwys camddefnyddio AI).

4. Nodi achosion o gamymddwyn a rhoi gwybod amdanynt

4.1 Cyfrifoldebau

- 4.1.1 Mae dogfen Amodau Cydnabod y rheoleiddwyr yn nodi bod rhaid i gyrff dyfarnu:
- sefydlu a chynnal gweithdrefnau ysgrifenedig cyfoes ar gyfer ymchwilio unrhyw achos o gamymddwyn neu gamweinyddu sydd wedi'i honni neu ei amau, gan gydymffurfio â'r rhain bob amser; a
 - sicrhau bod ymchwiliadau o'r fath yn cael eu cyflawni'n fanwl gywir, yn effeithiol a gan unigolion â'r cymhwysedd priodol nad oes ganddynt unrhyw ddiddordeb personol yn y canlyniad.
- 4.1.2 Bydd y corff dyfarnu yn:
- goruchwyllo pob ymchwiliad i gamymddwyn sydd wedi'i honni neu ei amau;
 - penderfynu p'un a ddylid atal cyhoeddi canlyniadau a/neu dystysgrifau tan ddiwedd yr ymchwiliad, neu'n barhaol, os yw'r ymchwiliad yn dod i'r casgliad bod angen cyflwyno sancsiwn;
 - cymhwyso'r sancsiynau priodol os bydd camymddwyn yn cael ei brofi;
 - cyflwyno adroddiad ar y mater yn brydlon i'r rheoleiddwyr a chyrrff dyfarnu eraill yn unol â dogfen Amodau Cydnabod y rheoleiddwyr;
 - ystyried cyflwyno adroddiad am y mater i'r heddlu os profir bod trosedd wedi'i chyflawni yn rhan o'r camymddwyn honedig;
 - ystyried rhoi gwybod i Swyddog Diogelu Dynodedig yr Awdurdod Lleol (LADO) neu awdurdodau diogelu eraill am y mater os ceir pryder gwirioneddol am niwed i blentyn neu oedolyn mewn perygl; ystyried cyflwyno adroddiad am y mater i awdurdodau priodol eraill lle bo'n berthnasol, e.e. Asiantaethau Cyllido ac Asiantaethau Rheoleiddio Addysgu;
 - Lle bo'n bosibl, diogelu buddiannau ymgeiswyr sy'n ddi-fai ond y mae achos o gamymddwyn wedi effeithio arnynt (gweler adran 4.16);
 - penderfynu pa wybodaeth y dylid ei chasglu a phwy yw'r person(au) mwyaf priodol i gasglu gwybodaeth ar ei ran, yn ei farn ef. Y corff dyfarnu perthnasol sy'n gyfrifol am yr ymchwiliad ei hun, hynt yr ymchwiliad hwnnw ac unrhyw benderfyniadau a wneir mewn perthynas ag ymchwiliad.
- 4.1.3 **Rhaid** i bennaeth y ganolfan:
- hysbysu'r corff dyfarnu priodol ar unwaith am unrhyw amheuan neu honiadau o gamymddwyn neu gamymddwyn gwirioneddol. Yr unig eithriad i hyn yw pan fydd achos o gamymddwyn gan ymgeisydd mewn gwaith cwrs neu asesiadau di-arholiad lle mae'r trosedd yn ymwneud â chynnwys gwaith yr ymgeisydd (e.e. copïo/cydgynllwynio, llên-ladrad, a chamddefnyddio AI – gweler adran 4.5 ac atodiad 6 am restr o'r troseddau hyn) ac **nad** yw'r ymgeisydd wedi llofnodi'r ffurflenni dilysu (gweler paragraff 4.5). Rhaid rhoi gwybod i'r corff dyfarnu perthnasol am bob achos arall o gamymddwyn gan ymgeisydd.
 - Pan fydd achos o gamymddwyn gan aelod o staff yn cael ei ddarganfod mewn gwaith cwrs neu asesiadau di-arholiad, rhaid i bennaeth y ganolfan hysbysu'r corff dyfarnu ar unwaith, heb ystyried a yw'r ymgeisydd (ymgeiswyr) wedi llofnodi'r ffurflenni dilysu ai peidio;
 - rhoi gwybod am gamymddwyn gan ddefnyddio'r ffurflenni priodol fel y nodir ym mharagraffau 4.4 a 4.6;
 - bod yn atebol am sicrhau bod y ganolfan a staff y ganolfan yn cydymffurfio bob amser â chyfarwyddiadau'r corff dyfarnu mewn perthynas ag ymchwiliad;
 - sicrhau, pan fo ymgeisydd sy'n blentyn neu'n oedolyn mewn perygl yn destun ymchwiliad camymddwyn, bod rhiant/gofalwr/oedolyn priodol yr ymgeisydd yn cael gwybod am gynnydd yr ymchwiliad;
 - sicrhau, os bydd angen dirprwyo gwaith casglu gwybodaeth i uwch aelod o staff y ganolfan, bod y corff dyfarnu yn cytuno ar hynny a bod yr uwch aelod hwnnw o staff y ganolfan yn annibynnol. Ni ddylai fod yn gysylltiedig â'r adran na'r ymgeisydd sy'n destun y camymddwyn honedig. Dylai pennaeth y ganolfan sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau (gweler isod) a allai beryglu'r ymchwiliad;

- ymateb yn gyflym ac yn agored i bob cais am ymchwiliad i honiad o gamymddwyn. Bydd hyn er lles staff y ganolfan, ymgeiswyr ac unrhyw rai eraill dan sylw;
- sicrhau bod gwybodaeth y mae corff dyfarnu yn gofyn amdani ar gael yn gyflym ac yn agored;
- cydweithredu ag ymchwiliad i honiad o gamymddwyn a sicrhau bod eu staff yn gwneud hynny hefyd, p'un ai yw'r ganolfan yn ymwneud yn uniongyrchol â'r achos ai peidio;
- sicrhau bod aelodau o staff ac ymgeiswyr yn cael eu hysbysu o'u cyfrifoldebau a hawliau unigol fel y nodir yn y ddogfen hon;
- anfon ymlaen unrhyw ohebiaeth a thystiolaeth gan y corff dyfarnu at staff y ganolfan a/neu ddarparu manylion cysylltu'r staff dan sylw fel y gall y corff dyfarnu ei hun wneud hynny;
- cydymffurfio bob amser â'r ddeddf diogelu data;
- trosglwyddo unrhyw rybudd neu hysbysiad o sancsiynau i'r unigolion dan sylw, a sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag unrhyw geisiadau a wneir gan y corff dyfarnu o ganlyniad i achos o gamymddwyn.

4.1.4 Mae'r cyfrifoldebau a nodir y mharagraff 4.1.3 yn ymestyn hefyd i unrhyw amheumon o gamymddwyn sy'n ymwneud ag ymgeiswyr preifat a gofrestrir trwy'r ganolfan.

4.1.5 Atgoffir penaethiaid canolfannau y gall fod yn gamymddwyn i beidio â chydymffurfio â'r gofynion a nodir ym mharagraffau 4.1.3 a 4.1.4.

4.2 Gall unrhyw rai o'r canlynol nodi a rhoi gwybod am amheumon o gamymddwyn:

- canolfannau (gan gynnwys myfyrwyr, rhieni neu staff canolfannau);
- cyrff dyfarnu (gan gynnwys arholwyr, cymedrolwyr a staff cyrff dyfarnu);
- unigolion eraill (fel staff asiantaethau cyllido, ffynonellau dienw, neu aelodau o'r cyhoedd).

Canolfannau yn nodi achosion o gamymddwyn ac yn rhoi gwybod amdanynt

4.3 Rhaid bod gan ganolfannau brosesau cadarn ar waith er mwyn atal a nodi achosion o gamymddwyn, fel y nodir yn adran 3 uchod. Os ceir amheumon o gamymddwyn, gall unrhyw aelod o staff y ganolfan roi gwybod am yr amheumon hynny gan ddefnyddio'r sianeli priodol.

4.4 Dylid defnyddio ffurflen JCQ M1 i hysbysu corff dyfarnu am achos o gamymddwyn gan ymgeisydd. Mae'r ffurflen ar gael ar wefan y CGC <http://www.jcq.org.uk/exams-office/malpractice> ac fel Atodiad i'r ddogfen hon.

Mae hysbysiadau ar ffurf llythyr yn dderbyniol ond rhaid darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani yn y ffurflen.

4.5 Nid oes angen rhoi gwybod i'r corff dyfarnu am gamymddwyn gan ymgeisydd sy'n ymwneud â chynnwys gwaith (h.y. cynnwys amhriodol/anweddus, copio/cydgynllwynio, llên-ladrad (gan gynnwys camddefnyddio AI), a datganiad dilysu anwir) a ddarganfyddir mewn asesiad dan reolaeth, gwaith cwrs neu asesiad di-arholiad cyn i'r ymgeisydd lofnodi'r datganiad dilysu. Yn hytrach, rhaid dilyn gweithdrefnau mewnol y ganolfan i ymdrin â hyn.

Rhaid defnyddio ffurflen JCQ M1 i roi gwybod i'r corff dyfarnu perthnasol am gamymddwyn gan ymgeisydd a ddarganfuwyd mewn asesiad dan reolaeth, gwaith cwrs neu asesiad di-arholiad mewn achosion lle nad yw'r trosedd yn ymwneud â chynnwys gwaith yr ymgeisydd (e.e. meddu ar ddeunyddiau nad ydynt yn cael eu caniatáu, torri amodau asesu) neu os yw'r ymgeisydd **wedi** lofnodi'r datganiad dilysu. Os nad yw'r ymgeisydd wedi'i gofrestru ar adeg y camymddwyn (a'r ganolfan wedi bwriadu gwneud hynny), yna mae'n ofynnol i'r ganolfan gyflwyno cofrestriad erbyn y terfyn amser priodol i gofrestru.

Fel arfer ni ddylai canolfannau roi marciau am unrhyw waith a gyflwynir nad yw'n waith yr ymgeisydd ei hun. Os rhoddwyd unrhyw gymorth amhriodol (gweler isod), rhaid cyflwyno adroddiad am hyn i'r corff dyfarnu yn ôl gofynion adran 4.1.3 a rhaid nodi hyn ar daflen glawr gwaith yr ymgeisydd neu mewn man priodol arall. Dylai canolfannau gyfeirio at arweiniad y corff

dyfarnu yn yr achosion hynny lle mae camymddwyn mewn cymhwyster galwedigaethol yn cael ei ddarganfod cyn cyflwyno gwaith yr ymgeisydd i'w ardystio.

Noder: Cyngorir canolfannau, os bydd y ganolfan yn gwrthod gwaith cwrs, asesiad dan reolaeth, asesiad di-arholiad neu waith portffolio a gyflwynir i'w asesu'n fewnol ar sail camymddwyn, y dylai fod proses fewnol ar waith yn y ganolfan fel y gall ymgeiswyr wneud cais am apêl fewnol yn erbyn y penderfyniad hwn.

4.6 Dylid defnyddio ffurflen JCQ M2 i hysbysu corff dyfarnu am amheumon o gamymddwyn/camweinyddu gan staff. Mae'r ffurflen ar gael ar wefan y CGC yn <http://www.jcq.org.uk/exams-office/malpractice> ac fel Atodiad i'r ddogfen hon.

Mae hysbysiadau ar ffurf llythyr yn dderbyniol ond rhaid darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani yn y ffurflen.

4.7 Ar ôl derbyn ffurflen JCQ M2, bydd y corff dyfarnu yn edrych ar y wybodaeth a ddarperir ac yn penderfynu ar y camau nesaf priodol ar gyfer yr ymchwiliad (gweler adrannau 4.15-4.17). Ni ddylai'r ganolfan fynd ati i gasglu mwy o wybodaeth nes ei bod wedi cael caniatâd i wneud hynny gan y corff dyfarnu.

Cyrff dyfarnu yn nodi achosion o gamymddwyn ac yn rhoi gwybod amdanynt

4.8 Bydd pob corff dyfarnu yn cymryd pob cam rhesymol i atal camymddwyn. Mae gan gyrff dyfarnu fesurau cadarn ar waith i nodi amheumon o gamymddwyn a rhoi gwybod amdanynt. Gall staff, arholwyr neu gymedrolwyr corff dyfarnu nodi achosion o gamymddwyn.

4.9 Bydd arholwyr, cymedrolwyr, monitoriaid a gwirwyr allanol sy'n amau bod camymddwyn wedi digwydd mewn arholiad neu asesiad yn hysbysu'r corff dyfarnu perthnasol ar unwaith, gan ddefnyddio'r gweithdrefnau a bennir gan y corff dyfarnu.

4.10 Ar ôl derbyn pryderon am gamymddwyn, bydd y corff dyfarnu perthnasol yn eu hadolygu ac yn penderfynu ar y camau nesaf priodol, fel y nodir isod.

Pobl eraill yn nodi achosion o gamymddwyn ac yn rhoi gwybod amdanynt

4.11 Mae cyrff dyfarnu'n awyddus i gael gwybod am achosion o gamymddwyn ac maen nhw'n annog unrhyw un sydd â gwybodaeth am gamymddwyn i roi gwybod amdano.

Weithiau bydd cyrff dyfarnu'n derbyn honiadau o gamymddwyn gan gyflogwyr, staff y ganolfan, rheoleiddwyr, asiantaethau ariannu, ymgeiswyr, cyrff dyfarnu eraill ac aelodau o'r cyhoedd. Weithiau bydd yr adroddiadau hyn yn ddiennw.

Gall Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 ddiogelu gweithwyr sy'n gwneud honiadau o gamymddwyn mewn canolfannau, os yw:

- y datgeliad yn "ddatgeliad gwarchoddedig" (fel y nodir yn y ddeddfwriaeth berthnasol);
- y gweithiwr yn codi pryder gwirioneddol ynghylch camymddwyn; a
- datgeliad wedi'i wneud gan gydymffurfio â'r canllawiau a nodir yn y ddeddfwriaeth a/neu ym Mholisi Chwythu'r Chwiban y ganolfan ei hun; ac
- os yw'r datgeliad yn cael ei wneud i gyflogwr neu gorff rhagnodedig fel Ofqual.

I osgoi unrhyw amheuaeth, ni chaiff cyrff dyfarnu eu henwi yn y ddeddfwriaeth fel cyrff y gellir gwneud datgeliadau gwarchoddedig iddynt (h.y. corff rhagnodedig).

Efallai y bydd pobl sy'n rhoi gwybod am gamymddwyn yn dymuno aros yn ddiennw, ond dylent wybod y gallai fod angen i gyrff dyfarnu ddatgelu eu manylion i rywun arall.

Gallai hyn gynnwys

- ymateb i geisiadau am fynediad at ddata a wneir yn unol â deddfwriaeth diogelu data;

- lle mae'n ofynnol i ni rannu gwybodaeth â chyrrff rheoleiddio (fel Ofqual, yr SIA a'r TRA);
- pan fo'n ofynnol i ni ddarparu gwybodaeth i'r heddlu.

Dylai pobl sy'n rhoi gwybod am gamymddwyn hefyd gofio y gall unrhyw un sy'n destun ymchwiliad o ganlyniad i hynny ffurfio eu casgliadau eu hunain am bwy sydd wedi rhoi gwybod am gamymddwyn, yn seiliedig ar y wybodaeth y bydd angen i gorff dyfarnu ei datgelu er mwyn bwrw ymlaen ag ymchwiliad. Yn yr amgylchiadau hyn, dylid rhoi hysbysiadau preifatrwydd priodol i unigolion sy'n rhoi gwybod am gamymddwyn ynglŷn â phrosesu eu data personol.

Mae'r ddeddfwriaeth, fodd bynnag, yn cynnwys Ofqual fel corff y gellir cyflwyno datgeliadau gwarchoddedig iddo.

Ceir rhagor o arweiniad ar Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 a datgeliadau gwarchoddedig yn:

- [JCO Public Interest Disclosure Act \(Whistleblowing\) – Guidance;](#)
- [tudalennau gwe.gov.uk.](#)

4.12 Mae cyrrff dyfarnu'n ymwybodol y gall unrhyw unigolyn sy'n rhoi gwybod am amheuron o gamymddwyn gan aelod o staff neu ymgeisydd wynebu sefyllfa anodd. Bydd prosesau ymchwilio'n ystyried unrhyw gamau lliniaru y gellir eu cymryd i ddiogelu unigolyn sy'n rhoi gwybod os:

- yw'r unigolyn sy'n rhoi gwybod yn wynebu risg o ddial neu dalu'n ôl gan unigolion/canolfannau mae'n rhoi gwybod amdanynt
- nodir pryderon am iechyd meddwl neu lesiant yr unigolyn sy'n rhoi gwybod.

4.13 Os bydd person(au) yn ffonio i gynnig y wybodaeth, gofynnir iddo fel arfer gadarnhau'r honiad yn ysgrifenedig.

4.14 Pan fydd corff dyfarnu'n derbyn honiad, byddan nhw'n gwerthuso'r honiad yn sgil yr holl wybodaeth sydd ar gael, i weld a oes achos i ymchwilio ymhellach.

Yr hyn y mae cyrrff dyfarnu'n ei wneud ar ôl cael honiadau a hysbysiadau ynghylch amheuron o gamymddwyn

4.15 Mae'r camau canlynol yn amlinellu'r hyn y mae cyrrff dyfarnu'n ei wneud ar ôl cael honiadau a hysbysiadau ynghylch amheuron o gamymddwyn:

- Honiad/hysbysiad ynghylch amheuron o gamymddwyn yn dod i law
- Corff dyfarnu yn adolygu ac yn asesu'r strategaeth ymchwilio ac a oes angen cynnal ymchwiliad
- Corff dyfarnu yn gwneud gwaith ymchwil pen desg cefndirol (adolygiad ffeithiol o'r honiad neu'r hysbysiad, achosion camymddwyn hanesyddol, niferoedd ymgeiswyr)
- Casglu gwybodaeth
- Adolygu'r dystiolaeth (adolygu'r holl wybodaeth a gasglwyd er mwyn penderfynu a yw'r dystiolaeth yn cefnogi'r honiadau ac a oes pryderon eraill wedi codi yn ystod yr ymchwiliad)
- Canfyddiadau'r ymchwiliad
- Adolygu'r achos/ymchwiliad (defnyddio'r dystiolaeth i nodi unrhyw achosion posibl o dorri rheoliadau / manylebau)
- Gweithdrefn ddiannod (os caiff ei defnyddio, gweler adran 6)
- Pwyllgor Camymddwyn (y Pwyllgor Camymddwyn yn penderfynu ar ganlyniad yr ymchwiliad)
- Canlyniad terfynol

Gall rhai o'r camau a amlinellir uchod ddigwydd ar yr un pryd. Os yw hynny'n briodol ac os yw'r holl wybodaeth wedi cael ei chyflwyno ar y dechrau, gall corff dyfarnu fynd yn syth at Bwyllgor

Camymddwyn e.e. amheuron bod ymgeisydd wedi camymddwyn gan ddefnyddio ffôn symudol.

Yn ystod ymchwiliad, efallai y bydd cyrff dyfarnu'n rhannu gwybodaeth â chyrff dyfarnu neu sefydliadau eraill, fel mae adran 11.3 yn ei ddisgrifio.

4.16 Pan gynhelir ymchwiliad i amheuron o gamymddwyn gan staff canolfan, bydd cyrff dyfarnu yn ymdrechu i ddiogelu buddiannau ymgeiswyr yr effeithiodd hyn yn andwyol arnyn nhw heb unrhyw fai arnyn nhw eu hunain. Os yw digwyddiad lle amheuir camymddwyn gan staff canolfan wedi rhoi mantais i ymgeiswyr, bydd angen i gyrff dyfarnu ystyried cymryd camau priodol i ddiogelu uniondeb cymwysterau a chynnal hyder y cyhoedd.

4.17 Mae pob corff dyfarnu'n ceisio cwblhau pob ymchwiliad mor gyflym â phosibl. Fodd bynnag, mae gan bob ymchwiliad ei gymhlethdodau ei hun a all effeithio ar amserlenni a chanlyniadau ymchwiliadau.

5. Casglu gwybodaeth

Ymchwiliadau

5.1 Pan fydd y corff dyfarnu'n penderfynu bod angen mwy o wybodaeth ar ymchwiliad, bydd angen penodi unigolyn i gasglu'r wybodaeth honno. Gwneir hyn er mwyn penderfynu a oes digon o dystiolaeth i gefnogi'r honiad ai peidio.

5.2 Nid yw honiad o gamymddwyn wedi'i brofi nes bod yr holl wybodaeth berthnasol wedi'i chasglu a'i hystyried.

5.3 Bydd ymchwiliad yn galluogi'r corff dyfarnu i benderfynu ar achos – efallai y penderfynir nad oes achos am nad oes dystiolaeth i gefnogi'r honiad wedi dod i law yn ystod yr ymchwiliad. Fel arall, gall arwain at ganfyddiad bod camymddwyn wedi digwydd a all olygu sancsiwn i unigolyn neu unigolion, a/neu i ganolfan (gweler adrannau 7-10).

Penodi casglwr gwybodaeth

5.4 Bydd y corff dyfarnu'n penderfynu pwy ddylai gasglu gwybodaeth ar gyfer yr ymchwiliad. Ymhlith yr unigolion y gellir eu dewis mae:

- pennaeth y ganolfan
- Cadeirydd Llywodraethwyr y ganolfan;
- cyflogwr atebol (neu ei g/chynrychiolydd) e.e. Cyfarwyddwr Addysg, Prif Swyddog Gweithredol ymddiriedolaeth aml-academi;
- staff corff dyfarnu o'r tîm ymchwilio i gamymddwyn; neu
- Unigolyn cymwys ac addas arall megis Arolygydd Ofsted neu bennaeth ysgol arall yn yr un ymddiriedolaeth aml-academi.

Ni ddylai'r sawl sy'n casglu gwybodaeth fod ag unrhyw fudd personol na gwrthdaro buddiannau arall yng nghanlyniad yr ymchwiliad. Mae Atodiad 3 yn rhoi arweiniad ar gasglu gwybodaeth a rheoli gwrthdaro buddiannau.

Rhaid i'r unigolyn sydd wedi cael caniatâd i gasglu gwybodaeth gyflwyno adroddiad i'r corff dyfarnu erbyn yr amser a nodwyd a darparu'r holl dystiolaeth y gofynnwyd amdani. Byddai methu â gwneud hynny ynddo ei hun yn gallu bod yn gyfystyr â chamymddwyn, fel sydd wedi'i amlinellu yn adrannau 7 – 9 y ddogfen hon.

5.5 Fel arfer, byddai corff dyfarnu yn disgwyl i bennaeth y ganolfan, neu uwch aelod o staff a enwebir gan y pennaeth, gasglu gwybodaeth ar ei ran. Ni ddylai'r sawl sy'n casglu gwybodaeth fod ag unrhyw fudd personol yn y broses. Mae mwy o wybodaeth am wrthdaro buddiannau yn adrannau 5.7-5.9.

5.6 Pan fydd pennaeth y ganolfan yn dymuno penodi aelod o staff i gasglu gwybodaeth, rhaid cael cytundeb y corff dyfarnu yn gyntaf. Bydd pennaeth y ganolfan yn parhau i fod yn gyfrifol am sicrhau y cafwyd y wybodaeth hon yn briodol. Rhaid i bennaeth y ganolfan sicrhau bod y gwaith casglu gwybodaeth yn cwrdd ag unrhyw derfynau amser a gofynion a bennwyd gan y corff dyfarnu.

Gwrthdaro buddiannau

5.7 Ym mhob achos, rhaid i bennaeth y ganolfan roi cadarnhad i'r corff dyfarnu o bwy fydd yr unigolyn a fydd yn casglu gwybodaeth a bod yr unigolyn ar lefel briodol o fewn y ganolfan, bod ganddo brofiad o gynnal mathau tebyg o ymchwiliadau ac na fydd y penodiad yn creu gwrthdaro buddiannau. Bydd y corff dyfarnu'n cadarnhau a yw'n cytuno â'r casglwr gwybodaeth a awgrymwyd ai peidio. Byddai gwrthdaro buddiannau yn codi yn yr achosion canlynol:

- pan fo gan y casglwr gwybodaeth gyfrifoldeb rheoli llinell uniongyrchol dros unrhyw rai o'r unigolion a gyhuddir;
- pan fo gan y casglwr gwybodaeth gyfrifoldeb cyffredinol am y maes gwaith sydd o dan sylw yn yr ymchwiliad;
- pan fo gan y casglwr gwybodaeth berthynas, ar wahân i berthynas waith, ag unrhyw rai o'r

unigolion a gyhuddir;

- nid yw'r amgylchiadau uchod yn gymwys ond mae canfyddiad neu y gallai fod canfyddiad o wrthdaro buddiannau.

Er enghraifft, mae honiad wedi dod i law nad yw Swyddog Arholiadau wedi cwblhau'r gwiriad 'pâr arall o lygaid' cyn agor pecynnau papurau cwestiynau, a bod hynny wedi arwain at dor diogelwch. Mae'r pennaeth yn cynnig y dylai Pennaeth Cyswllt gasglu gwybodaeth am ei fod yn uwch aelod o staff, ei fod wedi cynnal ymchwiliadau mewnol o'r blaen ac nid oes ganddo gyfrifoldeb rheoli llinell uniongyrchol dros y swyddog arholiadau. Fodd bynnag, mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol am arholiadau ac asesiadau yn yr ysgol ac, felly, nid yw'n gasglwr gwybodaeth priodol.

5.8 Os bydd unrhyw bryderon ynghylch gwrthdaro buddiannau neu addasrwydd y darpar gasglwr gwybodaeth, rhaid i bennaeth y ganolfan gysylltu â'r corff dyfarnu cyn gynted â phosibl i drafod y mater.

5.9 Yn achlysurol iawn, gall ddod i'r amlwg bod gan y casglwr gwybodaeth wrthdaro buddiannau ar ôl iddo gasglu'r wybodaeth a chyflwyno adroddiad. Yn yr achosion hyn, efallai y bydd angen i'r ymchwiliad gael ei gynnal eto gan gasglwr gwybodaeth arall.

Dirprwyo cyfrifoldebau casglu gwybodaeth

5.10 Pan fydd y corff dyfarnu'n dirprwyo'r cyfrifoldebau casglu gwybodaeth i bennaeth y ganolfan, bydd y corff dyfarnu'n nodi'r canlynol:

- yr honiad a wnaed (efallai y caiff yr honiad ei ail-olygu – gweler adrannau 5.30-5.33 i gael rhagor o wybodaeth);
- pam y byddai hyn yn gyfystyr â chamymddwyn, os caiff ei brofi;
- pwy y mae angen i'r ganolfan gyfweled â nhw/casglu datganiadau ganddynt – gallai hyn gynnwys staff a/neu fyfyrwyr;
- p'un a oes angen unrhyw wybodaeth arall (fel rhestr dosbarth, cofnodion y CAAA, dogfennau ysgrifenedig a roddodd yr athro/athrawes i'r myfyrwyr ac ati);
- y llinellau ymholi allweddol y mae'n rhaid i'r casglwr gwybodaeth eu dilyn er mwyn ymdrin yn briodol â'r honiadau a wnaed;
- yr amserlenni disgwyliedig ar gyfer casglu gwybodaeth a chyflwyno'r adroddiad dilynol.

5.11 Dylai'r rhai sy'n gyfrifol am gasglu gwybodaeth ar gyfer ymchwiliad gael y wybodaeth a nodir gan y corff dyfarnu, yn y fformatau ac o fewn yr amserlenni gofynnol. Dylai unigolion bob amser gasglu'r wybodaeth a nodir gan y corff dyfarnu, waeth beth fo'u hasesiad nhw o'r mater.

5.12 Wrth gyfweled ag aelodau o staff y ganolfan neu fyfyrwyr, rhaid i ganolfannau gynnal y cyfweiliadau hynny yn unol â'u polisi mewnol eu hunain ar gyfer cynnal ymholiadau yn ogystal â gofynion y ddogfen hon. Dylai hyn gynnwys cyfeirio at eu polisi diogelu mewnol eu hunain ar gyfer cyfweled ag unigolion allai fod mewn perygl, ac os oes gan ganolfan unrhyw bryderon am lesiant unigolyn dylent gysylltu â'r corff dyfarnu cyn cynnal y cyfweiliad.

5.13 Rhaid i gasglwyr gwybodaeth sicrhau bod unrhyw un sy'n gysylltiedig â chamymddwyn yn cael gwybod eu hawliau yn unol â'r manylion yn adran 5.33.

5.14 Rhaid cofnodi neu drawsgrifio'r cyfweiliad a gofyn i'r sawl sy'n cael ei gyfweled gadarnhau ei fod yn gywir.

Ymchwiliadau uniongyrchol gan gyrrff dyfarnu

5.15 Mewn rhai achosion, bydd y corff dyfarnu'n casglu gwybodaeth ar gyfer yr ymchwiliad ei hun. Mae hyn yn cynnwys y sefyllfaoedd canlynol:

- pan na all y ganolfan benodi casglwr gwybodaeth priodol; a/neu
- pan fo'r ganolfan yn gwrthod penodi casglwr gwybodaeth (mae'n debygol y byddai hyn,

- ynddo'i hun, yn gyfystyr â chamymddwyn); a/neu
- pan fo natur yr honiad yn golygu y byddai'n amhriodol i'r ganolfan benodi casglwr gwybodaeth. Gall hyn ddigwydd o dan yr amgylchiadau canlynol:
 - pan fo'r camymddwyn honedig yn systemig
 - pan fo pennaeth y ganolfan yn gysylltiedig â'r camymddwyn honedig
 - pan fo risg ehangach i enw da ac uniondeb y system arholiadau, er enghraifft, torri diogelwch papur cwestiynau ar-lein.

5.16 Y corff dyfarnu sy'n penderfynu a ddylai ymchwilio i achos ei hun ac mae'r corff dyfarnu'n cadw'r hawl i gynnal ymchwiliad ei hun os mai'r dyna'r peth mwyaf priodol i'w wneud yn ei farn ef, gan gynnwys mewn achosion lle mae wedi gofyn i bennaeth y ganolfan gasglu gwybodaeth i ddechrau.

5.17 Fel arfer, bydd y corff dyfarnu'n gohebu â'r unigolyn priodol yn y ganolfan (pennaeth y ganolfan, fel arfer) ymlaen llaw i drefnu cyfweiliadau ac unrhyw weithgarwch ymchwilio priodol arall.

5.18 Ar adegau prin, gall y corff dyfarnu benderfynu bod angen ymweld â'r ganolfan yn ddi-rybudd. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, rhaid i'r ganolfan ymdrechu i gydweithio â staff y corff dyfarnu a bodloni eu ceisiadau am wybodaeth a data. Bydd gan staff y corff dyfarnu ID priodol i gadarnhau pwy ydyn nhw.

5.19 Wrth drefnu ymchwiliad uniongyrchol, sy'n cynnwys casglu tystiolaeth, bydd y corff dyfarnu'n nodi'r canlynol yn glir:

- yr honiad a wnaed (efallai y caiff yr honiad ei ail-olygu – gweler adrannau 5.29-5.33 i gael rhagor o wybodaeth);
- pam y byddai hyn yn gyfystyr â chamymddwyn, os caiff ei brofi;
- pwy y mae angen iddo gyfweld â nhw/casglu datganiadau ganddynt – gallai hyn gynnwys aelodau o staff y ganolfan a myfyrwyr;
- yr amserlenni disgwylidig ar gyfer casglu gwybodaeth;
- p'un a oes angen casglu unrhyw ddogfennau ysgrifenedig o'r ganolfan yn rhan o'u hymchwiliad;
- y gofynion ar gyfer cynnal unrhyw gyfweiliadau – er enghraifft, ystafelloedd, mynediad at wybodaeth, gofynion diogelu wrth gyfweld â myfyrwyr neu oedolion sy'n wynebu risg.

5.20 Yn aml wrth gasglu gwybodaeth, cynhelir cyfweiliadau ag unigolion am yr honiadau a wnaed. Bydd y corff dyfarnu'n gofyn am ganiatâd gan y sawl sy'n cael ei gyfweld i recordio'r cyfweiliadau hynny a bydd yn rhoi trawsgrifiad ysgrifenedig i'r unigolyn fel y gall gadarnhau ei fod yn gywir.

5.21 Gall y corff dyfarnu benderfynu ei bod yn well cynnal cyfweiliadau o bell, drwy MS Teams neu adnodd tebyg. Caiff y cyfweiliadau hyn eu recordio hefyd a chaiff trawsgrifiad ei anfon at yr unigolyn fel y gall gadarnhau ei fod yn gywir.

5.22 Gall fod angen i gorff dyfarnu gyfweld ag ymgeiswyr yn ystod ymchwiliad. Os yw'r ymgeisydd yn blentyn neu'n oedolyn sy'n wynebu risg, yna ym mhresenoldeb oedolyn priodol yn unig y bydd cyrff dyfarnu'n gwneud hyn. Bydd cyrff dyfarnu'n ystyried unrhyw anawsterau neu anableddau dysgu, neu gorfforol, wrth gynnal cyfweiliadau.

Gwybodaeth a geir gan unigolion

5.23 Gellir cael gwybodaeth gan unigolion yn ystod cam casglu gwybodaeth ymchwiliad drwy ddatganiadau neu gyfweiliadau.

5.24 Dylid cynnal cyfweiliad â'r sawl a gyhuddir o gamymddwyn ac unrhyw berson a wnaeth dystio neu sy'n debygol o fod yn ymwybodol o ffeithiau sy'n berthnasol i'r honiad o gamymddwyn a/neu gofyn iddo roi datganiad.

5.25 Rhaid i bob datganiad sy'n dod i law gynnwys geiriau'r unigolyn ei hun a rhaid ei lofnodi a'i

ddyddio.

5.26 Pan gynhelir cyfweiliad ag unrhyw aelod o staff canolfan neu ymgeisydd sy'n oedolyn, gall oedolyn priodol neu ymgynghorydd (a allai fod yn gynrychiolydd cymdeithas athrawon neu sefydliad arall) fod yn bresennol. Gall oedolyn priodol fod yn bresennol hefyd gydag ymgeiswyr sy'n blant a/neu'n wynebu risg.

5.27 Nid oes angen i ymgynghorwyr cyfreithiol fod yn rhan o'r broses, o leiaf lle nad oes unrhyw honiad o ymddygiad troseddol. Fodd bynnag, os yw'r sawl sy'n cael ei gyfweled am gael presenoldeb ymgynghorydd cyfreithiol, dylid hysbysu pawb arall o flaen llaw er mwyn rhoi'r cyfle iddyn nhw gael cefnogaeth debyg. Ni fydd corff dyfarnu'n atebol am unrhyw ffioedd proffesiynol y mae'n rhaid eu talu.

5.28 Ni ddylai'r unigolyn sydd gyda'r sawl sy'n cael ei gyfweled gymryd rhan weithredol yn y cyfweiliad. Yn benodol, ni ddylai'r unigolyn hwnnw ateb cwestiynau ar ran y sawl sy'n cael ei gyfweled.

5.29 Dylai pawb sy'n cael eu cyfweled neu'n cyflwyno datganiad fod yn ymwybodol y caiff y wybodaeth maen nhw'n ei darparu ei rhannu â chyrrff dyfarnu sy'n cadw'r hawl i rannu eu datganiadau, cofnodion neu drawsgrifiadau unrhyw gyfweiliadau a gynhelir, â phobl eraill sy'n rhan o'r achos ac unrhyw drydydd parti priodol arall yn ôl y disgrifiad ym mharagraffau 4.1.2 a 7.11. Gellir rhannu'r wybodaeth hon ar unrhyw adeg yn ystod neu ar ôl yr ymchwiliad.

Diogelu cyfrinachedd/anhysbysrwydd

5.30 Ni fydd corff dyfarnu fel arfer yn atal unrhyw wybodaeth am ddeunydd a gafwyd neu a grëwyd yn ystod ymchwiliad i honiad o gamymddwyn, rhag pennaeth canolfan neu'r sawl dan ymchwiliad.

5.31 Fodd bynnag, mae'n rhaid iddo gydymffurfio â'r ddeddf diogelu data ac yn benodol gall atal gwybodaeth os yw'r wybodaeth honno'n datgelu hunaniaeth rhywun sydd wedi gofyn am gael cadw ei hunaniaeth yn gyfrinachol. Er nad ydynt yn gorff rhagnodedig a gaiff eu cwmpasu gan y Ddeddf Datgelu Gwybodaeth Gyhoeddus, bydd cyrrff dyfarnu'n cydymffurfio â cheisiadau o'r fath os gallant wneud hynny'n rhesymol er mwyn peidio â rhwystro unigolion rhag cyflwyno pryderon dilys.

5.32 Mewn achosion o'r fath, bydd y corff dyfarnu'n atal unrhyw wybodaeth fyddai'n datgelu enw'r unigolyn, ac yn esbonio pam nad oes modd darparu'r wybodaeth a ataliwyd. Gall hyn gynnwys ail-olygu gwybodaeth o'r honiad gwreiddiol a ddaeth i law.

Hawliau unigolion a gyhuddir – casglu gwybodaeth

5.33 Pan fydd digon o dystiolaeth ar gael, ym marn y casglwr gwybodaeth, i ddangos y gall unigolyn fod wedi camymddwyn, rhaid i'r unigolyn hwnnw (yr ymgeisydd neu'r aelod o staff) gael:

- ei hysbysu (yn ysgrifenedig fyddai orau) o'r honiad yn ei erbyn;
- cael copi o gyhoeddiad y CGC *Amau Camymddwyn: Polisiâu a Gweithdrefnau*: <http://www.jcq.org.uk/exams-office/malpractice>;
- gwybod am yr holl dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad sy'n cefnogi'r honiad;
- gwybod bod darparu gwybodaeth gamarweiniol neu anghywir yn fwriadol yn gyfystyr â chamymddwyn.
- gwybod y canlyniadau posibl pe byddai achos o gamymddwyn yn cael ei brofi (fel y nodir yn atodiadau 4-6);
- cyfle a digon o amser i ystyried ei ymateb i'r honiadau;
- cyfle i gyflwyno datganiad ysgrifenedig mewn ymateb i'r honiadau;
- bod yn ymwybodol, os yw'r achos yn cael ei gyfeirio at Bwyllgor Camymddwyn y corff dyfarnu, y byddant yn:
 - cael set gyflawn o ddogfennau'r achos
 - cael cyfle i ddarllen, a gwneud datganiad mewn ymateb i, ddogfennau'r achos
 - cyfle i geisio cyngor proffesiynol a rhoi datganiad ategol;

- gwybod am ei hawl i apelio os bydd yn cael sancsiwn (fel y nodir yn nogfen y CGC *Canllaw i Brosesau Apelio Cyrff Dyfarnu*): <http://www.jcq.org.uk/exams-office/appeals>.

5.34 Mae Pennaeth y Ganolfan yn gyfrifol am sicrhau bod yr unigolyn a gyhuddir yn cael gwybod am ei hawliau a'i gyfrifoldebau. Lle nodir bod angen defnyddio disgrisiwn o ran amgylchiadau'r achos a sut y caiff y dystiolaeth ei chyflwyno i'r unigolyn a gyhuddir (er enghraifft, os oes ganddo bryderon am ddatgelu pwy yw trydydd parti a grybwyllir yn y dogfennau), dylai drafod hyn â'r corff dyfarnu.

Cwblhau a chyflwyno'r adroddiad

5.35 Ar ôl i'r broses casglu gwybodaeth ddod i ben, rhaid i bennaeth y ganolfan (neu gasglwr gwybodaeth arall a benodwyd) gyflwyno adroddiad ysgrifenedig yn crynhoi'r wybodaeth a gasglwyd a'r camau a gymerwyd i'r corff dyfarnu perthnasol, ynghyd â'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod ei ymholiadau.

5.36 Rhaid i'r adroddiad gynnwys datganiad ynghylch ffeithiau'r achos, gan gynnwys cofnod manwl o amgylchiadau'r camymddwyn honedig a disgrifiad gwrthrychol o'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad, a rhaid iddo gynnwys manylion unrhyw wybodaeth esgusodol (neu ffactorau lliniaru) a ganfuwyd yn ystod y broses ymchwilio.

5.37 Dylid defnyddio ffurflen JCQ M1 wrth roi gwybod am achosion yn ymwneud ag ymgeiswyr; ar gyfer staff canolfannau, dylid defnyddio ffurflen JCQ M3. Mae'r rhain ar gael ar wefan y CGC: <http://www.jcq.org.uk/exams-office/malpractice>.

5.38 Rhaid i'r casglwr gwybodaeth sicrhau bod yr unigolion a gyhuddir yn cael gwybod am eu hawliau a'u cyfrifoldebau (adran 5.33) cyn cyflwyno'r adroddiad i'r corff dyfarnu. Rhaid cwblhau'r rhestr gwirio o fewn y ffurflenni er mwyn rhoi sicrwydd bod hyn wedi cael ei wneud.. Mae angen rhestr wirio ar wahân i bob aelod staff sydd wedi'i gysylltu â'r honiad.

5.39 Rhaid darparu'r dystiolaeth ganlynol gyda'r adroddiad (fel y bo'n briodol):

- unrhyw ddatganiadau ysgrifenedig, trawsgrifiadau o gyfweiliadau â'r athro (athrawon), goruchwyllydd (goruchwylwyr), asesydd, gwiriwr (gwirwyr) mewnol neu staff eraill sy'n rhan o'r camymddwyn honedig neu a ddarparodd wybodaeth sy'n berthnasol i'r camymddwyn honedig. Rhaid i bob dogfen o'r fath gael ei llofnodi a'i dyddio gan yr unigolion dan sylw;
- trawsgrifiadau o gyfweiliadau â/datganiadau ysgrifenedig gan unrhyw ymgeiswyr sy'n rhan o'r camymddwyn honedig neu y mae'r camymddwyn honedig wedi effeithio arnynt. Rhaid i'r holl ddogfennau hyn gael eu llofnodi a'u dyddio gan yr ymgeisydd, a rhaid i unrhyw ddatganiadau gynnwys geiriau'r ymgeiswyr eu hunain. Wrth adrodd am gamymddwyn gan ymgeiswyr, os nad amgaeir datganiad(au) gan yr ymgeisydd (ymgeiswyr), dylai canolfannau roi croes yn y blwch ar y ffurflen JCQ M1 i nodi bod yr ymgeisydd wedi cael cyfle i wneud datganiad, ond ei fod wedi dewis peidio â gwneud hynny;
- manylion am sut mae'r ganolfan yn hysbysu staff ac ymgeiswyr am reoliadau'r corff dyfarnu;
- cynlluniau eistedd yn dangos union leoliad yr ymgeiswyr yn yr ystafell arholiadau;
- copïau/lluniau o ddeunydd heb ei ganiatáu sy'n cael ei ganfod yn yr ystafell arholi (lle bo'n briodol, dylai canolfannau gadw'r deunydd heb ei ganiatáu gwreiddiol);
- unrhyw waith gan ymgeiswyr/deunydd cysylltiedig (e.e. deunydd ffynhonnell ar gyfer asesiad di-arholiad/gwaith cwrs) sy'n berthnasol i'r ymchwiliad;
- unrhyw adnoddau addysgu/deunydd/manylion adborth a roddwyd i ymgeiswyr sy'n

berthnasol i'r ymchwiliad;

- manylion unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r ymchwiliad, fel ceisiadau am/dogfennau sy'n ymwneud â threfniadau mynediad;
- Unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth berthnasol arall sydd heb eu rhestru uchod ond sy'n berthnasol i'r achos dan sylw, er enghraifft, tystiolaeth CCTV;
- crynodeb o'r camau a gymerir gan y ganolfan i liniaru effaith unrhyw gamymddwyn a'r camau a gymerir i atal camymddwyn o'r fath rhag digwydd eto.

5.40 Ar sail yr adroddiad, ac unrhyw ddogfennau ategol a ddarperir, bydd y corff dyfarnu'n penderfynu a oes tystiolaeth o gamymddwyn ac a oes angen ymchwilio ymhellach. Gan hynny, hysbysir pennaeth y ganolfan.

6. Y penderfyniad

Gweithdrefn ddiannod

6.1 Mewn achosion syml lle nad yw'n ymddangos bod unrhyw her nac amheuaeth i'r dystiolaeth, gall y cyrff dyfarnu alw am weithdrefn ddiannod.

6.2 Mae enghreifftiau o lle gellir galw am weithdrefn ddiannod yn cynnwys:

- mae'r wybodaeth gychwynol a ddarparwyd gan y ganolfan yn ddigonol er mwyn i aelod o staff y corff dyfarnu wneud penderfyniad ar unwaith;
- mae'r wybodaeth sydd ar gael i'r corff dyfarnu yn dangos yn glir bod camymddwyn wedi digwydd (e.e. iaith anwedus ar sgript ymgeisydd).

6.3 Mewn achosion o'r fath, gall person penodedig yn y corff dyfarnu ddod i gasgliad bod camymddwyn wedi'i brofi a gall gyflwyno sancsiwn neu sancsiynau. Caiff yr unigolyn (unigolion) a'r ganolfan dan sylw eu hysbysu o'r canfyddiadau camymddwyn a'r sancsiwn (sancsiynau) a gyflwynir; y dystiolaeth sy'n cefnogi'r casgliad bod camymddwyn wedi digwydd; bod gweithdrefn ddiannod wedi cael ei defnyddio; a bod hawl ganddynt i herio'r penderfyniad.

6.4 Os caiff sancsiwn ei gyflwyno o dan y weithdrefn ddiannod, gall yr aelod(au) o staff y ganolfan neu'r ganolfan a gafodd y sancsiwn herio'r penderfyniad drwy ofyn i'r mater gael ei gyfeirio at y Pwyllgor Camymddwyn. Mewn achosion o gamymddwyn gan ymgeiswyr, mae gan y ganolfan yr hawl i herio'r penderfyniad drwy ofyn i'r mater gael ei gyfeirio at y Pwyllgor Camymddwyn. Mae ganddynt 14 diwrnod i wneud hynny. Yna caiff yr achos ei ystyried gan y Pwyllgor Camymddwyn.

6.5 Bydd y Pwyllgor Camymddwyn yn ystyried yr achos yn unol ag adrannau 6.7-6.23 isod.

6.6 Bydd y Pwyllgor Camymddwyn yn ystyried y mater o'r newydd. O ganlyniad, gall ddod i gasgliad gwahanol o ran p'un a oedd camymddwyn wedi digwydd, a gall benderfynu cyflwyno'r un sancsiwn (sancsiynau), neu sancsiwn (sancsiynau) llai neu fwy difrifol. Os bydd y Pwyllgor Camymddwyn yn penderfynu y dylid cyflwyno sancsiynau, gellir apelio yn eu herbyn yn unol ag adrannau 6.12 a 12 isod.

Y Pwyllgor Camymddwyn

6.7 Er mwyn penderfynu ar y canlyniadau mewn achosion o gamymddwyn honedig, gall cyrff dyfarnu benodi Panel neu Bwyllgor yn cynnwys aelodau mewnol a/neu allanol â phrofiad o weithdrefnau arholiadau ac asesu. Mewn rhai achosion, gellir dewis aelod neu aelodau penodol o staff y corff dyfarnu i gyflawni'r swyddogaeth hon, yn hytrach na phanel. Yn y ddogfen hon cyfeirir at y Pwyllgor (neu'r personél corff dyfarnu sy'n gyfrifol am ymdrin â chamymddwyn) fel y "Pwyllgor Camymddwyn".

Gall aelod o staff y corff dyfarnu nad yw wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r ymchwiliad gynorthwyo'r Pwyllgor Camymddwyn.

6.8 Mae'r canlynol yn berthnasol i weithgareddau'r Pwyllgor Camymddwyn (neu i'r personél sy'n gweithredu yn y rôl honno):

- mae gwaith y Pwyllgor Camymddwyn yn gyfrinachol;
- mae gofyn i aelodau'r Pwyllgor Camymddwyn enwi unrhyw achos y mae ganddynt wybodaeth personol amdano neu y gellid dweud yn rhesymol bod ganddynt ddiddordeb ynddo a allai arwain yn rhesymol at gasgliad y gallent ddangos tuedd. Ni fydd unrhyw aelod sydd â diddordeb personol agos yn cael trafod yr achos o gwbl ac ni fydd yn bresennol pan fydd y Pwyllgor Camymddwyn yn trafod y mater;
- nid oes gan yr unigolion a gyhuddir, penaethiaid canolfannau a'u cynrychiolwyr yr hawl i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Camymddwyn.

6.9 Y brif egwyddor wrth lunio'r Pwyllgor Camymddwyn yw sicrhau bod pawb sy'n perthyn iddo yn annibynnol ar y rhai wnaeth gynnal yr ymchwiliad ei hun.

6.10 Ni fydd staff cyrff dyfarnu sydd wedi casglu gwybodaeth yn uniongyrchol ar gyfer yr achos yn pennu'r canlyniad.

6.11 Yn achos gwrandawiadau/cyfarfodydd y Pwyllgor Camymddwyn, ni fydd unrhyw un sy'n datgan bod ganddynt fuddiant yng nghanlyniad yr achos yn bresennol pan fydd yr achos yn cael ei ystyried.

6.12 Yr unig dystiolaeth fydd yn cael ei rhoi i'r Pwyllgor Camymddwyn yw gwybodaeth sy'n berthnasol i'r achos a ddarparwyd hefyd i'r unigolyn y gwnaed yr honiad yn ei erbyn. I osgoi unrhyw amheuaeth, os bydd yr unigolyn y gwnaed yr honiad yn ei erbyn yn derbyn deunydd sydd wedi'i ail-olygu (e.e. tynnu enwau unigolion) bydd y deunydd a dderbynnir gan y Pwyllgor Camymddwyn wedi'i ail-olygu yn yr un modd.

6.13 Bydd yr unigolyn y cyflwynwyd yr honiad yn ei erbyn yn cael cyfle i gyflwyno datganiad ysgrifenedig terfynol i'r Pwyllgor Camymddwyn yn sgil y deunydd a ddarparwyd. Darperir y datganiad ysgrifenedig terfynol i'r Pwyllgor Camymddwyn cyn y cyfarfod. Os yw'r honiadau'n ymwneud â mwy nag un person, dim ond y Pwyllgor Camymddwyn fydd yn cael datganiad terfynol pob unigolyn.

6.14 Wrth ystyried ymchwiliad i achos o gamymddwyn, dylid nodi y gall y Pwyllgor Camymddwyn benderfynu bod y problemau a nodwyd wedi codi o ganlyniad i fethiannau rheoli neu fethiannau gan y ganolfan (fel diffyg hyfforddiant priodol) ac y dylid gosod sanctsiynau ar benaethiaid canolfan neu ganolfannau o ganlyniad i hynny. Dylai penaeithiaid canolfan wybod, felly, y gallai'r Pwyllgor Camymddwyn osod sanctsiynau arnynt neu'r ganolfan er bod unigolion wedi'u cyhuddo'n ffurfiol o gamymddwyn. Dylai penaeithiaid canolfan sicrhau eu bod wedi ystyried a ddylent gyflwyno datganiad terfynol i'w ystyried gan y Pwyllgor Camymddwyn a'u bod wedi hysbysu unrhyw bartion priodol yn y ganolfan (fel cyfarwyddwyr, perchnogion ac ati) os yw'n bosibl y caiff sanctsiwn ei osod arni.

Gwneud y penderfyniad

6.15 Os cafodd unigolion y cyfle i wneud datganiad ysgrifenedig terfynol, ond eu bod wedi gwrthod y cyfle hwn, bydd yr achos yn mynd rhagddo'n seiliedig ar yr holl wybodaeth arall a dderbyniwyd.

6.16 Bydd y Pwyllgor Camymddwyn yn penderfynu:

- a ddilynwyd y gweithdrefnau cywir;
- yn ôl pwysau tebygolrwydd, a oes tystiolaeth bod camymddwyn wedi digwydd, yn ôl y diffiniad yn y ddogfen hon (gweler adran 1);
 - y rheoliad neu'r gofyniad yn y fanyleb yr honnwyd ei fod wedi'i dorri;
 - ffeithiau'r achos ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd iddo;
 - a yw'r ffeithiau y penderfynwyd arnynt felly yn golygu torri'r rheoliadau neu ofynion y fanyleb; a
- pwy sy'n gyfrifol am y camymddwyn.

6.17 Os yw'r Pwyllgor Camymddwyn yn penderfynu bod camymddwyn wedi digwydd, yna bydd yn ceisio pennu'r sanctsiwn/sanctsiynau priodol sydd i'w cymhwyso, os o gwbl, gan ystyried y sanctsiwn lleiaf difrifol yn gyntaf, gan ystyried unrhyw bwyntiau lliniarol a'r mesurau priodol i'w cymryd i amddiffyn uniondeb yr arholiad neu'r asesiad ac i atal camymddwyn yn y dyfodol.

6.18 Bydd pob achos o gamymddwyn honedig yn cael ei ystyried a'i benderfynu'n unigol yn ôl yr holl wybodaeth sydd ar gael. Os yw'n amlwg bod tystiolaeth glir a chadarn o ailadrodd patrwm o gamymddwyn, gellir ystyried hyn wrth benderfynu a ddylid gweithredu sanctsiwn mwy difrifol ai peidio.

6.19 Pan fydd y Pwyllgor Camymddwyn yn gwneud penderfyniad, bydd yn ceisio penderfynu'n unfrydol wrth ddod i'w gasgliadau, ond os bydd angen gellir penderfynu ar sail y mwyafrif.

6.20 Rhaid i'r Pwyllgor Camymddwyn fod yn fodlon ar ba mor debygol ydyw bod yr honiad wedi'i brofi (h.y. ei bod yn fwy tebygol ei fod wedi digwydd na ddim). Mae'n bosibl na fydd y dystiolaeth mewn rhai achosion yn gwbl bendant ond gall y corff dyfarnu benderfynu na all dderbyn gwaith ymgeisydd neu roi canlyniadau er mwyn gwarchod uniondeb y cymhwyster i'r mwyafrif. Lle bo'n briodol, gall y corff dyfarnu roi amcangyfrif o'r graddau ar gyfer y gydran/y cydrannau/yr uned(au) dan sylw.

6.21 Yn y sefyllfaoedd hynny lle caiff achos ei ohirio oherwydd bod angen gwybodaeth bellach ar y Pwyllgor Camymddwyn cyn gallu dod i benderfyniad, bydd y tîm ymchwilio a'r sawl y gwnaed yr honiad yn ei erbyn yn cael gwybod am y gohiriad a natur y cais.

6.22 Gellir apelio yn erbyn pob sanctiwn sy'n deillio o achosion o gamymddwyn. Gweler adran 12 a dogfen y CGC *Canllaw i brosesau apelio cyrff dyfarnu* i gael rhagor o wybodaeth: <http://www.jcq.org.uk/exams-office/appeals>.

7. Sanctsiynau

7.1 Bydd cyrff dyfarnu'n gosod sanctsiynau ar unigolion ac ar ganolfannau a geir yn euog o gamymddwyn er mwyn:

- lleihau'r risg i uniondeb yr arholiadau ac asesiadau, yn y presennol ac yn y dyfodol;
- cynnal hyder y cyhoedd wrth gyflwyno a dyfarnu cymwysterau;
- gwneud yn siŵr o leiaf nad oes unrhyw fanteision i'w hennill o dorri'r rheoliadau;
- atal unrhyw un arall rhag gwneud yr un peth.

7.2 Bydd cyrff dyfarnu yn gosod sanctsiynau ar unigolion a geir yn euog o gamymddwyn lle bo hynny'n briodol. Fel arfer, caiff sanctsiynau eu cyflwyno mewn achosion lle bu risg i uniondeb y cymhwyster. Yr ymgeisydd (ymgeiswyr) neu'r aelod cyfrifol o staff y ganolfan a fydd yn derbyn sanctsiynau fel arfer. Fodd bynnag, os credir yn gyffredinol bod camymddwyn wedi digwydd o ganlyniad i fethiant mawr wrth reoli adran neu ganolfan gyfan, gall y corff dyfarnu osod sanctsiynau ar y ganolfan a/neu reolwyr y ganolfan.

7.3 Wrth benderfynu ar y sanctsiwn (sanctsiynau) priodol, bydd y corff dyfarnu'n ystyried a oedd y camymddwyn a gyflawnwyd wedi tansellio, neu wedi ceisio tansellio, uniondeb ei arholiadau a'i asesiadau, neu a allai fod wedi tansellio hyder y cyhoedd.

7.4 Mae'r cyrff dyfarnu wedi cytuno y caiff sanctsiynau eu dewis o blith ystod ddiffiniedig fel arfer. Caiff y sanctsiynau mynegol y cytunwyd arnynt ar gyfer troseddau penodol eu nodi yn Atodiadau 4 (camymddwyn gan ganolfan), 5 (camymddwyn gan staff canolfannau) a 6 (camymddwyn gan ymgeisydd).

7.5 Mae cyrff dyfarnu yn cadw'r hawl i osod sanctsiynau'n hyblyg, y tu allan i'r ystodau a ddiffinnir, os ceir bod amgylchiadau arbennig o liniarol neu boenus yn bodoli.

7.6 Dim ond ar y dystiolaeth sydd ar gael y seilir sanctsiynau.

7.7 Bydd y cyrff dyfarnu'n sicrhau bod yr holl sanctsiynau a osodir ganddynt yn gyfiawn ac yn rhesymol.

7.8 Os caiff sanctsiynau eu gosod ar ymgeiswyr, byddant ond yn gymwys i asesiadau sy'n cael eu sefyll yn y gyfres/blwyddyn academaidd lle nodwyd camymddwyn a, lle bo hynny'n briodol, asesiadau yn y dyfodol (lle caiff ymgeisydd ei wahardd rhag astudio cymwysterau corff dyfarnu am gyfnod o amser).

7.9 Er mwyn bod yn gyson wrth osod sanctsiynau, ni fydd y cyrff dyfarnu fel arfer yn ystyried effeithiau ôl-ddiilynol (e.e. ar gais i fynd i'r brifysgol) unrhyw sanctsiwn arbennig a allai godi o amgylchiadau'r unigolyn.

7.10 Cedwir cofnod parhaol o effaith unrhyw sanctsiynau ar ganlyniadau ymgeisydd unigol. Oherwydd hynny ni ddylai canolfannau dynnu ymgeiswyr yn ôl ar ôl nodi unrhyw gamymddwyn, hyd yn oed os nad yw'r ymgeiswyr wedi cwblhau'r asesiadau dan sylw. Bydd gwneud hynny'n cael ei ystyried yn amheuaeth o gamymddwyn. Yn yr un modd, mae'n ofynnol i ganolfannau barhau i gofrestru ymgeisydd (ymgeiswyr) nad oeddent wedi'u cofrestru ar yr adeg y canfuwyd eu bod wedi camymddwyn (gweler adran 4.5 am fwy o fanylion). Bydd yr holl wybodaeth arall yn ymwneud ag achosion penodol o gamymddwyn neu anghysonderau yn cael ei dinistrio ar ôl i gyfnod cadw data'r corff dyfarnu ddod i ben.

7.11 Rhaid i bennaeth y ganolfan hysbysu'r unigolion hynny a gafodd eu canfod yn euog o gamymddwyn y gellid trosglwyddo gwybodaeth i gyrff dyfarnu eraill a/neu i awdurdodau priodol eraill. Bydd y wybodaeth hon fel rheol yn cynnwys enwau, troseddau a sanctsiynau'r sawl a ganfuwyd yn euog o dorri'r rheoliadau cyhoeddedig.

8. Sanctsiynau am gamymddwyn gan staff y ganolfan: unigolion

8.1 Wrth benderfynu ar y sanctsiwn priodol i'w osod ar unigolyn, bydd y corff dyfarnu'n ystyried a allai uniondeb ei gymwysterau fod yn y fantol pe byddai unigolyn y canfuwyd ei fod wedi camymddwyn yn ymwneud â'r gwaith o gynnal, goruchwyllo neu weinyddu arholiadau neu asesiadau'r corff dyfarnu yn y dyfodol.

8.2 Nid yw ymwneud ag unrhyw fater sy'n effeithio ar berthynas contractiol aelod o staff neu gontractwr gyda'i g/chyflogwr, neu'r un a gyflogodd ef/hi, yn rhan o swyddogaeth y corff dyfarnu. Mae cyrff dyfarnu'n cydnabod y gall cyflogwyr gymryd safbwynt gwahanol am honiad i'r un a gymerir gan y corff dyfarnu. Efallai y bydd cyflogwr am wneud penderfyniad terfynol ar ôl i'r corff dyfarnu ddod i'w benderfyniad.

8.3 Wrth benderfynu ar y sanctsiwn priodol, bydd y corff dyfarnu'n ystyried ffactorau megis:

- y risg posibl i uniondeb yr arholiad neu asesiad;
- yr effaith andwyol bosibl ar ymgeiswyr;
- nifer yr ymgeiswyr a/neu ganolfannau yr effeithir arnynt; a
- risg posibl i'r rhai sy'n dibynnu ar y cymhwyster (e.e. cyflogwyr neu aelodau'r cyhoedd).

Gall y corff dyfarnu ystyried, yn ôl ei ewyllys, ffactorau lliniarol sydd wedi'u cefnogi gan dystiolaeth briodol. Ni fydd anwybodaeth o'r rheoliadau, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried fel ffactor lliniarol.

8.4 Gellir gosod un neu fwy o sanctsiynau ar unigolion.

8.5 Lle y cafwyd aelod o staff neu gontractwr yn euog o gamymddwyn, gall corff dyfarnu osod un neu fwy o'r sanctsiynau canlynol, sy'n gyfan gwbl ar wahân i unrhyw sanctsiynau disgyblu canolfan:

Rhybudd ysgrifenedig

Rhybudd ysgrifenedig i'r aelod o staff yn nodi y bydd sanctsiynau penodol pellach yn cael eu gweithredu os bydd yn ailadrodd y drosedd o fewn cyfnod penodol.

Hyfforddiant

Er mwyn ymwneud â'r gwaith o gynnal arholiadau a/neu asesiadau'r corff dyfarnu yn y dyfodol, rhaid i'r aelod o staff ymgymryd â hyfforddiant neu fentora penodol, o fewn cyfnod penodol. Gall y corff dyfarnu ofyn am gadarnhad ysgrifenedig bod hyfforddiant wedi cael ei roi.

Amodau arbennig

Caiff amodau arbennig eu gosod ar yr aelod o staff mewn perthynas â'i rôl yn y dyfodol yn y broses o gynnal arholiadau a/neu asesiadau'r corff dyfarnu. Er enghraifft, rhaid i'r aelod o staff gael ei oruchwyllo.

Atal/gwahardd

Atal/gwahardd yr aelod o staff rhag ymwneud â'r gwaith o gynnal neu weinyddu arholiadau ac asesiadau'r corff dyfarnu am gyfnod penodol. Gellir hysbysu cyrff dyfarnu eraill, rheoleiddwyr a sefydliadau eraill fel y Teaching Regulation Agency (TRA) a Chyngor y Gweithlu Addysg (EWC) pan gaiff aelod o staff ei atal/gwahardd.

8.6 Hysbysir pennaeth y ganolfan am y sanctsiynau hyn a rhaid iddo sicrhau bod hyn yn cael ei fynegi i'r unigolyn/unigolion y mae'r sanctsiynau wedi'u gosod arnynt ac y cedwir at y sanctsiynau. Bydd unrhyw fethiant ar ran pennaeth y ganolfan i gyfathrebu unrhyw sanctsiwn i unigolyn yn cael ei ystyried yn gamymddwyn ynddo'i hun.

8.7 Os bydd aelod o staff canolfan yn symud i ganolfan arall tra ei fod yn destun canfyddiad o gamymddwyn neu sanctsiwn, neu os bydd aelod o staff y ganolfan yn symud i ganolfan arall yn ystod ymchwiliad, rhaid i bennaeth y ganolfan (y ganolfan lle digwyddodd y camymddwyn) hysbysu'r corff dyfarnu ar unwaith bod y symud hwn wedi digwydd. Mae cyrff dyfarnu yn cadw'r hawl i hysbysu pennaeth y ganolfan y mae'r aelod staff yn symud iddi am natur y canfyddiad o

gamymddwyn a/neu y sanctsiwn, a'r rheswm drostynt.

8.8 Os bydd canolfan yn newid corff dyfarnu ar gyfer cymhwyster a bod aelod o'r staff sy'n ymwneud â chyflwyno neu asesu'r cymhwyster yn destun sanctsiwn, rhaid i bennaeth y ganolfan hysbysu'r corff dyfarnu newydd.

8.9 Yn ôl ei ddisgresiwn, gall y corff dyfarnu ofyn i ganolfannau ymgymryd â gwaith monitro, neu i ddyfeisio cynllun i allu sicrhau bod y sanctsiynau yn erbyn staff canolfannau yn cael eu cymhwyso'n briodol. Mae gofynion o'r fath yn wahanol ac ar wahân i'r sanctsiynau a ddisgrifir yn adran 11.

9. Sanctsiynau am gamymddwyn gan staff y ganolfan: canolfannau

9.1 Gellir gosod un neu fwy o'r sanctsiynau isod ar ganolfannau.

9.2 Gallai cyrff dyfarnu, yn ôl eu hewyllys, osod y sanctsiynau canlynol yn erbyn canolfannau:

Rhybudd ysgrifenedig

Rhybudd ysgrifenedig i bennaeth y ganolfan yn ei hysbysu o'r camymddwyn ac yn rhoi rhybudd iddo y gellir cymryd camau gweithredu pellach (gan gynnwys gosod sanctsiynau ac amodau arbennig) os bydd yr un peth yn digwydd eto, neu os bydd mwy o gamymddwyn yn digwydd yn y ganolfan.

Adolygu ac adrodd gweithdrefnau/cynlluniau gweithredu

Bydd yn ofynnol i bennaeth y ganolfan adolygu gweithdrefnau'r ganolfan ar gyfer cynnal neu weinyddu arholiad/asesiad penodol, neu'r holl arholiadau/asesiadau yn gyffredinol. Bydd yn ofynnol i bennaeth y ganolfan hefyd gyflwyno adroddiad i'r corff dyfarnu ar y gwelliannau a roddwyd ar waith erbyn dyddiad penodol. Neu, bydd y corff dyfarnu a'r ganolfan yn cytuno ar gynllun gweithredu, y bydd angen ei roi ar waith fel amod o barhau i dderbyn cofrestriadau neu ymrestriadau gan y ganolfan.

Cymeradwyo tasgau asesu penodol

Cymeradwyo tasgau asesu penodol gan y corff dyfarnu mewn sefyllfaoedd lle y byddant fel arfer yn cael eu gadael i ewyllys y ganolfan.

Monitro neu arolygu ychwanegol

Gallai'r corff dyfarnu gynyddu, ar draul y ganolfan, y lefel arferol o fonitro sy'n digwydd mewn perthynas â'r cymhwyster (cymwysterau).

Dileu statws hawliau uniongyrchol

Gallai'r statws hawliau uniongyrchol gael ei dynnu oddi ar y ganolfan ac os felly, rhaid i wiriwr allanol y ganolfan awdurdodi pob cais am ardystio. (Dim ond i gymwysterau galwedigaethol y mae'r sanctsiwn hwn yn gymwys.)

Cyfyngiadau ar ddeunyddiau arholi ac asesu

Am gyfnod penodol, darperir papurau arholiad a deunyddiau asesu i ganolfan ychydig cyn y bydd papurau a deunyddiau o'r fath yn cael eu defnyddio. Gall y papurau hyn gael eu hagor a'u dosbarthu dan oruchwyliaeth swyddog y corff dyfarnu (neu asiant a benodir ganddo) sy'n gyfrifol am y danfoniad. Efallai y bydd gofyn i'r ganolfan hefyd drosglwyddo'r sgrïptiau wedi'u cwblhau ac unrhyw ddogfennaeth atodol berthnasol i swyddog y corff dyfarnu (neu asiant a benodir ganddo) yn hytrach na defnyddio'r dulliau dosbarthu arferol. Gellid rhoi'r mesurau hyn ar waith ar gyfer pynciau dethol neu ar gyfer pob pwnc.

Goruchwylwyr annibynnol

Penodi goruchwylwyr annibynnol, am gyfnod penodol o amser ac ar draul y ganolfan, i sicrhau bod arholiadau a/neu asesuadau yn cael eu cynnal yn unol â'r rheoliadau cyhoeddedig.

Atal ymrestriadau neu gofrestriadau arholiad ymgeiswyr

Gallai corff dyfarnu, am gyfnod o amser, neu tan y bydd mater penodol wedi'i gywiro, wrthod derbyn cofrestriadau neu ymrestriadau ymgeiswyr gan ganolfan. Gallai hyn gael ei weithredu ar gyfer pynciau/meysydd galwedigaethol penodol neu bob pwnc/maes galwedigaethol.

Tynnu cymeradwyaeth cymhwyster (cymwysterau) penodol yn ôl

Gallai corff dyfarnu dynnu cymeradwyaeth canolfan i gynnig un neu fwy o gymwysterau a gyhoeddir gan y corff dyfarnu hwnnw yn ôl.

Tynnu cydnabyddiaeth/cymeradwyaeth y ganolfan yn ôl

Gallai'r corff dyfarnu dynnu cydnabyddiaeth neu gymeradwyaeth y ganolfan yn ôl. Byddai hyn yn golygu na fydd y ganolfan yn gallu cyflwyno na chynnig unrhyw gymwysterau'r corff dyfarnu hwnnw i'r myfyrwyr. Hysbysir y rheoleiddwyr, y cyrff dyfarnu ac awdurdodau priodol eraill os bydd hyn yn cael ei wneud. Ar yr adeg y mae corff dyfarnu'n penderfynu tynnu cydnabyddiaeth canolfan yn ôl, hysbysir y ganolfan o'r dyddiad cynharaf y gall wneud cais arall am gofrestrriad ac unrhyw fesurau y bydd angen iddi eu cymryd cyn gwneud y cais hwn. Ni ddylai canolfannau y tynnwyd eu cydnabyddiaeth canolfan yn ôl gymryd yn ganiataol y bydd ail-gymeradwyaeth yn rhywbeth y mae disgwyl iddo ddigwydd.

9.3 Mae canolfannau yn atebol am unrhyw gostau i'w talu wrth sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r sancsiynau a/neu amodau arbennig.

10 Sanctiynau yn erbyn ymgeiswyr

10.1 Gellir gosod un neu fwy o sanctiynau ar ymgeiswyr (gweler Atodiad 6).

10.2 Gall cyrff dyfarnu, yn ôl eu disgrisiwn, osod y sanctiynau canlynol yn erbyn ymgeiswyr (dylid nodi, er bod rhifau ar y sanctiynau i'w gwneud yn rhwydd cyfeirio atynt, nad yw dilyniant y rhifau hynny'n awgrymu bod y sanctiynau'n mynd yn llymach. Nid yw pob sanctiwn yn berthnasol i bob math o gymhwyster):

1. Rhybudd

Rhybuddio'r ymgeisydd, os yw'n ailadrodd y drosedd o fewn cyfnod penodol o amser, y gallai sanctiynau penodol pellach gael eu gweithredu.

2. Colli'r holl farciau am adran

Bydd yr ymgeisydd yn colli'r holl farciau a enillwyd am ran arwahanol o'r gwaith. Gall adran fod yn rhan o gydran, neu'n ddarn unigol o asesiad di-arholiad os yw'n cynnwys sawl eitem.

3. Colli'r holl farciau am gydran

Bydd yr ymgeisydd yn colli'r holl farciau a enillwyd am gydran.

Yn amlach na dim, mae cydran yn rhan o gymwysterau llinol yn hytrach na chymhwyster unedol, ac felly gellir ystyried dewis y sanctiwn hwn yn lle sanctiwn 4. Mae gan rai unedau gydrannau hefyd, ac os felly mae lefel o sanctiwn rhwng rhifau 2 a 4 yn bosibl.

4. Colli'r holl farciau am uned

Bydd yr ymgeisydd yn colli'r holl farciau a enillwyd am uned. Dim ond os yw'r cymhwyster yn un unedol y bydd y sanctiwn hwn ar gael.

Yn achos cymwysterau llinol, sanctiwn 3 yw'r dewis. Bydd y sanctiwn hwn fel arfer yn caniatáu i'r ymgeisydd agregu neu wneud cais am ardystiad yn y gyfres honno, er y byddai hynny'n golygu marc neu radd ostyngol.

5. Diarddel o uned

Bydd yr ymgeisydd yn cael ei ddiarddel o'r uned. Dim ond os yw'r cymhwyster yn un unedol y bydd y sanctiwn hwn ar gael. Yn achos cymwysterau llinol sanctiwn 7 yw'r dewis.

Effaith y sanctiwn hwn yw atal yr ymgeisydd rhag agregu neu ofyn am ardystiad yn y gyfres honno, os yw'r ymgeisydd wedi gwneud cais am hynny.

Yn achos cymwysterau lle mae asesiadau'n digwydd drwy'r flwyddyn academaidd, caiff ymgeisydd ei ddiarddel o'r uned ac ni fydd yn gallu defnyddio'r uned i agregu/ardystio. Bydd angen i'r ymgeisydd ailwneud yr uned er mwyn bod yn gymwys i'w agregu/ardystio, yn amodol ar ofynion y corff dyfarnu ar gyfer y cymhwyster.

6. Diarddel o bob uned mewn un cymhwyster neu fwy a gymerwyd yn y gyfres neu flwyddyn academaidd honno

Os bydd yr amgylchiadau'n cyfiawnhau hynny, gellir defnyddio sanctiwn 5 ar gyfer unedau eraill a safwyd yn ystod yr un gyfres arholi neu asesu. (Bydd yr unedau hynny sydd yn y gronfa o gyfresi arholiadau blaenorol yn cael eu cadw.) Dim ond os yw'r cymhwyster yn un unedol y bydd y sanctiwn hwn ar gael. Yn achos cymwysterau llinol sanctiwn 8 yw'r dewis.

Yn achos cymwysterau lle mae'r asesiadau'n digwydd drwy gydol y flwyddyn academaidd, caiff yr ymgeisydd ei ddiarddel o'r uned(au) ac ni fydd yn gallu defnyddio'r uned hon (unedau hyn) i agregu/ardystio. Bydd angen i'r ymgeisydd ailwneud yr uned er mwyn bod

yn gymwys i'w agregu/ardystio, yn amodol ar ofynion y corff dyfarnu ar gyfer y cymhwyster.

7. Diarddel o gymhwyster cyfan

Caiff yr ymgeisydd ei ddiarddel o'r cymhwyster cyfan a gymerwyd yn y gyfres neu'r flwyddyn academiaidd honno. Dim ond os yw'r ymgeisydd wedi gofyn am agregiad y gellir gweithredu'r sancsiwn hwn i gymwysterau unedol. Mae unrhyw unedau sydd yn y gronfa o gyfresi blaenorol yn cael eu cadw, ond bydd yr unedau a gymerir yn y gyfres bresennol a'r cyfle agregu'n cael eu colli. Os nad yw ymgeisydd wedi gwneud cais am agregiad, yna sancsiwn 6 yw'r dewis. Gellir defnyddio hyn hefyd gyda chymwysterau llinol.

Yn achos cymwysterau lle mae'r asesiadau'n digwydd drwy gydol y flwyddyn academiaidd, caiff yr ymgeisydd ei ddiarddel o'r uned(au) ac ni fydd yn gallu defnyddio'r uned hon (unedau hyn) i agregu/ardystio. Bydd angen i'r ymgeisydd ailwneud yr uned er mwyn bod yn gymwys i'w agregu/ardystio, yn amodol ar ofynion y corff dyfarnu ar gyfer y cymhwyster.

8. Diarddel o'r holl gymwysterau a gymerwyd yn y gyfres neu'r flwyddyn academiaidd honno

Os bydd yr amgylchiadau'n cyfiawnhau hynny, gellir gweithredu sancsiwn 7 i gymwysterau eraill. Dim ond os yw'r ymgeisydd wedi gofyn am agregiad y gellir gweithredu'r sancsiwn hwn i gymwysterau unedol. Mae unrhyw unedau sydd yn y gronfa o gyfresi blaenorol yn cael eu cadw, ond bydd yr unedau a gymerir yn y gyfres bresennol a'r cyfle agregu'n cael eu colli. Os nad yw ymgeisydd wedi gwneud cais am agregiad, yna sancsiwn 6 yw'r dewis. Gellir defnyddio hyn hefyd gyda chymwysterau llinol. Dim ond y corff dyfarnu yr effeithir arno sy'n cymhwyso'r sancsiwn hwn.

9. Atal yr ymgeisydd

Caiff yr ymgeisydd ei atal rhag cynnig am un neu fwy o arholiadau am gyfnod penodol o amser. Gweithredir y sancsiwn hwn ar y cyd ag unrhyw sancisynau eraill a nodir uchod, os bydd yr amgylchiadau'n gwarantu hynny.

10.3 Os bydd ymgeisydd yn cael ei wahardd rhag cynnig am arholiad yn y dyfodol, yn ogystal â chael sancsiwn, gall pob ymgeisydd a gosbir trwy golli marciau neu ddiarddel, ailsefyll y gydran (cydrannau), uned(au) neu gymhwyster (cymwysterau) yr effeithiwyd arnynt yn y gyfres arholiadau neu'r cyfle asesu nesaf os yw cymhwyster y corff dyfarnu yn caniatáu hynny. Gall ymgeiswyr drosglwyddo canlyniad eu harnodiad i'r cyfle asesu nesaf, yn achos unrhyw gymwysterau sydd â chydran arnodiad (fel TGAU Saesneg Iaith neu Safon Uwch Cemeg), ar yr amod nad oes unrhyw arwydd bod camymddwyn wedi effeithio arno.

10.4 Efallai yr hoffai penaethiaid canolfannau weithredu ymhellach eu hunain mewn achosion o gamymddwyn gan ymgeiswyr.

11 Cyfathrebu penderfyniadau

11.1 Unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud, bydd pennaeth y ganolfan yn derbyn cadarnhad ysgrifenedig cyn gynted â phosibl.

Cyfrifoldeb pennaeth y ganolfan yw cyfathrebu'r penderfyniad hwnnw i'r unigolion dan sylw, ac i drosglwyddo manylion unrhyw sancsiynau a chamau gweithredu mewn achosion lle nodir bod angen gwneud hynny. Rhaid i bennaeth y ganolfan roi gwybod i'r unigolion hefyd os oes ganddynt yr hawl i apelio.

11.2 Fel arfer, bydd cyrff dyfarnu ond yn cyfathrebu'n uniongyrchol ag ymgeisydd (neu gynrychiolydd ymgeisydd) pan fydd yn ymgeisydd preifat neu pan fydd y corff dyfarnu wedi bod mewn cyswllt uniongyrchol â'r ymgeisydd ynghylch ei ymwneud honedig â chamymddwyn.

Mae cyrff dyfarnu'n cadw'r hawl i gyfathrebu'n uniongyrchol â'r ymgeiswyr ynghylch ymchwiliadau lle maent wedi'u heffeithio'n uniongyrchol ac nid yw'r corff dyfarnu yn sicr bod y ganolfan yn cyfathrebu'n briodol â'r ymgeisydd/ymgeiswyr,

11.3 Mae achosion o gamymddwyn fel arfer yn gyfrinachol rhwng y ganolfan a'r corff dyfarnu. Fodd bynnag, mewn achosion o gamymddwyn difrifol, lle mae uniondeb yr arholiad neu'r asesiad dan fygythiad i'r fath raddau fel ei fod yn drech na'r ddyletswydd i gadw cyfrinachedd, gall fod angen cyfnewid gwybodaeth rhwng:

- y rheoleiddwyr;
- cyrff dyfarnu eraill;
- cyrff rheoleiddio neu ymchwilio eraill;
- cyrff ymrestru ac ariannu proffesiynol; a

chanolfannau eraill lle y gallai'r camymddwyn effeithio ar y ffordd y cyflwynir cymhwyster corff dyfarnu.

11.4 Cyfrifoldeb pennaeth y ganolfan yw hysbysu'r unigolyn a gyhuddir y gallai'r corff dyfarnu rannu gwybodaeth yn unol â pharagraff 11.3.

12. Apeliadau

12.1 Mae pob corff dyfarnu wedi sefydlu trefn i ystyried apeliadau yn erbyn sancsiynau sy'n deillio o benderfyniadau camymddwyn.

Mae gan yr unigolion canlynol yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau'r Pwyllgor Camymddwyn neu swyddogion sy'n gweithredu ar ei ran:

- penaethiaid canolfannau, sy'n gallu apelio yn erbyn sancsiynau a osodir ar y ganolfan neu ar staff y ganolfan, yn ogystal ag ar ran ymgeiswyr a gofrestrwyd neu a ymrestrwyd am arholiad trwy'r ganolfan;
- aelodau o staff canolfannau, gan gynnwys y rhai a allai fod dan gontract i gyflawni swyddogaethau'n ymwneud ag asesiadau fel y nodir ar dudalen 6 y ddogfen hon, y gallent apelio yn erbyn sancsiynau a osodir arnynt yn bersonol;
- ymgeiswyr preifat;
- trydydd parti sydd wedi'i wahardd rhag sefyll neu gyflwyno arholiadau neu asesiadau'r corff dyfarnu.

12.2 Anfonir gwybodaeth am y broses o gyflwyno apêl at bob canolfan sy'n ymwneud â phenderfyniadau camymddwyn. Fel arfer, mae'n rhaid i apeliadau gael eu gwneud o fewn 14 diwrnod o dderbyn y penderfyniad ynghylch y camymddwyn.

12.3 Gellir gweld gwybodaeth bellach am broses apelio'r cyrff dyfarnu yn nogfen y CGC *Canllaw i brosesau apelio cyrff dyfarnu*: <http://www.jcq.org.uk/exams-office/appeals>

Ffynonellau gwybodaeth

Yn ogystal â'r gofynion a geir ym manyleb y pwnc neu'r cymhwyster, mae'r dogfennau canlynol yn cynnwys y rheoliadau sy'n ymwneud â chynnal arholiadau ac asesiadau. **Ym mhob achos rhaid cyfeirio at fersiwn diweddaraf y rheoliadau.**

Mae'r dogfennau CGC canlynol ar gael yn Saesneg ar wefan y CGC:

Llyfrynau

- [Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig](#)
- [Trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol](#)
- [Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau Cymeradwy](#)
- [Cyfarwyddiadau ar gynnal gwaith cwrs](#)
- [Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau](#)
- [Cyfarwyddiadau ar gynnal asesiadau di-arholiad](#)
- [Amau Camymddwyn: Polisiau a Gweithdrefnau \(y ddogfen hon\)](#)
- [Llên-ladrad mewn Asesiadau](#)
- [Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial \(AI\) mewn Asesiadau: Diogelu Uniondeb y Cymwysterau](#)
- [Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau Mehefin 2024 a Thachwedd 2024](#)
- [Llyfryn apelio y CGC](#)

Hysbysiadau'r Cyd-gyngor

- [Gwybodaeth i ymgeiswyr \(gwaith cwrs\)](#)
- [Gwybodaeth i ymgeiswyr \(asesiadau di-arholiad\)](#)
- [Gwybodaeth i ymgeiswyr ar gyfer profion ar sgrin](#)
- [Gwybodaeth i ymgeiswyr \(Hysbysiad Preifatrwydd\)](#)
- [Gwybodaeth i ymgeiswyr \(cyfryngau cymdeithasol\)](#)
- [Gwybodaeth i ymgeiswyr ar gyfer arholiadau ysgrifenedig](#)
- [Poster eitemau nad ydynt yn cael eu caniatáu](#)
- [Llên-ladrad mewn Asesiadau](#)
- [Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial \(AI\) mewn Asesiadau: Diogelu Uniondeb Cymwysterau](#)
- [Rhybudd i ymgeiswyr](#)
- [Poster AI i fyfyrwyr](#)

Mae'r dogfennau corff dyfarnu canlynol ar gael hefyd:

AQA

- [*Malpractice – A Guide for Centres*](#)

City & Guilds

- [*Managing cases of suspected malpractice in examinations and assessments*](#)
- [*Policy for individuals reporting allegations of suspected malpractice*](#)

CCEA

- [*Qualifications Administration Handbook*](#)

Cambridge OCR

[*Qualification-specific Administrative Guides*](#)

NCFE

- [*NCFE Appeals Policy*](#)
- [*Regulation for the Conduct of External Assessment*](#)
- [*Qualification Specific Instructions for Delivery \(QSID\)*](#)
- [*Functional Skills - Regulations for the Conduct of Controlled Assessment*](#)
- [*Regulations for Conduct of Synoptic Project*](#)

Pearson

- [*Centre Guidance: Dealing with malpractice and maladministration*](#)
- [*Policy on the removal of programme and centre approval*](#)
- [*Subject-specific instructions for the conduct of examinations*](#)

CBAC

- [*Llyfryn Gofynion Arholiadau*](#)
- [*Aseiad Mewnol: Canllaw i ganolfannau*](#)
- [*Cyfarwyddiadau CBAC ar gyfer cynnal aseidiadau dan reolaeth*](#)
- [*Canllaw i atal, adrodd am ac ymchwilio i gamymddwyn*](#)
- [*Canllaw i apeliadau*](#)
- [*Amodau Cyffredinol i ganolfannau CBAC*](#)

Mae dogfennau rheoleiddiol ar gael ar wefanau'r rheoleiddwyr.

Enghreifftiau o Gamymddwyn

Enghreifftiau o gamymddwyn yw'r canlynol. **Nid yw'n rhestr gynhwysfawr** ac nid yw felly'n cyfyngu ar gwmpas y diffiniadau a nodwyd yn gynharach yn y ddogfen hon. Gall achosion eraill o gamymddwyn gael eu nodi a'u hystyried gan y cyrff dyfarnu gan arfer eu doethineb. Pe bai'r enghreifftiau o gamymddwyn gan staff canolfan isod yn digwydd ar raddfa systemig, byddai hynny'n achos o gamymddwyn gan y ganolfan.

Rhan 1: Camymddwyn gan staff y ganolfan

1. *Tor diogelwch*

Unrhyw weithred sy'n torri cyfrinachedd papurau cwestiynau neu ddeunyddiau, a'r hyn sy'n cyfateb iddynt yn electronig, neu gyfrinachedd sgriptiau ymgeiswyr neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt yn electronig.

Gallai gynnwys:

- methiant i gadw deunyddiau arholiadau yn ddiogel cyn yr arholiad, gan gynnwys deunyddiau arholiadau digidol;
- trafod neu ddatgelu gwybodaeth fel arall am arholiadau ac asesiadau y dylid ei chadw'n gyfrinachol, e.e. fforymau rhyngwyd/cyfryngau cymdeithasol;
- symud amser neu ddyddiad arholiad penodol y tu hwnt i'r amser a ganiatawyd yn nogfen y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau*. Mae cynnal arholiad cyn y dyddiad cyhoeddedig yn cael ei ystyried yn gamymddwyn gan staff y ganolfan ac yn amlwg yn dor diogelwch;
- methu â darparu goruchwyliaeth ddigonol ar gyfer ymgeiswyr y mae newid i'r amserlen wedi effeithio arnynt (byddai hyn yn gymwys i ymgeiswyr sy'n cael eu goruchwyllo dros nos gan bersonél y ganolfan neu yn yr achosion hynny lle mae arholiad i'w sefyll mewn sesiwn gynharach neu hwyrach ar y diwrnod cyhoeddedig);
- rhyddhau ymgeiswyr yn gynnar o asesiad sydd ar yr amserlen (e.e. cyn 10 a.m. ar gyfer arholiad yn ystod sesiwn y bore);
- caniatáu, hwyluso neu gael gafael ar ddeunydd arholiad heb ei ganiatáu cyn arholiad;
- methu â chadw a diogelu papurau cwestiynau arholiad ar ôl arholiad mewn achosion lle mae oes y papur yn fwy na'r sesiwn arbennig honno, e.e. lle mae arholiad i'w sefyll mewn sesiwn ddiweddarach gan un neu fwy o ymgeiswyr oherwydd bod amrywiad ar yr amserlen;
- ymyrryd â sgriptiau, asesiadau dan reolaeth, gwaith cwrs neu asesiadau di-arholiad ymgeiswyr ar ôl eu casglu a chyn eu dosbarthu i'r corff dyfarnu/arholwr/cymedrolwr (byddai hyn hefyd yn cynnwys darllen sgriptiau ymgeiswyr neu lungopïo sgriptiau ymgeiswyr cyn eu dosbarthu i'r corff dyfarnu/arholwr);
- methu â chadw ffeiliau cyfrifiadur yn ddiogel sy'n cynnwys asesiadau dan reolaeth,

gwaith cwrs neu asesiadau di-arholiad ymgeiswyr.

2. ***Twyll***

Unrhyw weithred anonest mewn perthynas ag unrhyw arholiad neu asesiad, ond heb ei gyfyngu i'r canlynol:

- dyfeisio neu newid marciau cydrannau a asesir yn fewnol (e.e. asesiadau di-arholiad) lle nad oes unrhyw dystiolaeth wirioneddol o gyflawniad yr ymgeiswyr i gyfiawnhau'r marciau sy'n cael eu rhoi;
- cynhyrchu tystiolaeth o gymhwysedd yn erbyn safonau cenedlaethol;
- ffugio cofnodion asesu a/neu wirio mewnol neu ddatganiadau dilysu;
- cofrestru ymgeiswyr ffug am arholiadau neu asesiadau, neu wyrddroi'r broses asesu neu ardystio fel arall, gyda'r bwriad o ennill yn ariannol (twyll);
- cyfnewid asesiad dan reolaeth, gwaith cwrs neu asesiad di-arholiad un ymgeisydd am asesiad ymgeisydd arall;
- rhoi gwybodaeth gamarweiniol neu anghywir i gorff dyfarnu, ymgeiswyr a/neu rieni.

3. ***Cymorth amhriodol i ymgeiswyr***

Unrhyw weithred o roi cymorth y tu hwnt i'r hyn sydd wedi'i ganiatáu gan y fanyleb neu'r rheoliadau i ymgeisydd neu grŵp o ymgeiswyr, sy'n golygu eu bod yn cael mantais bosibl neu wirioneddol mewn arholiad neu asesiad.

Er enghraifft:

- cynorthwyo ymgeiswyr i gynhyrchu asesiadau dan reolaeth, gwaith cwrs, asesiadau di-arholiad neu bortffolios, y tu hwnt i'r hyn mae'r rheoliadau'n ei ganiatáu;
- rhannu neu fenthylg asesiadau dan reolaeth, gwaith cwrs neu asesiadau di-arholiad ymgeiswyr gydag ymgeiswyr eraill mewn ffordd sy'n caniatáu achosion o gamymddwyn;
- cynorthwyo neu annog ymgeiswyr wrth gynhyrchu atebion;
- caniatáu i ymgeiswyr ddefnyddio defnyddiau a waherddir mewn arholiadau (geiriaduron, cyfrifianellau ac ati);
- annog ymgeiswyr mewn arholiadau/asesiadau trwy gyfrwng arwyddion neu anogaeth lafar neu ysgrifenedig;
- cynorthwyo ymgeiswyr y rhoddwyd hawl iddyn nhw gael defnyddio Cyfathrebydd Proffesiynol, Addasydd Iaith, cynorthwydd ymarferol, anogwr, darlennydd neu ysgrifennydd y tu hwnt i'r hyn mae'r rheoliadau'n ei ganiatáu.

4. ***Methiant i gydweithredu ag ymchwiliad***

- methiant i ddarparu tystiolaeth y mae'r corff dyfarnu'n gofyn yn rhesymol amdano yn ystod ymchwiliad, neu wrth benderfynu a oes angen cynnal ymchwiliad; **a/neu**
- methiant i ymchwilio ar gais yn unol â chyfarwyddiadau neu gyngor corff dyfarnu; **a/neu**
- methiant i ymchwilio neu gynnig gwybodaeth yn unol â therfynau amser a gytunwyd; **a/neu**
- methiant i roi gwybod yn syth i'r corff dyfarnu am unrhyw achosion honedig o gamymddwyn, amheuan o gamymddwyn neu gamymddwyn gwirioneddol.

5. *Camweinyddu*

Methiant i gadw at y rheoliadau'n ymwneud â chynnal asesiadau dan reolaeth, gwaith cwrs, arholiadau ac asesiadau di-arholiad neu gamymddwyn wrth gynnal yr arholiadau/asesiadau a/neu ymdrin â phapurau arholiad, sgriptiau ymgeiswyr, taflenni marciau, cofnodion asesu cronrus, canlyniadau a ffurflenni hawlio tystysgrifau, ac ati.

Er enghraifft:

- methiant i sicrhau bod asesiad dan reolaeth, gwaith cwrs, asesiadau di-arholiad neu waith sydd i'w gwblhau dan amodau dan reolaeth wedi'i fonitro a/neu ei oruchwylio'n ddigonol;
- methiant, ar ran pennaeth canolfan, i gadw at ofynion manylebau cyrff dyfarnu o ran darparu asesiadau di-arholiad, Arnodïadau a phrojectau eraill sydd eu hangen yn rhan o gymhwyster. Mae'r rhain yn cynnwys y Project Rhaglennu TGAU Cyfrifiadureg, TGAU Saesneg Iaith Arnodïad Iaith Lafar a/neu'r TAG Safon Uwch Bioleg, Cemeg, Daeareg a Ffiseg Arnodïad Sgiliau Ymarferol;
- methiant i gadw at ddyddïadau allweddol a therfynau amser cyrff dyfarnu sy'n ymwneud â chyflwyno arholiadau ac asesiadau (megis y rhai sy'n ymwneud â dychwelyd sgriptiau, adrodd ar farciau/graddau asesiadau mewnol, cofrestru/gwneud hawliadau, a datganiadau Pennaeth y Ganolfan);
- aelodau amhriodol o staff yn asesu ymgeiswyr ar gyfer trefniadau mynediad, nad ydynt yn bodloni'r meini prawf y manylwyd arnynt ym mhennod 7 cyhoeddiad y CGC *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol*;
- methiant i ddefnyddio'r tasgau/aseiniadau cywir ar gyfer asesiadau; methu â sicrhau nad deallusrwydd artiffisial yw'r unig ffordd o farcio gwaith ymgeiswyr
- methiant i roi hyfforddiant digonol i oruchwylwyr a'r sawl sy'n hwyluso trefniadau mynediad yn ddigonol, e.e. darllenwyr ac ysgrifenyddion, sy'n golygu nad oes cydymffurfio â dogfennau'r CGC;
- methiant i gyhoeddi'r hysbysiadau a'r rhybuddion priodol i'r ymgeiswyr, e.e. dogfennau *Gwybodaeth i ymgeiswyr* y CGC;
- methiant i hysbysu Gwasanaeth Arolygu Canolfannau'r CGC o safleoedd gwahanol ar gyfer arholiadau;
- methiant i ddangos hysbysiadau'n ymwneud â'r arholiad neu'r asesiad ym mhob ystafell (gan gynnwys ystafelloedd Cerdd a Chelf) lle y cynhelir arholiadau ac asesiadau;
- peidio â sicrhau bod lleoliad yr arholiadau'n cydymffurfio â'r gofynion a bennwyd yn nogfen y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau*;
- methu ag atal deunydd heb ei ganiatáu rhag mynd i mewn i'r ystafell arholiadau, naill ai cyn neu yn ystod yr arholiad (D.S. mae hyn ac eithrio defnyddio'r ystafell arholiadau i hyfforddi ymgeiswyr neu i roi cyflwyniadau pwnc-benodol, gan gynnwys cyflwyniadau PowerPoint cyn dechrau'r arholiadau);
- methiant i atgoffa ymgeiswyr bod rhaid rhoi unrhyw ffonau symudol neu ddeunyddiau eraill sy'n eu meddiant, nad ydynt yn cael eu caniatáu, i'r goruchwylwr cyn i'r arholiad gychwyn;

- methiant i oruchwyllo arholiadau'n ôl y cyfarwyddyd yn nogfen y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau*;
- methiant i gadw cofnodion cywir ar ffeil i'w harchwilio mewn perthynas â threfniadau goruchwyllo dros nos;
- methiant i sefydlu polisi camymddwyn;
- methiant i gadw tystiolaeth briodol ar ffeil at ddibenion arolygu, yn ôl cyfarwyddyd cyhoeddiad y CGC *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol*, i gyfiawnhau'r trefniadau mynediad cymeradwy a broseswyd yn electronig gan ddefnyddio'r system *Trefniadau mynediad ar-lein*;
- caniatáu trefniadau mynediad i ymgeiswyr nad ydynt yn bodloni gofynion dogfen y CGC *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol*;
- caniatáu trefniadau mynediad i ymgeiswyr lle na chafwyd cymeradwyaeth o flaen llaw gan y system *Trefniadau mynediad ar-lein*, neu yn achos trefniant mwy cymhleth, gan gorff dyfarnu;
- methiant i ddarparu'r trefniadau mynediad cywir i ymgeiswyr lle rhoddwyd cymeradwyaeth
- methiant i oruchwyllo'n effeithiol wrth argraffu aseiniadau a wneir ar gyfrifiadur pan fydd yn ofynnol gwneud hynny;
- methiant i gadw asesiadau dan reolaeth, gwaith cwrs neu asesiadau di-arholiad ymgeiswyr dan amodau diogel tan ar ôl llofnodi'r datganiadau dilysu neu farcio'r gwaith;
- methiant i gynnal diogelwch sgriptiau ymgeiswyr cyn eu hanfon at y corff dyfarnu neu'r arholwr;
- methiant i anfon sgriptiau ymgeiswyr, asesiadau dan reolaeth, gwaith cwrs neu asesiadau di-arholiad at y cyrff dyfarnu neu'r arholwyr neu'r cymedrolwyr yn amserol;
- methiant i hysbysu'r corff dyfarnu priodol cyn gynted ag y bo'n bosibl am unrhyw gamymddwyn honedig, amheuan o gamymddwyn neu gamymddwyn gwirioneddol;
- methiant i gynnal ymchwiliad trylwyr i gamymddwyn honedig mewn arholiad neu asesiad pan ofynnir am wneud hynny gan gorff dyfarnu;
- torri'r trefniadau a gyhoeddwyd ar gyfer rhyddhau canlyniadau arholiadau;
- cadw neu ddinistrio tystysgrifau mewn ffordd amhriodol;
- methiant i recriwtio dysgwyr mewn ffordd onest, gan gynnwys recriwtio dysgwyr nad ydynt wedi bodloni gofynion mynediad sylfaenol y cymhwyster lle bo hynny'n berthnasol a/neu recriwtio dysgwyr na allant gwblhau'r cymhwyster neu sy'n annhebygol o'i gwblhau fel arall.
- methiant i sicrhau, bod staff yn cadarnhau bod y tasgau asesu i'w cwblhau a'r dull a ddefnyddir gan yr ymgeiswyr yn briodol, mewn achosion lle mae ymgeiswyr yn cynhyrchu gwaith ar gyfer asesiadau nad yw'n cael ei gwblhau dan amodau arholiad, a'u bod yn rhoi ystyriaeth ddyledus i safonau moesegol a chyfrifoldebau diogelu'r canolfan hefyd.

Rhan 2: Camymddwyn gan ymgeiswyr

Er enghraifft:

- newid neu ffugio unrhyw ddogfen ganlyniadau, gan gynnwys tystysgrifau;
- torri cyfarwyddiadau neu gyngor goruchwylwr, arolygwr neu'r corff dyfarnu mewn perthynas â rheolau a rheoliadau'r arholiad neu asesiad;
- defnyddio dyfeisiau electronig neu dechnoleg amgen heb eu caniatáu yn ystod asesiad o bell a goruchwyliaeth o bell;
- defnyddio'r rhyngwrwd neu ddeunyddiau ar-lein neu dulliau AI yn ystod asesiad o bell a goruchwyllo o bell, lle na chaniateir hyn;
- methiant i gadw at yr amodau goruchwyllo a fwriadwyd i gynnal diogelwch yr arholiadau neu asesiadau;
- cyd-gynllwynio: cydweithio ag eraill, y tu hwnt i'r hyn a ganiateir;
- copïo gan ymgeisydd arall (gan gynnwys defnyddio technoleg i gynorthwyo'r copïo);
- caniatáu i waith gael ei gopïo e.e. rhoi gwaith ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol cyn arholiad/asesiad;
- dinistrio gwaith ymgeisydd arall yn fwriadol;
- ymddwyn yn aflonyddgar yn yr ystafell arholiadau neu yn ystod sesiwn asesu (gan gynnwys defnyddio iaith fygythiol);
- methiant i adrodd yn ôl i'r ganolfan neu'r corff dyfarnu bod ymgeisydd wedi gweld gwybodaeth gysylltiedig ag asesiadau heb ganiatâd neu wedi rhannu gwybodaeth gysylltiedig ag asesiadau ar-lein heb ganiatâd;
- cyfnewid, cael, derbyn, neu drosglwyddo gwybodaeth a allai ymwneud â'r asesiad (neu geisio gwneud hynny) trwy gyfrwng siarad, cyfathrebu electronig, ysgrifenedig neu gyfathrebu nad yw'n llafar;
- gwneud datganiad ffug o ddilysrwydd mewn perthynas ag awduraeth asesiad dan reolaeth, gwaith cwrs, asesiad di-arholiad neu gynnwys portffolio;
- caniatáu i eraill gynorthwyo wrth gynhyrchu asesiadau dan reolaeth, gwaith cwrs, asesiadau di-arholiad, ymatebion arholiadau neu gynorthwyo eraill i gynhyrchu asesiadau dan reolaeth, gwaith cwrs, asesiadau di-arholiad neu ymatebion arholiadau;
- camddefnyddio, neu geisio camddefnyddio, deunyddiau ac adnoddau arholiadau ac asesiadau (e.e. deunyddiau enghreifftiol).
- bod â gwybodaeth gyfrinachol heb ei chaniatáu yn eu meddiant am arholiad neu asesiad;
- dod â nodiadau i'r ystafell arholiadau ar ffurf anghywir (lle y caniateir nodiadau mewn arholiadau) neu destunau wedi'u hanodi'n amhriodol (mewn arholiadau llyfr agored);
- cynnwys deunydd amhriodol, bygythiol, maswedus, homoffobaidd, trawsffobaidd, hiliol neu rywiaethol mewn sgriptiau, asesiadau dan reolaeth, gwaith cwrs, asesiadau di-arholiad neu bortffolios;
- personadu: cymryd arnynt i fod yn rhywun arall, trefnu i rywun arall gymryd eu lle mewn arholiad neu asesiad;
- llên-ladrad: copïo neu atgynhyrchu deunydd o ffynonellau trydydd parti heb gydnabod hynny neu gyfeirio anghyflawn (gan gynnwys y rhyngwrwd a dulliau deallusrwydd artiffisial (AI));

- dwyn gwaith ymgeisydd arall;
- bod â deunydd heb ei ganiatáu yn eu meddiant (boed yn cael ei ddefnyddio neu beidio) yn ystod arholiad neu asesiad, er enghraifft: nodiadau, canllawiau astudio a threfnwyr personol, eu papur gwag eu hunain, cyfrifianellau (pan fyddant wedi'u gwahardd), geiriaduron (pan fyddant wedi'u gwahardd), watshys, offer sy'n gallu cipio llun digidol, geiriaduron electronig (pan fyddant wedi'u gwahardd), cyfieithwyr, rhestri geiriau, geirfaoedd, iPod, ffonau symudol, AirPods, sbectol glyfar, dyfeisiau clyfar, chwaraewyr MP3/MP4, peiriannau galw, neu ddyfeisiau electronig tebyg eraill;
- defnyddio cof bach neu ddyfais debyg heb ganiatâd pan fydd ymgeisydd yn defnyddio prosesydd geiriau;
- hwyluso camymddwyn ar ran ymgeiswyr eraill;
- ymddwyn mewn modd sy'n tanseilio uniondeb yr arholiad.

Atodiad 3

Canllaw i gasglu gwybodaeth ar gyfer ymchwiliad i gamymddwyn

Rhaid i'r sawl sy'n casglu gwybodaeth ynghylch honiad o gamymddwyn gan ymgeisydd mewn canolfan gasglu'r dystiolaeth a chyflwyno adroddiad wedyn i'r corff dyfarnu.

Ni ddylai'r sawl sy'n casglu gwybodaeth fod ag unrhyw fudd personol na gwrthdaro buddiannau posibl arall yng nghanlyniad yr ymchwiliad hwnnw.

Rhaid i'r adroddiad roi manylion ynghylch:

- pwy oedd yn ymwneud â'r digwyddiad, yn cynnwys ymgeiswyr, aelodau o staff a/neu oruchwylwyr;
- ffeithiau'r achos, yn ôl yr hyn a gadarnhawyd ar sail y dystiolaeth a/neu ddatganiadau gan y rhai dan sylw.

Rhaid i'r adroddiad gynnwys:

- adroddiad clir, yn ôl yr angen, o'r amgylchiadau;
- manylion y gweithgareddau a gynhaliwyd gan y ganolfan;
- datganiadau ysgrifenedig gan unrhyw athrawon, goruchwylwyr, aelodau o staff neu unrhyw dystion eraill dan sylw, y mae'n **rhaid** iddynt fod wedi'u llofnodi a'u dyddio (lle mae aelodau o staff a gyhuddir o gamymddwyn yn gwrthod y cyfle i roi datganiad, rhaid egluro hyn i'r corff dyfarnu);
- datganiadau ysgrifenedig gan unrhyw ymgeiswyr dan sylw, gan gynnwys yr ymgeisydd (ymgeiswyr) penodol y mae honiad yn ei erbyn o fod wedi camymddwyn, y mae'n **rhaid** iddynt fod wedi'u llofnodi a'u dyddio (lle mae ymgeiswyr a gyhuddir o gamymddwyn yn gwrthod y cyfle i roi datganiad, rhaid egluro hyn i'r corff dyfarnu);
- unrhyw dystiolaeth arall sy'n berthnasol i'r honiad;

a, lle bo'n briodol:

- gwybodaeth yn dweud sut mae'r ganolfan yn rhoi gwybod i'r ymgeiswyr am reoliadau'r cyrff dyfarnu;
- cynlluniau eistedd;
- unrhyw ddeunydd diawdurdod a ganfuwyd yn yr ystafell arholiadau;
- tystiolaeth ffotograffig o unrhyw ddeunydd a ysgrifennwyd ar y dwylo/y dillad ac ati;
- unrhyw waith yr ymgeisydd/deunydd cysylltiol sy'n berthnasol i'r ymchwiliad;
- unrhyw dystiolaeth berthnasol arall.

Rhaid i unigolion sy'n gysylltiedig â chamymddwyn gael yr hawliau a nodir ym mharagraff 5.33.

Rhaid defnyddio Ffurflen JCQ/M3 sydd i'w chael yn <http://www.jcq.org.uk/exams-office/malpractice>, yn sail i'r adroddiad hwn. Mae angen cwblhau'r rhestr wirio ar ddiwedd y ffurflen, ar gyfer pob aelod staff cysylltiedig, a'i chyflwyno gyda'r adroddiad.

Os bydd honiad yn cael ei ddirprwyo i uwch aelod o staff y ganolfan, cyfrifoldeb cyffredinol pennaeth y ganolfan yw casglu'r wybodaeth o hyd a rhaid iddo gael cymeradwyaeth gan y corff dyfarnu yn gyntaf i ddirprwyo'r gwaith o gasglu gwybodaeth.

Wrth ddedol uwch aelod addas o staff y ganolfan, **rhaid** i bennaeth y ganolfan gymryd pob cam rhesymol i osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau.

Lle y gall fod awgrym bod gwrthdaro buddiannau, **ni ddylid** dirprwyo ymchwiliadau o gamymddwyn honedig i reolwr yr is-adran, tîm neu'r adran sy'n destun y camymddwyn honedig. **Ni ddylai'r sawl sy'n cynnal yr ymchwiliad fod ag unrhyw ddiddordeb personol yng nghanlyniad yr ymchwiliad.**

Rhaid i adroddiadau, tystiolaeth a datganiadau cefnogi gael eu hanfon at y corff dyfarnu dan sylw.

Os yw'r ganolfan yn ansicr o ran yr hyn i'w wneud ar unrhyw gam yn ystod yr ymchwiliad, dylid gofyn am gyngor ac arweiniad gan y tîm ymchwilio i gamymddwyn yn y corff dyfarnu perthnasol. Rhoddir manylion cyswllt ar ddiwedd y ddogfen hon yn Atodiad 11.

Atodiad 4

Sanctsiynau mynegol yn erbyn canolfannau

Canllaw yn unig yw'r tabl hwn a gellir cymhwyso sanctsiynau yn hyblyg yn unol â manylion pob achos unigol.

Sanctsiwn arfaethedig	Rheswm bras dros y sanctsiwn
Rhybudd ysgrifenedig	Mân ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau neu gamweinyddu heb unrhyw berygl gwirioneddol neu uniongyrchol i uniondeb arholiad neu asesiad.
Adolygu ac adrodd (cynlluniau gweithredu)	Torri gweithdrefnau neu reoliadau a allai, pe na weithredir, olygu bod bygythiad i'r arholiad neu'r asesiad.
Cymeradwyo tasgau asesu penodol	Methiant mewn maes pwnc neu sector penodol yn ymwneud â natur y tasgau asesu a ddewiswyd.
Monitro neu arolygu ychwanegol	Methiant o safbwynt systemau'r ganolfan sy'n golygu bod yr arholiad neu'r asesiad wedi'i reoli'n wael, neu'r goruchwyllo'n annigonol.
Dileu statws hawliau uniongyrchol	Colli hyder yng ngallu'r ganolfan i asesu a gwirio portffolios ymgeiswyr yn foddhaol.
Cyfyngiadau ar ddeunyddiau arholiadau neu asesiadau	Methiant i gynnal diogelwch y deunyddiau arholiadau neu asesiadau.
Defnyddio goruchwylwyr annibynnol	Colli hyder yng ngallu'r ganolfan i oruchwyllo arholiadau.
Gwahardd ymrestrïadau ymgeiswyr	Peryglu buddiannau ymgeiswyr a ymrestrir ar y cymhwyster.
Atal ardystiad	Colli uniondeb penderfyniadau asesu; perygl o geisiadau annilys am ardystiad.
Tynnu cymeradwyaeth am gymhwyster (cymwysterau) penodol yn ôl	Parhau i dorri rheoliadau'n ymwneud â chymhwyster penodol. Neu, fethiant yn y trefniadau ar gyfer rheoli a sicrhau ansawdd cymhwyster neu sector/maes pwnc penodol.

<p>Tynnu cydnabyddiaeth y ganolfan yn ôl</p>	<p>Colli hyder ym mhennaeth neu uwch reolwyr y ganolfan.</p> <p>Methiant yn y trefniadau rheoli a sicrhau ansawdd ar gyfer rhai cymwysterau achrededig neu'r holl gymwysterau achrededig a gynigir gan y ganolfan.</p> <p>Methiant i gydweithredu â cheisiadau'r corff dyfarnu i ymchwilio'n drylwyr i gamymddwyn honedig.</p> <p>Methiant i roi cynllun gweithredu penodol ar waith.</p>
--	---

Atodiad 5

Sanctsiynau mynegol yn erbyn staff canolfannau

Canllaw yn unig yw'r tabl hwn a gellir cymhwyso sanctsiynau yn hyblyg yn unol â manylion pob achos unigol.

Math o drosedd	Rhybudd	Hyfforddiant	Amodau Arbennig	Gwaharddiad dros dro
Cymorth amhriodol	Ychydig o gymorth, dim effaith sylweddol, e.e. lle na chaniateir, penawdau neu dempled tabl sylfaenol, ychydig bach o adborth syml/generig, rhannu enghreifftiau heb reolaeth ofalus (lle nad yw unigolyn wedi'i hyfforddi/lle mae unigolyn yn ddibrofiad).	Cymorth cyfyngedig, effaith fach iawn, camddeall rheolau neu ddiffyg profiad, e.e. darllenwr newydd yn egluro cwestiynau, unigolyn nad yw'n arbenigwr yn rhoi canllaw 'sut i' yn yr asesiadau di-arholiad yn erbyn rheoliadau.	Cymorth ac effaith gyfyngedig, e.e. mae aelod o staff yn rhoi arweiniad 'sut i' cyffredinol, gan roi enghreifftiau heb unrhyw reolaeth, a/neu adborth y tu hwnt i'r rheoliadau lle mae ffactorau lliniarol yn bresennol, e.e. mewn asesiad di-arholiad yn dilyn newid diweddar i fanyleb lle caniatwyd mewn manyleb flaenorol.	Effaith sylweddol; amharu ar ddilysrwydd asesiadau, e.e. adborth y tu hwnt i reoliadau, rhoi enghreifftiau ar gyfer copïo, darparu atebion.
Camweinyddu	Defnydd o dasgau/testunau hen neu anghywir ar fwy nag un achlysur, mân wallau wrth ddilyn rheoliadau asesu heb lawer o effaith ar ymgeiswyr, e.e. caniatáu trefniadau mynediad cyfiawn pan na roddir cymeradwyaeth, mân bryderon moesegol a/neu o ran diogelu yn ymwneud â chynnwys asesu a gynhyrchodd yr ymgeiswyr oherwydd goruchwyllo gwael.	Gwallau yn dilyn rheoliadau asesu, gan staff dibrofiad/sydd wedi eu hyfforddi'n annigonol, e.e. goruchwylwyr newydd yn methu rheoli amseriadau'n gywir; ysgrifennydd yn darllen cwestiynau. Methiant i sicrhau bod yr asesiadau'n cael eu cwblhau a'u goruchwyllo'n briodol oherwydd diffyg profiad/diffyg hyfforddiant, lle mae'r cynnwys yn codi pryderon moesegol a/neu ddiogelu.	Gwallau wrth ddilyn rheoliadau asesu gan aelodau o staff profiadol, ond gydag effaith gyfyngedig ar nifer gyfyngedig o ymgeiswyr, e.e. caniatáu trefniadau mynediad i ymgeiswyr nad ydynt yn gymwys gan arwain at effaith gyfyngedig sydd ddim yn systematig o ran cwmpas; methu a goruchwyllo ymgeiswyr sydd â gwrthdaro ar eu hamserlenni yn ddigonol gan arwain at effaith gyfyngedig. Methiant i adnabod a gweithredu ar asesiadau ymgeiswyr lle mae'r cynnwys yn codi pryderon moesegol	Gwallau wrth ddilyn rheoliadau asesu sy'n cyfaddawdu cywirdeb asesiad neu gyflwyniadau; neu dorri rheoliadau sy'n effeithio ar ganlyniadau; neu ddiffyg cydymffurfio systemig, parhaus neu ar fwy nag un achlysur â rheoliadau'r CGC; methu darparu hyfforddiant i oruchwylwyr, a/neu'r rheini sy'n cynorthwyo gyda'r Trefniadau Mynediad. Methiant i weithredu'n briodol pan fo ymwybyddiaeth y gallai cynnwys asesiadau ymgeiswyr achosi fod yn sail i bryderon moesegol a/neu ddiogelu difrifol.

			a/neu ddiogelu.	
Twyll	Bwriedir i'r blwch hwn fod yn wag.	Bwriedir i'r blwch hwn fod yn wag.	Bwriedir i'r blwch hwn fod yn wag.	Ffugio gwaith neu gyflwyniadau ymgeiswyr, diffyg cydymffurfio systematig â rheoliadau'r CGC; ffugio marciau, cofrestru ymgeiswyr ffug a/neu anghymwys ar gyfer arholiadau; dyfeisio tystiolaeth ar gyfer trefniadau mynediad.
Tor diogelwch	Methu talu digon o sylw i ddiogelwch deunyddiau asesu (gan gynnwys diogelwch electronig) sydd ddim yn arwain at dor diogelwch e.e., deunyddiau wedi'u gadael y tu allan i'r storfa ddiogel ond y pecynnau papurau cwestiynau heb eu hagor. Risg i ddilysrwydd yr arholiad, ond dim tystiolaeth o dor diogelwch; methu â storio papurau'n briodol ond heblaw am gynyddu'r risg nid oes unrhyw effaith; methiant i archwilio neu adolygu mynediad at gyfrifon neu anweithgarwch cyfrif.	Risg i ddilysrwydd arholiad gyda thystiolaeth o fethu deall rheoliadau a ddyluniwyd i ddiogelu dilysrwydd arholiad, e.e. papurau anghywir wedi'u tynnu o storfa ddiogel, dim gwiriad gan ail bâr o lygaid, rhannu dyfais/manylion Dilysu Aml-factor, ond ni chafodd cynnwys papurau ei ddatgelu i unrhyw drydydd parti anawdurdodedig.	Methiant esgeulus/mewn camgymeriad i ddilyn rheoliadau neu gamau gweithredu diogelwch sydd â'r potensial o dor diogelwch arholiad e.e. rhoi'r papur anghywir i ymgeiswyr ond dim ond ar ymgeiswyr y ganolfan honno yr effeithiwyd, methiant i ddilyn y gofynion yn adran 4 dogfen ICE y CGC sy'n hwyluso rhoi mynediad heb awdurdod i ddeunyddiau electronig diogel yn anfwriadol.	Camddefnyddio mynediad cyfiawn i ddeunyddiau cyfrinachol, e.e. rhannu cwestiynau arholiad byw gydag ymgeiswyr cyn amser cychwyn swyddogol yr arholiad. Methu gweithredu yn brydlon i reoli effaith tor diogelwch i ganolfan. Methu trefnu goruchwyliaeth lle bo gwrthdaro rhwng arholiadau sy'n arwain at effaith sylweddol.
Methu cydweithredu / rhoi gwybod am faterion	Mân ddiffyg cydymffurfio, e.e. oedi o ran cwrdd â graddfeydd amser ymchwilio heb gytundeb, oedi wrth roi gwybod.	Methu ymchwilio yn unol ag arweiniad y CGC.	Methu rhoi gwybod am ddigwyddiad effaith isel o gamymddwyn. Methu gweithredu fel sy'n ofynnol gan gorff dyfarnu.	Methu rhoi gwybod am achosion sylweddol o gamymddwyn. methu â chasglu gwybodaeth; methu ymateb i gyfathrebiadau corff dyfarnu. Cyflwyno adroddiadau ymchwiliad sy'n gamarweiniol neu'n cynnwys gwybodaeth ffug a allai olygu bod corff dyfarnu yn dod i gasgliadau anghywir.

Sanctsiynau mynegol yn erbyn ymgeiswyr

- Canllaw yn unig yw'r tabl hwn a gellir cymhwyso sanctsiynau yn hyblyg yn unol â manylion pob achos unigol.

Yn yr achosion hynny lle mae'r blwch yn wag, gellir defnyddio'r sanctsiwn o hyd.

Gall fod gwahaniaeth yn strwythur cymwysterau cyrff dyfarnu ac felly efallai na fydd yr holl sanctsiynau sydd ar gael yn berthnasol i bob cymhwyster.

Math o drosedd	Rhybudd (Sanctsiwn 1)	Colli marciau (Caniateir agregu o hyd) (Sanctsiynau 2-4)	Colli cyfle agregu neu ardystio (Sanctsiynau 5-9)
Cyflwyno deunydd heb ei ganiatáu i ystafell yr arholiad, er enghraifft:			
Eu papur gwag eu hunain	ei ddefnyddio ar gyfer gwaith bras	ei ddefnyddio ar gyfer gwaith terfynol	
Cyfrifiannellau, geiriaduron (os ydynt wedi'u gwahardd)	heb eu defnyddio	wedi'u defnyddio neu wedi ceisio'u defnyddio	
Dod â nodiadau i mewn i'r ystafell arholiadau ar y ffurf anghywir neu anodiadau gwaharddedig	nodiadau/anodiadau y tu hwnt i'r hyn a ganiateir ond heb roi mantais; cynnwys amherthnasol i'r pwnc	nodiadau/anodiadau yn berthnasol ac yn rhoi mantais annheg	cyflwyno nodiadau/anodiadau mewn ymgais fwriadol i ennill mantais
Nodiadau diawdurdod, canllawiau astudio a threfnwyr personol	cynnwys amherthnasol i'r pwnc	cynnwys perthnasol i'r pwnc	perthnasol i'r pwnc a thystiolaeth eu bod wedi'u defnyddio
Ffôn symudol neu ddyfeisiau electronig tebyg (gan gynnwys iPod, chwaraewr MP3/4, cofau bach, ffôn clyfar, watsh clyfar, sbectol glyfar, dyfeisiau clyfar, AirPods a chlustffonau)	ddim ym meddiant yr ymgeisydd, ond yn gwneud sŵn yn ystod yr arholiad	ym meddiant yr ymgeisydd, ond dim dystiolaeth ei fod yn cael ei ddefnyddio gan yr ymgeisydd	ym meddiant yr ymgeisydd a thystiolaeth bod yr ymgeisydd yn ei ddefnyddio
Watshys (dim watshys clyfar)	ym meddiant yr ymgeisydd		

Sanctiynau safonol:

- | | |
|--|--|
| <ol style="list-style-type: none">1. rhybudd;2. colli'r holl farciau a enillwyd am adran;3. colli'r holl farciau a enillwyd am gydran;4. colli'r holl farciau a enillwyd am uned;5. diarddel o'r uned; | <ol style="list-style-type: none">6. diarddel o bob uned mewn un cymhwyster neu fwy a gymerwyd yn y gyfres neu'r flwyddyn academaidd honno;7. diarddel o'r cymhwyster cyfan;8. diarddel o'r holl gymwysterau a gymerwyd yn y gyfres neu'r flwyddyn academaidd honno;9. gwahardd rhag cofrestru am arholiadau am gyfnod penodol o amser. |
|--|--|

Math o drosedd	Rhybudd (Sanctsiwn 1)	Colli marciau (Caniateir agregu o hyd) (Sanctsiynau 2-4)	Colli cyfle agregu neu ardystio (Sanctsiynau 5-9)
Torri amodau arholiad			
Torri cyfarwyddiadau neu gyngor goruchwylwr, arolygwr, neu'r corff dyfarnu mewn perthynas â rheolau a rheoliadau'r arholiad	mân ddiffyg cydymffurfio: e.e. eistedd mewn sedd nad yw'n benodol ar ei gyfer; parhau i ysgrifennu am gyfnod byr ar ôl dweud wrtho am beidio	diffyg cydymffurfio mawr: e.e gwrthod symud i sedd sy'n benodol ar ei gyfer; parhau i ysgrifennu am amser sylweddol ar ôl dweud wrtho am roi'r gorau i ysgrifennu	diffyg cydymffurfio perthynol
Methu â chadw at yr amodau goruchwyllo a fwriadwyd i gynnal diogelwch ac uniondeb yr arholiadau	gadael yr arholiad yn gynnar (heb golli uniondeb); mynd â'r sgript o'r ystafell arholiadau, ond tystiolaeth bod uniondeb wedi cael ei gynnal	mynd â'r sgript o'r ystafell arholiadau heb brawf bod y sgript yn ddiogel; mynd â deunyddiau gartref	mynd ati'n fwriadol i dorri trefniant goruchwyllo yn ymwneud â gwrthdaro ar yr amserlen; mynd â sgript o'r ystafell arholiadau a phrawf yr amharwyd â'r sgript; gadael yr ystafell arholiadau yn gynnar fel bod uniondeb yn cael ei amharu
Ymddwyn yn aflonyddgar yn yr ystafell arholiadau neu sesiwn asesu (gan gynnwys defnyddio iaith fygythiol)	mân amhariad yn para am amser byr; galw allan, gwneud sŵn, troi rownd	ailadrodd neu barhau i aflonyddu; sylwadau annerbyniol o anfoesgar; cael ei dynnu o'r ystafell arholiadau; cymryd eiddo ymgeisydd arall	anwybyddu rhybuddion; ymddwyn yn bryfoclyd neu'n gythruddol; ailadrodd sylwadau swllyd neu sarhaus; ymosod yn gorfforol ar aelod o staff neu eiddo
Sanctsiynau safonol:			
<ol style="list-style-type: none"> 1. rhybudd; 2. colli'r holl farciau a enillwyd am adran; 3. colli'r holl farciau a enillwyd am gydran; 4. colli'r holl farciau a enillwyd am uned; 5. diarddel o'r uned; 		<ol style="list-style-type: none"> 6. diarddel o bob uned mewn un cymhwyster neu fwy a gymerwyd yn y gyfres neu'r flwyddyn academiaidd honno; 7. diarddel o'r cymhwyster cyfan; 8. diarddel o'r holl gymwysterau a gymerwyd yn y gyfres neu'r flwyddyn academiaidd honno; 9. gwahardd rhag cofrestru am arholiadau am gyfnod penodol o amser. 	

Math o drosedd	Rhybudd (Sanctsiwn 1)	Colli marciau (Caniateir agregu o hyd) (Sanctsiynau 2-4)	Colli cyfle agregu neu ardystio (Sanctsiynau 5-9)
Cyfnewid, cael, derbyn, neu drosglwyddo gwybodaeth a allai ymwneud â'r arholiad (neu geisio gwneud hynny):			
Cyfathrebu ar lafar	achosion arunig o siarad cyn dechrau'r arholiad neu ar ôl i'r papurau gael eu casglu	siarad yn ystod yr arholiad am faterion nad ydynt yn ymwneud â'r arholiad; derbyn gwybodaeth yn ymwneud â'r arholiad	siarad am faterion yn ymwneud â'r arholiad yn ystod yr arholiad; sibrwd atebion i gwestiynau
Cyfathrebu	trosglwyddo/derbyn cyfathrebiadau ysgrifenedig nad oes ganddynt unrhyw beth i'w wneud â'r asesiad	derbyn gwybodaeth sy'n ymwneud â'r asesiad	trosglwyddo nodiadau sy'n ymwneud â'r asesiad i ymgeiswyr eraill; helpu'i gilydd; cyfnewid sgriptiau
Troseddau'n ymwneud â chynnwys gwaith yr ymgeiswyr:			
Cynnwys deunydd amhriodol, bygythiol neu faswedus mewn sgriptiau, asesiadau dan reolaeth, gwaith cwrs, asesiadau di-arholiad neu bortffolios	geiriau neu luniau unigol, sydd ychydig yn fygythiol, ymagweddau neu ymatebion amhriodol	geiriau neu luniadau ychydig yn anwedus i'w gweld yn aml; rhai geiriau anwedus iawn; geiriau ychydig yn anllad o dro i dro neu sylwadau ychydig yn anllad wedi'u hanelu at arholwr neu aelod o'r staff	sylwadau bygythiol neu aflednais wedi'u hanelu at aelod o staff, arholwr neu grŵp crefyddol; sylwadau neu luniadau homoffobaidd, trawsffobaidd, hiliol neu rywiaethol neu anllad
Sanctsiynau safonol:			
<ol style="list-style-type: none"> 1. rhybudd; 2. colli'r holl farciau a enillwyd am adran; 3. colli'r holl farciau a enillwyd am gydran; 4. colli'r holl farciau a enillwyd am uned; 5. diarddel o'r uned; 		<ol style="list-style-type: none"> 6. diarddel o bob uned mewn un cymhwyster neu fwy a gymerwyd yn y gyfres neu'r flwyddyn academiaidd honno; 7. diarddel o'r cymhwyster cyfan; 8. diarddel o'r holl gymwysterau a gymerwyd yn y gyfres neu'r flwyddyn academiaidd honno; 9. gwahardd rhag cofrestru am arholiadau mewn cyfnod penodol o amser. 	

Math o drosedd	Rhybudd (Sanctsiwn 1)	Colli marciau (Caniateir agregu o hyd) (Sanctsiynau 2-4)	Colli cyfle agregu neu ardystio (Sanctsiynau 5-9)
Cyd-gynllwynio: cydweithio ag eraill	cydweithio yn amlwg mewn rhai	gwaith cydweithredol yn dechrau	mae gwaith yr ymgeiswyr yn

y tu hwnt i'r hyn a ganiateir	mannau, oherwydd cyngor yr athro o bosibl; yr ymgeisydd ddim yn ymwybodol o'r rheoliadau	effeithio ar allu'r arholwr i ddyfarnu marc teg i ymgeisydd unigol	adlewyrchu nodweddion helaeth sy'n debyg a darnau unfath; oherwydd ymdrech fwriadol i rannu gwaith
Llên-ladrad: copïo neu atgynhyrchu deunydd o ffynonellau trydydd parti heb gydnabod hynny (gan gynnwys y rhyngwyd a dulliau DA); cyfeirio anghyflawn	ychydig bach o lôn-ladrad/cyfeirio gwael mewn manau	llên-ladrata o waith a restrir yn y llyfryddiaeth neu y cyfeirir ato/sy'n cael ei gydnabod; neu fân lôn-ladrata o ffynhonnell na restrir yn y llyfryddiaeth neu na chyfeirir ati/sydd ddim yn cael ei chydabod	llên-ladrata o waith na restrir yn y llyfryddiaeth neu na chyfeirir ato/sydd ddim yn cael ei gydnabod; neu mae'r testun wedi'i lôn-ladrata'n cynnwys sylwedd y gwaith a gyflwynwyd ac mae'r ffynhonnell wedi'i rhestru neu cyfeirir ati/mae'n cael ei chydabod yn y llyfryddiaeth
Gwneud datganiad ffug o ddilysrwydd		darnau o'r gwaith wedi'u gwneud gan eraill, ond y rhan fwyaf yn dal i fod yn waith yr ymgeisydd	nid gwaith yr ymgeisydd yw'r rhan fwyaf neu'r cyfan o'r gwaith
Copïo gan ymgeisydd arall neu ganiatáu i waith gael ei gopïo (gan gynnwys camddefnyddio technoleg)	rhoi benthg gwaith, heb wybod y byddai'n cael ei gopïo	caniatáu i sgript arholiad / gwaith gael ei gopïo; dangos yr atebion i ymgeiswyr eraill	copïo o sgript, asesiad dan reolaeth, gwaith cwrs, asesiad di-arholiad ymgeisydd arall; benthg gwaith i'w gopïo
Tanseilio uniondeb arholiadau/asesiadau			
Difrodi gwaith yn fwriadol	mân ddifrod i waith nad yw'n amharu ar welededd	difwyno sgriptiau; difrodi gwaith yr ymgeisydd ei hun	difrodi gwaith ymgeisydd arall yn sylweddol
Newid neu ffugio unrhyw ddogfen ganlyniadau, gan gynnwys tystysgrifau			anwiriad / ffugiad
Sanctiynau safonol:			
<ol style="list-style-type: none"> 1. rhybudd; 2. colli'r holl farciau a enillwyd am adran; 3. colli'r holl farciau a enillwyd am gydran; 4. colli'r holl farciau a enillwyd am uned; 5. diarddel o'r uned; 		<ol style="list-style-type: none"> 6. diarddel o bob uned mewn un cymhwyster neu fwy a gymerwyd yn y gyfres neu'r flwyddyn academiaidd honno; 7. diarddel o'r cymhwyster cyfan; 8. diarddel o'r holl gymwysterau a gymerwyd yn y gyfres neu'r flwyddyn academiaidd honno; 9. gwahardd rhag cofrestru am arholiadau am gyfnod penodol o amser. 	

Math o drosedd	Rhybudd (Sanctiwn 1)	Colli marciau (Caniateir agregu o hyd) (Sanctiynau 2-4)	Colli cyfle agregu neu ardystio (Sanctiynau 5-9)
Camddefnyddio deunydd ac adnoddau asesu, neu geisio gwneud hynny	ceisio dod o hyd i wybodaeth yn ymwneud ag asesu ar y we	derbyn gwybodaeth yn ymwneud ag asesiad heb gyflwyno adroddiad am hynny i'r corff dyfarnu	camddefnyddio deunydd asesu neu wybodaeth yn ymwneud â'r arholiad gan gynnwys: ceisio cael neu gael gwybodaeth am gynnwys yr asesiad ymlaen llaw; mynediad amhriodol at wybodaeth yn ymwneud ag asesu (gan gynnwys dulliau electronig) datgelu amhriodol (gan gynnwys dulliau electronig); derbyn gwybodaeth asesu o'r ystafell arholiadau; hwyluso camymddwyn ar ran eraill; trosglwyddo neu ddosbarthu gwybodaeth gysylltiedig ag asesiadau i bobl eraill
Dileu neu ddwyn gwaith unrhyw ymgeisydd			Dileu gwaith unrhyw ymgeisydd heb awdurdod (e.e. project/gwaith cwrs)
Personadu			defnyddio'r enw neu'r rhif anghywir yn fwriadol; personadu unigolyn arall; trefnu i gael eich personadu
Ymddwyn mewn ffordd fydd yn tansellio uniondeb yr arholiad/ asesiad			er enghraifft, ceisio cael tystysgrifau trwy dwyll; ymgais i lwgrwobrwyo; ymgais i ddylanwadu'n annheg ar aelod o staff y ganolfan, aelod o staff corff dyfarnu neu gynrychiolydd arall sy'n ymwneud ag asesiadau; gwneud ymgais i gael neu gyflenwi deunyddiau arholiad drwy dwyll
Sanctiynau safonol:			
<ol style="list-style-type: none"> 1. rhybudd; 2. colli'r holl farciau a enillwyd am adran; 3. colli'r holl farciau a enillwyd am gydran; 4. colli'r holl farciau a enillwyd am uned; 5. diarddel o'r uned; 		<ol style="list-style-type: none"> 6. diarddel o bob uned mewn un cymhwyster neu fwy a gymerwyd yn y gyfres neu'r flwyddyn academaidd honno; 7. diarddel o'r cymhwyster cyfan; 8. diarddel o'r holl gymwysterau a gymerwyd yn y gyfres neu'r flwyddyn academaidd honno; 	

	9. gwahardd rhag cofrestru am arholiadau am gyfnod penodol o amser.
--	---

Math o drosedd	Rhybudd (Sanctiwn 1)	Colli marciau (Caniateir agregu o hyd) (Sanctiynau 2-4)	Colli cyfle agregu neu ardystio (Sanctiynau 5-9)
Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfnewid a chylchredeg deunydd asesu gwir neu ffug	ceisio dod o hyd i wybodaeth yn ymwneud ag asesu ar-lein/drwy'r cyfryngau cymdeithasol	derbyn gwybodaeth wir neu ffug yn ymwneud ag asesiad drwy'r cyfryngau cymdeithasol heb gyflwyno adroddiad am hynny i'r corff dyfarnu	camddefnyddio deunydd asesu (gwir neu ffug) gan gynnwys: ceisio cael neu gael gwybodaeth am gynnwys yr asesiad ymlaen llaw drwy'r cyfryngau cymdeithasol; datgelu gwybodaeth wir neu ffug am gynnwys yr asesiad yn amhriodol; trosglwyddo neu ddsbarthu gwybodaeth wir neu ffug yn ymwneud ag asesiad i bobl eraill
Rhwystro neu lesteirio ymchwiliad i gamymddwyn	methiant i roi gwybod am amheuon o gamymddwyn gan ymgeiswyr eraill	darparu gwybodaeth anghyflawn i'r rhai sy'n casglu gwybodaeth ar gyfer ymchwiliad i gamymddwyn	darparu gwybodaeth gamarweiniol a/neu anghyflawn iawn i'r rhai sy'n casglu gwybodaeth ar gyfer ymchwiliad i gamymddwyn

Sanctiynau safonol:

<ol style="list-style-type: none"> 1. rhybudd; 2. colli'r holl farciau a enillwyd am adran; 3. colli'r holl farciau a enillwyd am gydran; 4. colli'r holl farciau a enillwyd am uned; 5. diarddel o'r uned; 	<ol style="list-style-type: none"> 6. diarddel o bob uned mewn un cymhwyster neu fwy a gymerwyd yn y gyfres neu'r flwyddyn academiaidd honno; 7. diarddel o'r cymhwyster cyfan; 8. diarddel o'r holl gymwysterau a gymerwyd yn y gyfres neu'r flwyddyn academiaidd honno; 9. gwahardd rhag cofrestru am arholiadau am gyfnod penodol o amser.
--	---

Enghreifftiau o gamymddwyn

Enghreifftiau wedi'u golygu o gofnodion hanesyddol yr holl gyrff dyfarnu sy'n rhan o gytundeb y Cydgyngor yw'r enghreifftiau canlynol o gamymddwyn. Noder, er bod pynciau penodol wedi'u nodi yn yr enghreifftiau isod, gellir cymhwyso'r amgylchiadau a ddisgrifir a'r camau gweithredu a'r sancsiynau cysylltiedig at unrhyw gymhwyster fel y bo'n briodol.

1. Camymddwyn gan staff y ganolfan

1.1 Tanseilio diogelwch

Corff dyfarnu: Pearson

Cymhwyster: Safon Uwch Economeg

Cysylltodd ymgeisydd â'r corff dyfarnu yn mynegi pryderon bod ymgeiswyr mewn ysgol wahanol wedi derbyn y papur cwestiynau cyn iddynt sefyll yr arholiad. Ategwyd y pryderon gan gopïau o negeseuon testun rhwng ymgeiswyr.

Cysylltodd y corff dyfarnu â phennaeth y ganolfan a gofyn iddo gasglu tystiolaeth yn ymwneud â'r mater, gan gynnwys datganiadau gan y staff a oedd yn rhan o gyflwyno'r arholiad a'r ymgeiswyr dan sylw.

O'r wybodaeth gychwynol a'r dystiolaeth a gasglwyd gan Bennaeth y Ganolfan, cadarnhawyd bod y drefn digwyddiadau ganlynol wedi digwydd. Nid oedd nifer o ymgeiswyr wedi gallu sefyll yr arholiad Safon Uwch Economeg a oedd wedi'i drefnu ar gyfer y bore gan fod gwrthdaro yn yr amserlen gydag arholiad arall. Felly, cadwyd yr ymgeiswyr dan oruchwyliaeth ar ôl cwblhau eu harholiad cyntaf wrth iddynt aros i sefyll yr arholiad Safon Uwch Economeg yn y prynhawn. Mewn camgymeriad, roedd goruchwylwr oedd yn goruchwyllo'r ymgeiswyr wedi bwriadu rhoi hen bapur cwestiynau iddynt at bwrpas adolygu ond mewn gwirionedd roedd wedi rhoi copi o'r papur Safon Uwch Economeg roeddent ar fin ei sefyll iddynt. Roedd yr ymgeiswyr yn ymwybodol o'r gwall ond yn hytrach na rhoi gwybod amdano, dewison nhw astudio'r papur yn fanwl.

Adolygodd y corff dyfarnu y dystiolaeth a phenderfynodd y dylid diarddel yr ymgeiswyr o holl gymwysterau'r corff dyfarnu yn y gyfres honno. Roedd pennaeth y ganolfan wedi rhoi sicrwydd ynghylch y mesurau i'w cymryd i atal y fath beth rhag digwydd eto ac felly rhoddodd y corff dyfarnu rybuddion ysgrifenedig i'r aelodau o staff a oedd yn gyfrifol am y gwall.

1.2 Twyll

Corff dyfarnu: Cambridge OCR

Cymhwyster: Cambridge Technical mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cyflwynodd y Ganolfan achos o amau camymddwyn i Cambridge OCR. Roedd aelod o staff wedi canfod, o edrych ar weithgarwch TG y Ganolfan, bod aelod o staff wedi diwygio gwaith ymgeiswyr ar gyfer eu hasesiadau Cambridge Technicals mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Hysbysodd y Ganolfan fod yr aelod o staff wedi gwneud newidiadau i waith ymgeiswyr a gyflwynwyd cyn ymweliad y cymedrolwr a hynny heb iddynt wybod ac er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar eu canlyniadau.

Canfu'r Ganolfan waith wedi'i gyfaddawdu ar gyfer o leiaf pum ymgeisydd ac o leiaf chwe Uned, gan gynnwys mewn grŵp blwyddyn gwahanol i'r rhai a ganfuwyd i ddechrau. Daeth yn amlwg bod mwy o waith wedi'i newid nag a gyfaddefwyd neu a adroddwyd i ddechrau. Yn yr ail gyfweiliad, soniodd yr aelod o staff am wneud newidiadau i waith ymgeiswyr ar gyfer Uned nad oedd wedi'i haddysgu ond roedd ganddi fynediad ato er mwyn ei ddilysu'n fewnol. Ar yr adeg hon, nid oedd yr aelod o staff yn gallu cofio na chadarnhau pa ddogfennau pellach, os o gwbl, oedd wedi'u diwygio.

Cafodd yr aelod staff ei wahardd rhag ymwneud o gwbl â chymwysterau'r corff dyfarnu am gyfnod o bedair blynedd.

1.3 Cymorth amhriodol i ymgeiswyr

Corff dyfarnu: AQA

Cymhwyster: TGAU Celf a Dylunio

Adroddodd pennaeth y ganolfan yr honiad canlynol ynghylch y gwaith o weinyddu'r aseiniad a osodir yn allanol asesiad di-arholiad TGAU Celf a Dylunio:

'Yn ystod yr arholiad Celf ar gyfer y tri myfyriwr, roedd honiad bod rheolau'r arholiad wedi'u torri. O'r broses darganfod ffeithiau gychwynnol, bellach mae gennym dystiolaeth i awgrymu bod yr athro a oedd yn gyfrifol am weinyddu'r asesiad hwn wedi caniatáu i'r ymgeiswyr wrando ar gerddoriaeth drwy eu clustffonau ac wedi rhoi cyfarwyddyd i o leiaf dau o'r tri myfyriwr. Roedd y cyfarwyddyd yn cynnwys tynnu llun o amlinelliad powlen ffrwythau ac ar gyfer myfyriwr arall roedd y cyfarwyddyd yn ymwneud â'r defnydd o raddliwio.'

Mewn ymateb i'r honiad a dderbyniwyd, gofynnodd y corff dyfarnu i aelod o uwch dîm arwain y ganolfan, heb gyfrifoldebau rheolwr llinell ar gyfer yr adran dan sylw neu heb ddiddordeb personol yng nghanlyniad yr ymchwiliad, gyfsweld:

- yr athro a oedd yn gyfrifol am weinyddu'r tasgau;
- y goruchwyliwr a oedd yn goruchwyllo'r asesiad;
- y tri myfyriwr a oedd yn bresennol yn yr ystafell arholiad.

Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a ddarparwyd ym mhapurau'r achos yn ofalus, daeth y Pwyllgor i'r casgliad fod yr athro a oedd yn gyfrifol am weinyddu'r asesiad wedi:

- darparu cymorth amhriodol drwy gynorthwyo ymgeiswyr wrth gynhyrchu asesiad di-arholiad, y tu hwnt i'r hyn a ganiateir gan y rheoliadau; bod y ddau aelod o staff wedi;
- camweinyddu drwy ganiatáu i ymgeiswyr wrando ar gerddoriaeth, ac wrth wneud hyn, wedi methu cadw at y rheoliadau ynghylch cynnal asesiadau di-arholiad.

Yn unol â Thariff Sancsiynau Staff Canolfannau y CGC, cafodd yr athro ei wahardd rhag cymryd rhan yn arholiadau'r corff dyfarnu am gyfnod o flwyddyn, i'w dilyn gan flwyddyn lle na ddylai'r aelod o staff gymryd rhan heb oruchwyliaeth yn arholiadau'r corff dyfarnu hwnnw.

Derbyniodd y Pwyllgor Camymddwyn yr amgylchiadau lliniaru a gyflwynwyd gan y Goruchwyliwr yn yr achos hwn ac felly penderfynodd beidio â gosod sancsiwn neu gosb ar yr unigolyn hwn. Fodd bynnag, fe wnaeth y pwyllgor argymhell bod y goruchwyliwr yn cwblhau hyfforddiant ychwanegol cyn cymryd rhan mewn arholiadau ac asesiadau yn y dyfodol.

Penderfynodd y corff dyfarnu nad oedd yn gallu derbyn gwaith yr ymgeiswyr ar gyfer yr uned hon. Yn hytrach cyhoeddwyd gradd wedi'i hasesu i'r ymgeiswyr gan ddefnyddio'r dull sgôr Z.

1.4 Camweinyddu

Corff dyfarnu: Cambridge OCR

Cymhwyster: TAG Safon Uwch Celf a Dylunio, TAG UG Celf a Dylunio, TGAU Celf a Dylunio

Rhoddodd y ganolfan wybod am bryderon ynghylch gweinyddu arholiadau a gwaith cwrs Celf yn TGAU a TAG:

- Roedd gan ymgeiswyr fynediad at eu ffonau symudol yn ystod yr asesiadau wedi'u hamseru ac nid oedd gwaith ymgeiswyr wedi'i gadw yn ddiogel ar ôl dechrau'r asesiadau wedi'u hamseru ac ar ôl iddynt gael eu cwblhau.
- Roedd y dystiolaeth yn dangos ei bod yn bosibl nad oedd yr asesiadau wedi'u cynnal yn ôl amseriadau priodol a bod tystiolaeth bellach bod y Pennaeth Celf wedi ymyrryd â phaentiad ymgeisydd.
- Nid oedd posteri yn ymwneud ag ymddygiad yn ystod yr arholiad Celf wedi'u harddangos.
- Roedd tystiolaeth nad oedd amseriadau'r arholiadau wedi'u gorfodi'n llym.
- Caniatodd y Pennaeth Celf i ddisgyblion gael mynediad at waith cwrs a darnau arholiadau wedi'u hamseru ar ôl y terfyn amser ac ar ôl i'r marciau gael eu coladu.
- Cyfaddefodd y Pennaeth Celf nad oedd y gwaith o weinyddu'r arholiadau wedi'i wneud yn unol

â rheoliadau'r CGC ac nad oedd wedi darllen rheoliadau na gwybodaeth am oruchwylio y CGC a oedd wedi'u rhoi i'r staff.

- Caniatwyd i ddisgyblion wrando ar gerddoriaeth ar eu ffonau symudol ac ni ellid gwarantu mai dyna'r oll roeddent wedi'i wneud.
- Defnyddiodd y Pennaeth Celf frwsh paent i beintio un strôc fawr ac yna sawl un arall ar draws gwaith ymgeisydd.

Ar ôl archwilio'r dystiolaeth yn ofalus, penderfynwyd bod yr achos yn dangos methiant i gadw at y rheoliadau ynghylch cynnal asesiadau dan reolaeth, gwaith cwrs, arholiadau ac asesiadau di-arholiad, yn ogystal â chamymddwyn wrth gynnal arholiadau/asesiadau.

Gosododd y Pwyllgor Camymddwyn waharddiad am 4 mlynedd ar y Pennaeth Celf.

Corff dyfarnu: Pearson
Cymhwyster: BTEC Lefel 3 Busnes

Er mwyn ardystio dysgwyr galwedigaethol oedd yn disgwyl canlyniad yn yr haf yn amserol, roedd disgwyl i ganolfannau gyflwyno ei holl ganlyniadau asesiadau mewnol a cheisiadau ardystio erbyn terfyn amser penodol.

Lle na wnaeth canolfannau gwrdd â'r terfyn amser hwn, er gwaethaf sawl neges i'w hatgoffa, cawsant eu hymchwilio am gamymddwyn posibl.

Dyweddodd un ganolfan bod eu dysgwyr ar y trywydd cywir yn flaenorol, ond bod prinder staff yn annisgwyl wedi golygu nad oeddent wedi gallu cymedroli eu gwaith yn fewnol mewn pryd. Er y gallai hyn fod wedi bod y tu hwnt i reolaeth y ganolfan, roedd yn ymddangos nad oedd ganddynt ddigon o drefniadau wrth gefn ar waith ac nid oeddent ychwaith wedi rhoi gwybod i Pearson am yr oedi.

Gwnaeth y ganolfan gwblhau'r hyn yr oedd angen ei wneud wedyn ac ni chafwyd unrhyw oedi o ran ardystio'r dysgwyr. Fodd bynnag, derbyniodd y ganolfan rybudd ysgrifenedig am fethu â chwrrd â'r terfyn amser.

Corff dyfarnu: CCEA
Cymhwyster: Amryfal

Nodwyd materion yn ystod cyfres arholiadau'r haf mewn perthynas â methiant y ganolfan i ddanfôn deunyddiau asesu wedi'u cwblhau yn amserol, ac roedd hynny'n effeithio ar amrywiaeth o gymwysterau TGAU a TAG.

Yn ystod yr ymchwiliad, nodwyd nifer o faterion eraill o ran gweinyddu a chynnal arholiadau. Gwelwyd cymaint o faterion amrywiol fel bod staff y corff dyfarnu wedi'u hanfon i'r ganolfan i'w chefnogi o ran cwblhau tasgau gweinyddol.

Corff dyfarnu: Cambridge OCR
Cymhwyster: Cymwysterau Cenedlaethol Caergrawnt mewn Creative iMedia J834

Yn ystod y broses gymedroli, codwyd pryderon gan y cymedrolwr, gan nad oedd y gwaith a gyflwynwyd gan ganolfan ar gyfer eu hymgeiswyr ar gyfer uned R097 yn cyfateb i'r aseiniad gosod byw. Roedd cynhyrchion ar goll o waith rhai ymgeiswyr, fyddai wedi ategu marciau. Roedd gwaith ymgeiswyr eraill yn dangos cynhyrchion sylfaenol oedd yn hollol wahanol i'r cynnyrch gofynnol oedd wedi'i nodi yn yr aseiniad gosod byw. Gan nad oedd yr ymgeiswyr wedi dilyn yr aseiniad gosod byw cywir, nid oedd y gwaith a gynhyrchwyd yn bodloni gofynion yr aseiniad gosod byw na'r meini prawf ar gyfer marcio, ac nid oedd y marciau a roddwyd gan y ganolfan i'r ymgeiswyr yn cyfateb i'r gwaith a gynhyrchwyd.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth yn ofalus, penderfynwyd y gellid cadarnhau camweinyddu am eu bod wedi methu â dilyn y rheoliadau asesu a bennwyd yn y fanyleb. O ganlyniad, cafodd y dysgwyr farciau o sero am yr uned, cafodd yr athro/athrawes sancsiwn hyfforddiant a chafodd y ganolfan

adolygiad ac adroddiad (cynllun gweithredu).

2. Camymddwyn gan ymgeiswyr

2.1 Llên-ladrad

Corff dyfarnu: Cambridge OCR

Cymhwyster: Cymwysterau Cenedlaethol Caergrawnt: Creative iMedia

Nodwyd amheuaeth o lôn-ladrad yng ngwaith sawl ymgeisydd yn ystod y broses gymedroli. Cadarnhaodd ymchwiliad bod ymgeiswyr wedi cael eu haddysgu am lôn-ladrad gan gynnwys yr angen i gyfeirio eu gwaith a bod yn rhaid iddynt beidio â chopïo a gludo o'r rhyngwyd.

Roedd y deunydd a gafodd ei lôn-ladrata wedi'i gyfyngu yn bennaf i ffeithiau a diffiniadau, yn benodol i fath o ffeil, y mae gwybodaeth ohono yn ofyniad un o'r tasgau ac amcanion dysgu allweddol.

Dangosodd y dystiolaeth nad oedd y staff wedi camymddwyn gan fod yr ymgeiswyr wedi'u haddysgu ynghylch llôn-ladrad. Roedd natur dechnegol y wybodaeth a gafodd ei llôn-ladrata yn golygu ei bod yn anodd ei diffinio'n fanwl gywir heb ddefnyddio geiriau neu ymadroddion penodol a geir mewn diffiniadau ar y rhyngwyd.

O ganlyniad i'r ymchwiliad, rhoddwyd rhybudd i'r ddau ymgeisydd a oedd wedi copïo a gludo'r wybodaeth heb wneud unrhyw newidiadau.

2.2 Copïo a chydgyllwynio

Corff dyfarnu: NCFE

Cymhwyster: Sgiliau Gweithredol L3 Mathemateg

Adroddodd yr arholwr bod sawl ateb yn sgriptiau dau ymgeisydd o un ganolfan (Ymgeisydd A ac Ymgeisydd B) yn debyg.

Cysylltodd y corff dyfarnu â Phennaeth y Ganolfan i gynghori o ran y materion a nodwyd gan yr arholwr a gofynnodd iddo gynnal ymchwiliad mewnol i sefydlu'r digwyddiadau a arweiniodd at ymgeiswyr A a B yn cyflwyno ymatebion tebyg.

Adroddodd Pennaeth y Ganolfan yn ôl i'r corff dyfarnu fod ymgeisydd A, pan gafodd ei gyfweled, wedi cyfaddef ei fod wedi copïo darnau o waith ymgeisydd B. Roedd canfyddiadau'r ymchwiliad yn pwysleisio bod y ganolfan wedi methu sicrhau bod ystafell yr asesiad wedi'i gosod yn unol â'r rheoliadau gofynnol ac felly, nid oedd pellter digonol rhwng lle roedd ymgeiswyr yn eistedd, gan alluogi ymgeisydd A i weld gwaith ymgeisydd B.

O ganlyniad, cafodd Ymgeisydd A ei ddiarddel o'r cymhwyster (cosb 7). Yn ogystal, rhybuddiwyd y goruchwyliwr a gofynnwyd iddo fynychu hyfforddiant pellach.

2.3. Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol

Corff dyfarnu: CBAC

Cymhwyster: TGAU Cemeg

Tua hanner dydd ar ddiwrnod yr arholiad, derbyniodd dau ymgeisydd o Ganolfan A neges Instagram a oedd yn cynnwys lluniau o chwe thudalen o'r hyn oedd yn cael ei honni i fod yn y papur arholiad roedd yr ymgeiswyr hyn am ei sefyll ar brynghawn y diwrnod hwnnw. Rhoddodd y ddau ymgeisydd wybod am hyn i'w hathro ar unwaith a heb oedi, cysylltodd y ganolfan â'r bwrdd arholi ac anfon copi o'r lluniau i'r bwrdd arholi. Er nad oedd y ddau ymgeisydd yn sicr o enw llawn y person roeddent yn ei ddilyn ar Instagram, roeddent yn gwybod ei fod yn fyfyrwr mewn ysgol gyfagos.

Cadarnhaodd y bwrdd arholi mai lluniau oeddent o'r papur byw a oedd wedi'i amserlennu ar gyfer y prynhawn y diwrnod hwnnw. Roedd y sgrinluniau yn dangos enw proffil yr anfonwr a oedd yn llygredd ar enw priodol. Chwiliodd y bwrdd arholi drwy ei gofnodion cofrestru am ymgeiswyr ag enwau tebyg a daeth o hyd i un ymgeisydd penodol yng Nghanolfan B, sy'n agos yn ddaearyddol i Ganolfan A.

Cysylltodd y bwrdd arholi â Swyddog Arholiadau Canolfan B a gadarnhaodd fod yr ymgeisydd a amheuir yn y ganolfan honno a bod gwrthdaro ar ei amserlen y diwrnod hwnnw. Cadarnhaodd y Swyddog Arholiadau fod yr ymgeisydd wedi sefyll y papur dan sylw yn gynharach y diwrnod hwnnw. Roedd yr ymgeisydd wedi cwblhau'r arholiad ac roedd ar y pryd dan oruchwyliaeth rhwng arholiadau.

Pan holwyd yr ymgeisydd ynghylch yr honiad, cyfaddefodd yn syth i smyglo ffôn symudol i'r ystafell arholiad a thynnu lluniau tudalennau o'r papur a'u postio wedyn ar Instagram.

Cafwyd rhestr o enwau proffiliau dilynwyr Instagram o'r ffôn symudol ac anfonwyd y rhain ymlaen at y bwrdd arholi. Dilëwyd y lluniau drwy ddileu'r neges Instagram am tua 1.0pm.

Cynhaliodd y bwrdd arholi ymchwiliad ehangach i ganfod hyd a lled yr achos posibl o dor diogelwch. Rhoddodd y ddau fyfyrwr yng Nghanolfan A ddatganiadau ysgrifenedig a oedd yn cadarnhau eu bod wedi gweld teitl y neges a'u bod wedi gweld tudalen gyntaf y papur arholiad yn sydyn yn unig, ond nid gweddill y lluniau.

Allan o'r 15 dilynwr oedd yn weddill oedd wedi derbyn y neges, gellid adnabod 12 oddi wrth enw eu proffil. Dywedodd yr ymgeisydd a oedd wedi'i gyhuddo nad oedd yn gwybod beth oedd enwau'r 3 ymgeisydd arall. Roedd wyth o'r dilynwyr hefyd yng Nghanolfan B ac yn sefyll yr un papur yn gynharach ac roeddent hefyd wedi bod dan oruchwyliaeth ac nid oedd ganddynt ffôn yn eu meddiant ar y pryd. Cysylltwyd â'r pedwar ymgeisydd arall mewn canolfannau eraill ac yn ffodus roeddent naill ai heb fynd â ffôn i'r ysgol ar y diwrnod hwnnw neu nid oeddent wedi gweld y neges gan eu bod mewn gwers adolygu ar y pryd. Ni chanfuwyd unrhyw beth o bryder wrth fonitro'r cyfryngau cymdeithasol dros gyfnod datgelu'r papur hwnnw nac ar ôl hynny. Daeth adolygiad rhagarweiniol o'r achos i'r casgliad ei fod yn ddiwyll ac ni chafwyd gwrthwynebiad i ymddygiad yr ymgeisydd.

Cyfeiriwyd yr achos at swyddog bwrdd arholi arall a benderfynodd rhoi'r sancsiwn o golli cyfle agregu ar gyfer y cymhwyster i'r ymgeisydd. Ni wnaed cais am apêl gan y ganolfan na'r ymgeisydd.

2.4 Deunyddiau heb eu caniatáu

Corff dyfarnu: Pearson

Cymhwyster: Lefel 2 Busnes

Cyflwynodd y ganolfan ffurflen JCQ M1 i hysbysu'r corff dyfarnu o achos o amau camymddwyn gan ymgeisydd wrth gyflwyno arholiad ysgrifenedig.

Esboniodd y ganolfan, ar ddiwedd yr arholiad, ar ôl dangos ei fod wedi gorffen, tynnodd ymgeisydd ffôn symudol o'i boced a dechrau ei ddefnyddio. Adroddodd y ganolfan fod y goruchwyliwr wedi tynnu'r ffôn oddi ar yr ymgeisydd yn syth. Roedd papur cwestiynau'r ymgeisydd ar gau drwy gydol y digwyddiad.

Yn ogystal â Ffurflen JCQ M1, cyflwynodd y ganolfan gofnod digwyddiadau yn cynnwys manylion am y digwyddiadau uchod, wedi'i arwyddo gan yr ymgeisydd a'r goruchwyliwr. Nododd y ganolfan fod yr ymgeisydd wedi cael y cyfle i gyflwyno datganiad ysgrifenedig ond fe wrthododd.

Esboniodd y ganolfan fod pob ymgeisydd wedi cael gwybod y rheolau mewn gwasanaeth ysgol ac yn y dosbarth cyn sefyll yr arholiadau. Roedd posteri rhybuddio a gwybodaeth i ymgeiswyr y CGC wedi'u harddangos y tu allan i bob ystafell arholiadau. Cafodd yr ymgeiswyr eu hatgoffa cyn mynd i mewn i'r ystafell i wneud yn siŵr bod eu ffonau wedi'u diffodd ac yn eu bagiau. Atebodd yr

ymgeisydd dan sylw 'do' cyn yr arholiad pan ofynnwyd iddo a oedd wedi gwneud hynny.

Daethpwyd i'r casgliad bod yr ymgeisydd yn tanseilio rheoliadau'r CGC ynghylch meddu ar ddeunydd heb ei ganiatáu a chafodd ei ddiarddel o'r uned gan y corff dyfarnu. Felly, nid oedd yr ymgeisydd yn gallu derbyn tystysgrif (cyflawni'r cymhwyster) yn y gyfres honno.

2.5 Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI) mewn Asesiadau

Corff dyfarnu: AQA

Cymhwyster: Safon Uwch Hanes Asesiad di-arholiad

Roedd canolfan wedi rhoi gwybod bod pryderon gan yr athro Safon Uwch Hanes ynghylch cyflwyniadau asesiadau di-arholiad dau ymgeisydd. Sail y pryderon oedd bod sawl adran yn anghyson ag adrannau eraill yng ngwaith yr ymgeiswyr, a lefel arferol ac arddull ysgrifennu'r ymgeiswyr.

Defnyddiodd y ganolfan feddalwedd canfod AI i ddilyn pryderon yr athro. Nodwyd y canlynol yn adolygiad y ganolfan.

Ymgeisydd A: Roedd y feddalwedd canfod AI wedi nodi ei bod yn debygol iawn bod AI wedi cynhyrchu'r gwaith. Cyfaddefodd yr ymgeisydd hwn i ddefnyddio ChatGPT i gynhyrchu canllaw ar gyfer ei waith ei hun a honnodd ei fod wedi cyflwyno'r canllaw yn hytrach na'i waith ei hun ar ddamwain.

Ymgeisydd B: Roedd y feddalwedd canfod AI wedi nodi ei bod yn bosibl fod y gwaith wedi'i gynhyrchu gan AI, ac yn debygol o fod yn gyfuniad o fewnbwn AI a dynol. Cyfaddefodd yr ymgeisydd i ddefnyddio ChatGPT ar gyfer rhywfaint o gynnwys y gwaith, er mwyn gwella'r gwaith yn ogystal â chreu cynnwys cwbl newydd.

Roedd y ganolfan wedi adrodd yn ôl i'r corff dyfarnu am y ddau ymgeisydd ac wedi cadarnhau bod yr holl ddogfennau 'gwybodaeth i ymgeiswyr' perthnasol wedi'u dosbarthu i ymgeiswyr, a bod yr ymgeiswyr wedi llofnodi'r datganiad dilysrwydd i ddatgan mai gwaith eu hunain yw'r gwaith a gwblhawyd.

Canfuwyd bod y ddau ymgeisydd wedi cyflawni achosion o gamymddwyn. Diarddelwyd Ymgeisydd A o'r cymhwyster Safon Uwch Hanes a chollodd Ymgeisydd B yr holl farciau yr oedd wedi'u hennill ar gyfer cydran Asesiad di-arholiad Safon Uwch Hanes.

Corff dyfarnu: Cambridge OCR

Cymhwyster: Cambridge Nationals Enterprise and Marketing

Mynegodd y cymedrolwr bryderon ynghylch amheuaeth o lèn-ladrad yn un o unedau'r cymhwyster uchod, oherwydd diffyg cyfeirnodu yng ngwaith ymgeiswyr.

Drwy ddefnyddio Turnitin, nodwyd dau ymgeisydd y gallent fod wedi defnyddio dulliau AI, neu Fodelau Iaith Mawr (LLMs), i gynhyrchu cynnwys ar gyfer o leiaf un Deilliant Dysgu. Roedd y rhain yn cynnwys esboniadau o dermau busnes a dadansoddiadau ariannol gwahanol.

Cyfaddefodd un ymgeisydd i ddefnyddio ChatGPT yn rhannau olaf ei waith cwrs gan nad oedd wedi deall rhai o'r cwestiynau ac roedd yn teimlo bod y gefnogaeth gan yr athro'n "rhy anaml". Nododd mai'r resymeg oedd nad oedd yn wahanol i ofyn i'r athro am gyngor gan y byddai'r dull AI yn cymryd gwybodaeth o bob rhan o'r rhyngwyd a gan ei fod yn gofyn cwestiynau penodol, byddai'r 'ateb' gan y dull AI yr un fath â chael cyngor ac adborth gan athro.

Cyfaddefodd yr ymgeisydd arall i ddefnyddio dull AI i gynhyrchu cynnwys ar gyfer ei waith ond nid oedd yn cofio pa adrannau o'r gwaith oedd ei waith ei hun.

Er y dywedwyd wrth y garfan am lèn-ladrad a sut i'w osgoi, ni chafwyd unrhyw sôn yn benodol am ddulliau AI – er gwaetha'r ffaith bod camddefnyddio AI yn ffurf o lèn-ladrad.

Ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd gan y ganolfan, penderfynwyd na fyddai'r un o'r ddau ymgeisydd yn

derbyn unrhyw farciau ar gyfer y Deilliannau Dysgu dan sylw.

Corff dyfarnu: Pearson
Cymhwyster: Project Estynedig P301

Yn ystod adolygiad arferol o'r gwaith at ddibenion nodi achos posibl o gamddefnyddio AI, nodwyd gan feddalwedd canfod bod cyflwyniad Project Estynedig un ymgeisydd yn cynnwys sawl adran o gynnwys a gynhyrchwyd gan AI nad oeddent wedi'u cyfeirnod. Roedd gwerthusiad pellach â llaw o'r cyflwyniad yn casglu bod sawl adran o'r gwaith yn cynnwys dangosyddion estynedig sy'n gysylltiedig ag AI a gynhyrchir. Ar ôl cysylltu â'r ganolfan, gwrthododd yr ymgeisydd ddarparu datganiad yn esbonio'r pryderon. Cyfeiriwyd yr achos at Bwyllgor Camymddwyn Pearson i'w ystyried.

Ar ôl adolygiad gofalus o'r dystiolaeth sydd ar gael, casglodd y Pwyllgor Camymddwyn bod yr ymgeisydd wedi torri canllawiau Defnyddio AI mewn Aseidiadau y CGC sy'n rhoi'r diffiniad canlynol am gamymddwyn "copïo neu aralleirio adrannau o gynnwys wedi'i gynhyrchu gan AI fel nad yw'r gwaith bellach yn waith y myfyriwr ei hun" a "methiant i gydnabod y defnydd o ddulliau DA pan fyddan nhw wedi'u defnyddio fel ffynhonnell gwybodaeth".

Penderfynodd y Pwyllgor Camymddwyn y byddai'r ymgeisydd yn cael ei ddiarddel o'r cymhwyster, o ganlyniad i'r camymddwyn.

Corff dyfarnu: AQA
Cymhwyster: TGAU Astudiaethau Crefyddol

Uwchgyfeiriwyd sgript arholiad ymgeisydd i'r tîm camymddwyn gan yr arholwr a oedd yn ei farcio oherwydd ei fod wedi nodi sawl sillafiad Americanaidd ac roedd yn teimlo nad oedd yr iaith a'r cysyniadau hynod soffistigedig oedd wedi'u cynnwys yn gyson â gwaith o safon TGAU.

Adolygwyd sgript yr ymgeisydd, a ysgrifennwyd ar brosesydd geiriau, gan ddefnyddio meddalwedd canfod AI. Cafwyd sgôr o debygolrwydd uchel bod AI wedi'i ddefnyddio. Gofynnwyd i'r ymgeisydd ddarparu datganiad. Gwadodd ddefnyddio AI.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gasglwyd, penderfynwyd bod yr ymgeisydd wedi torri amodau'r arholiad ac wedi defnyddio AI i gynhyrchu atebion yn ei arholiad. Collodd yr ymgeisydd yr holl farciau a enillwyd ar gyfer cydran. Ar ôl y canlyniadau, casglwyd gan y ganolfan nad oedd marciau a graddau'r ymgeisydd yn gyson â'r disgwyliad neu gyflawniad blaenorol. Ar ôl canlyniad yr achos hwn a'r gwahaniaeth o ran y perfformiad fel yr amlygwyd gan y ganolfan, proseswyd holl aseidiadau'r ymgeisydd drwy feddalwedd canfod AI a oedd yn dangos bod sawl cydran yn cael ei heffeithio. O ganlyniad, collodd yr ymgeisydd yr holl farciau a enillwyd ar gyfer y cydrannau yr effeithiwyd arnynt.

Nid oedd prosesydd geiriau'r ymgeisydd wedi'i osod yn gywir. Dylai mynediad i'r rhyngrwyd fod wedi'i analluogi ar gyfer y prosesydd geiriau, a fyddai wedi atal y camymddwyn hwn rhag digwydd. Yn rhan o'r ymchwiliad, roedd y corff dyfarnu'n ceisio sicrhau na fyddai achosion o'r fath yn digwydd eto. Rhoddodd y ganolfan fanylion o'r camau a fyddai'n cael eu cymryd i atal y mater rhag digwydd eto, a oedd yn cynnwys ailhyfforddi goruchwylwyr ar osod prosesydd geiriau.

Atodiad 8

JCQ M1 Camymddwyn honedig gan ymgeisydd



JCQ M1

Camymddwyn honedig gan ymgeisydd

Cyfrinachol

Dylai canolfannau ddefnyddio'r ffurflen hon i roi gwybod am achosion honedig o gamymddwyn gan ymgeisydd.

Am ganllawiau ar sut i lenwi'r ffurflen hon, gweler **tudalen 6** y ffurflen hon.

Corff dyfarnu

Dyddiad y digwyddiad

Amser (sesiwn AM/PM)

<input type="text"/>	<input type="text"/>
----------------------	----------------------

Rhif y ganolfan

Enw a chyfeiriad y ganolfan

<input type="text"/>
<input type="text"/>
<input type="text"/>
<input type="text"/>

Cyfeiriad e-bost pennaeth y ganolfan

Rhif ffôn pennaeth y ganolfan

<input type="text"/>	<input type="text"/>
----------------------	----------------------

Rhif(au) yr ymgeisydd Enw(au) yr ymgeisydd

Manylion yr arholiad/asesiad

Cod y cymhwyster neu'r fanyleb	Teitl y cymhwyster neu'r fanyleb
Rhif/cod y gydran/uned	Teitl y gydran/uned

Enw(au) y goruchwyliwr (goruchwylwyr) / personél asesu neu dyst arall/tystion eraill

Enw	Rôl

Cwblhewch adrannau A, B, C ac Ch fel y nodir.

Adran A (Pob cymhwyster)

Disgrifiwch natur yr achos honedig o gamymddwyn gan ymgeisydd, gan gynnwys manylion sut darganfuwyd yr achos, gan bwy a phryd.

--

Adran B (Cymwysterau galwedigaethol yn unig)

Disgrifiwch sut gwnaed yr ymgeiswyr yn ymwybodol o reoliadau'r arholiad neu'r asesiad.

Adran C (Pob cymhwyster cyffredinol a chymwysterau eraill os yn berthnasol)

Arholiadau

A oedd y *Rhybudd i Ymgeiswyr* i'w weld y tu allan i'r ystafell arholiadau? (naill ai ar daflunydd neu ar ffurf copi caled papur)

OEDD	<input type="checkbox"/>
NAC OEDD	<input type="checkbox"/>

A gafodd yr ymgeisydd (ymgeiswyr) gopi o'r *Gwybodaeth i ymgeiswyr?* (naill ai'n electronig neu fersiwn papur)

DO	<input type="checkbox"/>
NADDO	<input type="checkbox"/>

A gafodd yr ymgeisydd ei atgoffa o reoliadau arholiadau ar ddechrau'r arholiad penodol hwn?

DO	<input type="checkbox"/>
NADDO	<input type="checkbox"/>

Gwaith cwrs/asesiad di-arholiad

A gafodd yr ymgeisydd ddatganiad dilysu?

DO	<input type="checkbox"/>
NADDO	<input type="checkbox"/>

A oedd yr ymgeisydd wedi llofnodi'r datganiad dilysu, gan ddatgan mai ei waith ei hun oedd yr holl waith wedi'i gwblhau?

OEDD	<input type="checkbox"/>
NAC OEDD	<input type="checkbox"/>

A gafodd y ddogfen *Gwybodaeth i ymgeiswyr* ei rhoi i'r ymgeisydd cyn llofnodi'r datganiad dilysu?

DO	<input type="checkbox"/>
NADDO	<input type="checkbox"/>

A gafodd y ddogfen *Gwybodaeth i ymgeiswyr - AI (Deallusrwydd Artificial ac asesiadau)* neu ddogfen debyg gan y ganolfan ei rhoi i'r ymgeisydd cyn llofnodi'r datganiad dilysu?

DO	<input type="checkbox"/>
NADDO	<input type="checkbox"/>

Adran Ch (Pob cymhwyster)

Os oedd y digwyddiad yn cynnwys ymddygiad aflonyddgar, a oedd ymddygiad yr ymgeisydd yn aflonyddu ar ymgeiswyr eraill?

OEDD	<input type="checkbox"/>
NAC OEDD	<input type="checkbox"/>

Os 'oedd' yw'r ateb i'r cwestiwn uchod, ac rydych yn dymuno gofyn am ystyriaeth arbennig i ymgeiswyr eraill, dylech gyflwyno cais am ystyriaeth arbennig yn y ffordd arferol.

Os yw'r digwyddiad yn cynnwys cyflwyno deunydd heb ei ganiatáu, a yw'r copi/llun o'r deunydd heb ei ganiatáu wedi'i amgáu?

YDY	<input type="checkbox"/>
NAC YDY	<input type="checkbox"/>

Os mai'r ateb i'r cwestiwn uchod yw nac ydy, rhwch ddisgrifiad manwl o'r deunydd heb ei ganiatáu ac esboniad pam na ddarparwyd copi/llun.

Os oedd yr achos yn cynnwys llên-ladrad, rhwch fanylion llawn (h.y. teitl, awdur, argraffiad, gwefan, dull AI ac ati.) y deunydd a gafodd ei lôn-ladrata, a chynnwys copïau.

Os oes unrhyw fanylion eraill y teimlwch sy'n berthnasol i'r honiad hwn, gan gynnwys amgylchiadau arbennig, rhwch ragor o wybodaeth isod.



Gwybodaeth ategol

Nodwch isod y wybodaeth ategol a gyflwynwyd gyda'r adroddiad hwn. **Rhaid** i'r holl wybodaeth a deunyddiau perthnasol gael eu cyflwyno ar yr adeg yma. Ni ellir ystyried gwybodaeth sy'n cael ei chyflwyno ar ôl hyn.

Gwnewch yn siŵr bod yr holl ddogfennau ategol wedi eu sganio a'u hatodi (fel dogfennau PDF yn ddelfrydol) i'r un e-bost.

Gwybodaeth a gyflwynir gyda'r ffurflen hon	
Datganiad(au) gan oruchwyliwr/oruchwylwyr	<input type="checkbox"/>
Datganiad gan athro/tiwtor/pennaeth pwnc/aseswr/dilyswr mewnl	<input type="checkbox"/>
Datganiad gan swyddog arholiadau	<input type="checkbox"/>
Datganiad(au) gan ymgeisydd/ymgeiswyr	<input type="checkbox"/>
Datganiad gan gyflogwr	<input type="checkbox"/>
Cynllun seddi yr ystafell arholi	<input type="checkbox"/>
Deunydd heb ei ganiatáu wedi'i dynnu oddi ar yr ymgeisydd	<input type="checkbox"/>
Copiau o ffynonellau deunydd wedi'i lèn-ladrata	<input type="checkbox"/>
Cofnodion asesu a dilysu neu gymedroli mewnl	<input type="checkbox"/>
Arall (rhowch fanylion)	<input type="checkbox"/>

Os nad yw'r datganiad(au) gan yr ymgeisydd/ymgeiswyr wedi'u hamgáu, rhowch groes yn y blwch i ddangos bod yr ymgeisydd/ymgeiswyr wedi cael y cyfle i wneud datganiad, ond ei fod/eu bod wedi dewis peidio â gwneud hynny.

Adroddiad o gamymddwyn honedig gan ymgeisydd

Bwriad y rhestr wirio hon yw cynorthwyo canolfannau wrth gwblhau adroddiad o gamymddwyn honedig gan ymgeisydd.

Cyfrifoldeb pennaeth y ganolfan yw sicrhau bod y gofynion hyn yn cael eu bodloni.

Cyfeirir at y gofynion a nodir yn y ddogfen CGC:
Amau Camymddwyn – Polisiâu a Gweithdrefnau
<http://www.jcq.org.uk/exams-office/malpractice>

Nodwch drwy roi croes yn y blwch priodol ar gyfer y pwyntiau canlynol:

		Ydy	Nac ydy
1.	Mae'r ymgeiswyr wedi cael gwybod beth yw eu cyfrifoldebau a'u hawliau (adran 5.33) .	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
2.	Mae ymgeisydd sydd wedi cael ei gyhuddo o gamymddwyn:		
	<ul style="list-style-type: none"> wedi cael gwybod (yn ysgrifenedig yn ddelfrydol) am yr honiad a wnaed yn ei erbyn; 	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	<ul style="list-style-type: none"> wedi cael ei gynghori bod copi o ddogfen y CGC <i>Amau Camymddwyn mewn Arholiadau ac Asesiadau: Polisiâu a Gweithdrefnau</i> ar gael ar wefan y CGC; 	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	<ul style="list-style-type: none"> wedi cael gwybod am yr holl dystiolaeth a gafwyd sy'n ategu'r honiad (naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig); 	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	<ul style="list-style-type: none"> wedi cael gwybod bod gwybod ei fod yn darparu gwybodaeth gamarweiniol neu anghywir yn gyfystyr â chamymddwyn; 		
	<ul style="list-style-type: none"> yn gwybod beth yw'r canlyniadau posibl os profir camymddwyn (fel y nodir yn Atodiad 6); 	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	<ul style="list-style-type: none"> wedi cael cyfle i ystyried ei ymateb i'r honiadau (os oes angen); 	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	<ul style="list-style-type: none"> wedi cael cyfle i gyflwyno datganiad ysgrifenedig; 	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	<ul style="list-style-type: none"> wedi derbyn set lawn o ddogfennau'r achos (h.y. datganiadau, cynlluniau eistedd, ffurflen M1, ac ati); 		
	<ul style="list-style-type: none"> wedi cael cyfle i ddarllen a gwneud datganiad mewn ymateb i ddogfennau'r achos; 		
	<ul style="list-style-type: none"> wedi cael cyfle a digon o amser i ofyn am gyngor (fel y bo angen) a darparu datganiad ategol (os oes angen); 	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	<ul style="list-style-type: none"> wedi cael gwybod beth yw'r weithdrefn apelio sy'n berthnasol pe bai penderfyniad yn cael ei wneud yn ei erbyn; 	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	<ul style="list-style-type: none"> wedi cael gwybod am y posibilrwydd y gallai gwybodaeth sy'n ymwneud ag achos difrifol o gamymddwyn gael ei rhannu â chyrrff dyfarnu eraill, y rheoleiddwyr ac awdurdodau eraill priodol. 	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Rhowch fanylion pellach os bu angen ticio Na yn y rhestr wirio:

I'w gwblhau gan bennaeth y ganolfan

Enw (Printiwch)		Rhif ffôn	
Llofnod *		Dyddiad	

* Bydd cyflwyno dros e-bost o gyfeiriad e-bost cofrestredig y ganolfan yn cael ei dderbyn yn lle llofnod.

NODIADAU AR GWBLHAU FFURFLEN JCQ/M1

Rhaid i bennaeth y ganolfan ddefnyddio'r ffurflen hon i roi gwybod i'r corff dyfarnu priodol am achos o gamymddwyn honedig gan ymgeisydd wrth gynnal asesiadau neu arholiadau. Gellir hefyd ei defnyddio i roi adroddiad ar ymchwiliadau i achosion o gamymddwyn honedig.

Er mwyn osgoi canlyniadau a thystysgrifau gwallus, mae'n hanfodol bod y corff dyfarnu dan sylw yn cael gwybod ar unwaith am achosion honedig o gamymddwyn gan ymgeisydd cyn gynted â phosibl.

Mae manylion llawn y gweithdrefnau y mae'n rhaid eu dilyn wrth ymchwilio i achosion honedig o gamymddwyn i'w gweld yn nogfen y CGC: *Amau Camymddwyn mewn Arholiadau ac Asesiadau: Polisiâu a Gweithdrefnau* – <http://www.jcq.org.uk/exams-office/malpractice>

Rhaid i adroddiadau ar ymchwiliadau gan ganolfannau gynnwys y canlynol:

- cyfrif manwl o'r amgylchiadau'n ymwneud â'r achos honedig o gamymddwyn gan ymgeisydd gan gynnwys, yn achos ymddygiad aflonyddgar, a wnaeth yr ymddygiad barhau ar ôl rhoi rhybuddion, ac a gafodd yr ymgeisydd ei dynnu allan o'r ystafell arholi/sefyllfa asesu ai peidio;
- y gweithdrefnau ar gyfer cynghori ymgeiswyr am y rheoliadau ynghylch cynnal arholiadau a/neu asesiadau;
- adroddiad am unrhyw ymchwiliad a gynhaliwyd wedi hynny gan y ganolfan;
- datganiadau wedi'u llofnodi a'u dyddio gan y staff dan sylw (e.e. goruchwylwyr, aseswyr, athrawon, tiwtoriaid, ac ati.) ar bapur swyddogol y ganolfan;
- datganiadau wedi'u llofnodi a'u dyddio gan yr ymgeisydd dan sylw neu nodyn clir ei fod wedi cael cyfle i wneud datganiad; (dan amgylchiadau sy'n ei gwneud yn amhriodol cyfweld â'r ymgeisydd, dylai'r ganolfan drafod yr achos yn gyfrinachol gyda'r corff dyfarnu.)
- cynlluniau seddi yr ystafell arholi (os yn briodol).

Bwriad y ffurflen hon yw cael ei defnyddio fel sail ar gyfer yr adroddiad.

Dylid cyflwyno'r ffurflen hon a gwybodaeth ategol drwy e-bost.

Dylai'r holl ddogfennau ategol gael eu sganio a'u hatodi (fel dogfennau PDF yn ddelfrydol) i'r un e-bost, a dylai'r ganolfan gadw'r fersiynau gwreiddiol.

Bydd y corff dyfarnu dan sylw yn cydnabod ei fod wedi derbyn y ffurflen hon.

Rhaid dychwelyd y ffurflen a'r dogfennau ategol i:

AQA

irregularities@aqa.org.uk

CCEA

malpractice@ccea.org.uk

City & Guilds

investigationandcompliance@cityandguilds.com

NCFE

providerassurance@ncfe.org.uk

CAMBRIDGE OCR

compliance@ocr.org.uk

Pearson

candidatemalpractice@pearson.com

CBAC

camymddwyn@cbac.co.uk

JCQ M2 Adroddiad ar Gamymddwyn/Camweinyddu Honedig sy'n cynnwys Staff y Ganolfan



JCQ M2

Hysbysiad o amheuon o gamymddwyn/camweinyddu sy'n cynnwys staff y ganolfan

Cyfrinachol

Dylai pennaeth y ganolfan ddefnyddio'r ffurflen hon **cyn** ymchwiliad i roi gwybod i gorff dyfarnu am achos o gamymddwyn neu gamweinyddu honedig, a amheuir neu wirioneddol.. **Rhaid i'r ffurflen gael ei llenwi a'i chyflwyno i'r corff dyfarnu priodol ar unwaith ar ôl i amheuaeth godi neu honiad gael ei wneud.**

Corff dyfarnu

Rhif y ganolfan

Enw a chyfeiriad y ganolfan

Cyfeiriad e-bost pennaeth y ganolfan

Rhif ffôn pennaeth y ganolfan

--	--

Enw pennaeth y ganolfan

Enwau aelodau staff y ganolfan sy'n ymwneud â'r achos

Swydd

Y dyddiad y rhoddwyd gwybod i dîm rheoli'r ganolfan am y digwyddiad

Manylion yr arholiadau/asesiadau dan sylw

Cod y cymhwyster, uned neu fanyleb	Teitl y cymhwyster, uned neu fanyleb

Dyddiad ac amser y digwyddiad

Disgrifiwch natur yr achos honedig o gamymddwyn/camweinyddu, gan gynnwys manylion sut darganfuwyd yr achos, gan bwy a phryd.

A allai'r ymgeiswyr fod wedi cael mantais neu anfantais annheg o ganlyniad i'r camymddwyn/camweinyddu honedig? Os felly, rhowch fanylion.

Disgrifiwch y camau y mae tîm rheoli'r ganolfan yn cynnig eu cymryd i gasglu gwybodaeth mewn perthynas â'r mater hwn.

--

Yr unigolyn a enwebir i gasglu gwybodaeth

Enw:	
Rôl yn y ganolfan/sefydliad:	
Y rheswm pam ei fod yn addas i gasglu gwybodaeth (e.e. uwch arweinydd profiadol):	

A ydych chi a'r unigolyn a enwebir i gasglu gwybodaeth wedi darllen canllawiau'r CGC ar wrthdaro buddiannau a buddiant personol yn adrannau 4.1.3 a 5.7-5.8 ac Atodiad 3 o fewn dogfen y CGC <i>Amau Camymddwyn: Polisiâu a Gweithdrefnau?</i>	DO <input type="checkbox"/>	NADDO <input type="checkbox"/>
A oes gan yr unigolyn a enwebir i gasglu gwybodaeth unrhyw wrthdaro buddiannau neu fuddiant personol hysbys yng nghanlyniad yr ymchwiliad?	OES <input type="checkbox"/>	NAC OES <input type="checkbox"/>

Enw a swydd (priflythrennau): _____

Llofnodwyd: _____

Dyddiad: _____

Rhaid dychwelyd y ffurflen a'r dogfennau ategol i:

AQA

irregularities@qa.org.uk

CCEA

malpractice@ccea.org.uk

City & Guilds

investigationandcompliance@cityandguilds.com

NCFE

providerassurance@ncfe.org.uk

Cambridge OCR

compliance@ocr.org.uk

Pearson

pqsmalpractice@pearson.com

CBAC

camymddwyn@cbac.co.uk

Atodiad 10



JCQ M3

Adroddiad ar amheuon o gamymddwyn/camweinyddu sy'n cynnwys staff y ganolfan

Cyfrinachol

Dylai pennaeth y ganolfan ddefnyddio'r ffurflen hon ar ôl casglu gwybodaeth ar gyfer ymchwiliad i achos o amheuon o gamymddwyn neu gamweinyddu. **Rhaid** iddi gael ei chwblhau a'i chyflwyno i'r corff dyfarnu priodol ynghyd â'r datganiadau a'r dogfennau ategol.

Os nad ydych wedi dechrau casglu gwybodaeth eto, defnyddiwch **Ffurflen JCQ M2 Hysbysiad o achos o amheuon o gamymddwyn/camweinyddu** sydd i'w gweld ar wefan y CGC: <http://www.jcq.org.uk/exams-office/malpractice>

Corff dyfarnu

Rhif y ganolfan

Enw a chyfeiriad y ganolfan

Cyfeiriad e-bost pennaeth y ganolfan

Rhif ffôn pennaeth y ganolfan

<input type="text"/>	<input type="text"/>
----------------------	----------------------

Enw pennaeth y ganolfan

Enwau aelodau staff y ganolfan sy'n ymwneud â'r achos**Swydd**

Manylion yr arholiadau/asesiadau dan sylw

Cod y cymhwyster, uned neu fanyleb	Teitl y cymhwyster, uned neu fanyleb

Dyddiad ac amser y digwyddiad


--

Yr unigolyn/unigolion a gasglodd y dystiolaeth

Enw:		
Rôl yn y ganolfan/sefydliad:		
Y rheswm pam ei fod yn addas i gasglu gwybodaeth (e.e. uwch arweinydd profiadol):		
Cadarnhewch eich bod chi, cyn casglu gwybodaeth, wedi darllen canllawiau'r CGC ar wrthdaro buddiannau a buddiant personol yn adrannau 4.1.3 a 5.7-5.8 ac Atodiad 3 o fewn dogfen y CGC Amau Camymddwyn: Polisiâu a Gweithdrefnau?	DO	NADDO
A oedd gennych unrhyw wrthdaro buddiannau neu fuddiant personol hysbys yng nghanlyniad yr ymchwiliad?	OEDD	NAC OEDD

A wnaeth unrhyw bobl allanol (e.e. personél yr awdurdod lleol, swyddogion yr undeb) helpu i gasglu gwybodaeth? Os felly, rhowch fanylion:**Enw(au)****Swydd**

Rhowch fanylion am y camau gweithredu rydych wedi'u cymryd a'r wybodaeth rydych wedi'i chasglu



O'r wybodaeth rydych chi wedi'i chasglu, defnyddiwch y blwch isod i roi'r canlynol:

- **manylion y camau gweithredu y mae eich canolfan yn cynnig eu cymryd i liniaru'r effaith ar ymgeiswyr; a**
- **manylion y camau gweithredu y mae eich canolfan yn cynnig eu cymryd i atal achosion tebyg rhag digwydd eto yn y dyfodol**



Enw a swydd (priflythrennau): _____

Llofnodwyd: _____

Dyddiad: _____

Adroddiad ar ymchwiliad i amheuon o gamymddwyn/camweinyddu sy'n cynnwys staff y ganolfan

Bwriad y rhestr wirio hon yw cynorthwyo canolfannau wrth iddynt gasglu gwybodaeth ar gyfer ymchwilio i achos honedig o gamymddwyn neu gamweinyddu sy'n cynnwys staff y ganolfan. Ar ôl iddi gael ei chwblhau, **rhaid** iddi gael ei chyflwyno i'r corff dyfarnu ynghyd â'r datganiadau a'r dogfennau ategol. **Cyfrifoldeb pennaeth y ganolfan yw sicrhau bod y gofynion hyn yn cael eu bodloni. Mae angen rhestr wirio ar wahân i bob aelod staff sydd wedi'i gysylltu â'r honiad.** Cyfeirir at y gofynion a nodir yn y ddogfen CGC:

Amau Camymddwyn: Polisiâu a Gweithdrefnau

Enw'r aelod o staff y ganolfan sydd wedi'i gysylltu:

Nodwch drwy roi croes yn y blwch priodol ar gyfer y pwyntiau canlynol:

		Ydy	Nac ydy
1.	Mae'r aelod o staff a gyhuddir wedi cael gwybod beth yw ei gyfrifoldebau unigol a'i hawliau (adrannau 4.1.3 a 5.33).	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
2.	Dylai'r aelod o staff a gyhuddir o gamymddwyn:		
	<ul style="list-style-type: none"> gael gwybod (yn ysgrifenedig, yn ddelfrydol) o'r honiad yn ei erbyn ef neu hi (dylech gynnwys copi o unrhyw lythyr/hysbysiad yn y dogfennau a gyflwynir); 	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	<ul style="list-style-type: none"> cael copi o gyhoeddiad y CGC <i>Amau Camymddwyn: Polisiâu a Gweithdrefnau</i>; 	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	<ul style="list-style-type: none"> gwybod pa dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi'r honiad (darparwch fanylion llawn yn y dogfennau a gyflwynir i'r corff dyfarnu); 	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	<ul style="list-style-type: none"> gwybod bod darparu gwybodaeth gamarweiniol neu anghywir yn fwriadol yn gyfystyr â chamymddwyn; 	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	<ul style="list-style-type: none"> gwybod y canlyniadau posibl pe byddai achos o gamymddwyn yn cael ei brofi; 	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	<ul style="list-style-type: none"> cael y cyfle i ystyried ei ymateb i'r honiadau (darparwch gofnod wedi'i wirio o unrhyw gyfweiliadau a gynhaliwyd); 	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	<ul style="list-style-type: none"> cael cyfle i gyflwyno datganiad ysgrifenedig (darparwch gopi o bob datganiad); 	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	<ul style="list-style-type: none"> cael gwybod y bydd ef/hi yn cael y cyfle i ddarllen a gwneud datganiad mewn ymateb i'r dogfennau a gyflwynir i Bwyllgor Camymddwyn y corff dyfarnu; 	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	<ul style="list-style-type: none"> cael cyfle i geisio cyngor (yn ôl yr angen) a rhoi datganiad ategol (os bydd angen); 	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	<ul style="list-style-type: none"> cael gwybod am y weithdrefn apelio sy'n berthnasol, pe bai penderfyniad yn cael ei wneud yn ei erbyn ef neu hi; 	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

	<ul style="list-style-type: none">• cael gwybod am y posibilrwydd y gallai gwybodaeth sy'n ymwneud ag achos difrifol o gamymddwyn gael ei rhannu â chyrrff dyfarnu eraill, y rheoleiddwyr ac awdurdodau priodol eraill.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
--	---	--------------------------	--------------------------

Rhowch fanylion pellach os bu angen ticio Na yn y rhestr wirio:

Rhaid amgáu'r ffurflen hon gyda'r adroddiad ac unrhyw dystiolaeth arall sy'n berthnasol.

Rhaid anfon y ffurflen a'r dogfennau ategol i:

AQA

malpractice@qa.org.uk

CCEA

malpractice@ccea.org.uk

City & Guilds

investigationandcompliance@cityandguilds.com

NCFE

providerassurance@ncfe.org.uk

Cambridge OCR

compliance@ocr.org.uk

Pearson

pqsmalpractice@pearson.com

CBAC

camymddwyn@cbac.co.uk

Atodiad 11 Canllawiau ar Gefnogi Diogelwch a Lles Staff Canolfan ac Ymgeiswyr yn ystod Achos o Amau Camymddwyn

1 Rhagarweiniad

Datblygwyd y canllawiau hyn ar gyfer unigolion sy'n ymwneud ag ymchwilio i amheuaeth o gamymddwyn, fel rhai sy'n gyfrifol am ddirprwyo cyfrifoldebau casglu gwybodaeth fel yr amlinellir yn adrannau 5.10 i 5.14 y ddogfen hon. Eu nod yw sicrhau, yn ystod unrhyw ymchwiliad i amheuaeth o gamymddwyn, bod strategaethau diogelu a lles effeithiol yn cael eu defnyddio a chatau priodol yn cael eu cymryd i ddiogelu lles corfforol ac emosiynol pawb dan sylw.

Yn unol ag adran 5.2 y ddogfen hon, nid yw honiad o gamymddwyn wedi'i brofi nes bod y wybodaeth berthnasol wedi'i chasglu a'i hystyried. Ni ddylid tybio bod unigolyn sy'n destun ymchwiliad yn euog oherwydd bod honiad wedi'i wneud yn ei erbyn.

Drwy gydol unrhyw ymchwiliad sy'n ymwneud â phlentyn neu berson ifanc, mae eu lles yn hollbwysig. Os yw'r unigolyn dan sylw yn oedolyn, rhaid ystyried eu lles ar bob cam yn y broses yn unol â chanllawiau arfer da. Felly, mae'n hanfodol eich bod chi'n gwybod beth yw arfer da o ran diogelu a lles, yn rhoi hyn ar waith yn gyson drwy gydol proses yr ymchwiliad, ac yn cymryd camau priodol os bydd pryderon yn codi.

Dylid rhannu manylion am unrhyw bryderon perthnasol, fel y bo'n briodol, â'r Corff Dyfarnu fel rhan o'r atgyfeiriad.

2 Rhoi gwybod i'r unigolyn am amheuaeth o gamymddwyn

Pan wneir honiad o gamymddwyn yn erbyn unigolyn, dylai Pennaeth y Ganolfan neu'r sawl sy'n casglu gwybodaeth wneud y canlynol:

- Rhoi gwybod i'r unigolyn am eu hawliau mewn perthynas â'r ymchwiliad (yn unol ag adran 5.33 y ddogfen hon) cyn gynted â phosibl a'u sicrhau bod yr ymchwiliad yn gyfrinachol (ac eithrio datgeliadau priodol i'r Corff Dyfarnu, awdurdodau perthnasol eraill ac unrhyw ddatgeliadau y gellid bod angen eu gwneud sy'n ymwneud â diogelu – er enghraifft datgelu gorfodi, ecsbloetio, cam-drin neu esgeuluso yn y cartref neu ymwneud â gweithgarwch troseddol)
- Datblygu amgylchedd lle mae'r unigolyn/unigolion yn teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus
- Cynnal y cyfarfod mewn man preifat a niwtral a chaniatáu i'r sawl sy'n cael ei gyfweld ddod ag oedolyn priodol (neu ymgynghorydd, yn achos aelod o staff y ganolfan neu ymgeisydd sy'n oedolyn) gyda nhw i gael cefnogaeth (yn unol ag adran 5.26 y ddogfen hon)
- Sicrhau, os oes gan yr unigolyn anghenion cyfathrebu neu os yw'n wynebu risg, bod oedolyn priodol yn bresennol
- Defnyddio iaith neu ddull holi sy'n blaen ac agored; heb gyhuddo, beio na barnu.

Dylid cynnal pob ymchwiliad ag empathi a gofal, gan annog unigolion i fod yn agored a gonest wrth gyfathrebu a gwneud pob ymdrech i gydbwysu dynameg pŵer rhwng ffigwr awdurdod a'r unigolyn sy'n cael ei gyfweld.

Dylai'r sawl sy'n casglu gwybodaeth allu adnabod arwyddion trallod neu bryderon diogelu ac ymateb iddynt, a sicrhau bod gofal bugeiliol priodol ar gael i unigolion drwy gydol y broses. Dylai gyfeirio unigolion at wasanaethau cefnogi arbenigol pe bai angen, gan gynnwys staff diogelu yn y ganolfan, gwasanaethau proffesiynol fel gwasanaethau cwnsela a/neu gynrychiolaeth undeb llafur.

Dylai unrhyw gefnogaeth a gynigir, neu y cyfeirir ati, fod mor benodol i anghenion yr unigolyn â phosibl, gan gynnwys ystyriaethau am oedran, cefndir diwylliannol, ffydd neu gred, ac unrhyw faterion penodol sy'n gwneud yr unigolyn yn agored i niwed, anabledau neu ofynion meddygol.

Os nad yw unigolyn yn ddigon da i fod yn bresennol (er enghraifft oherwydd afiechyd), dylai'r sawl sy'n casglu gwybodaeth gynnig gohirio'r broses o gasglu gwybodaeth nes bod yr unigolyn yn teimlo'n barod i gydweithredu â'r ymchwiliad. Yn gyffredinol, os yw'r unigolyn yn teimlo'n ddigon da i ddychwelyd i'r ganolfan, gellir gofyn am ddatganiad neu gyfweiliad i sicrhau yr ystyrir unrhyw anghenion neu ofynion penodol.

3 Gofyn am Ddatganiad

Dylid cadw at y canllawiau uchod hefyd wrth ofyn am ddatganiad. Fodd bynnag, rhaid ei gwneud yn glir i'r unigolyn sydd wedi'i gyhuddo o gamymddwyn, ac i unrhyw un sy'n cefnogi'r unigolyn, bod rhaid ysgrifennu'r datganiad yng ngeiriau'r unigolyn ei hun.

Yr arfer gorau yw rhoi lle ac amser iddynt i ysgrifennu eu datganiad gan eu goruchwylio i ryw raddau, yn enwedig os mai plentyn neu berson ifanc yw'r unigolyn. Dylai'r lle a ddarperir i ysgrifennu'r datganiad deimlo'n breifat ac yn niwtral, a dylid caniatáu digon o amser iddynt i ddarparu'r holl wybodaeth y dymunant ei rhannu yn eu datganiad.

Wrth ryngweithio ag unigolion bob amser, dylid gwneud addasiadau rhesymol i'r sawl y mae eu hanabledau'n golygu eu bod dan anfantais sylweddol. Rhaid ystyried yn arbennig beth yw'r ffordd orau o gael datganiadau gan unigolion sy'n derbyn trefniadau mynediad, er na ddylai addasiadau effeithio ar y dystiolaeth ei hun. Yn aml, dylai'r broses ddilyn ffordd arferol yr unigolyn o weithio cymaint â phosibl. Er enghraifft, dylid rhoi prosesydd geiriau i unrhyw unigolyn y mae angen iddyn nhw ddefnyddio prosesyddion geiriau wrth ysgrifennu fel arfer, i'w ddefnyddio i gwblhau eu datganiad.

Gall ysgrifennydd diduedd ysgrifennu datganiadau ar ran unigolion sy'n methu â gwneud hynny oherwydd anaf neu amhariad (er y gellir gofyn am enghraifft o lawysgrifen yr unigolyn os byddai gwneud hynny'n berthnasol i'r ymchwiliad). Rhaid i'r ddau barti lofnodi'r datganiadau i gadarnhau bod y datganiad yn adlewyrchiad gwir a gonest o'r digwyddiadau wedi'i ysgrifennu yn eu geiriau eu hunain.

4 Paratoi ar gyfer Cyfweliad

Os penderfynir mai cyfweliad yw'r modd mwyaf priodol o gasglu gwybodaeth am yr camymddwyn honedig, mae'n hollbwysig bod pob parti yn paratoi. Rhaid caniatáu amser i'r sawl sy'n cael cyfweliad baratoi i esbonio eu hymddygiad a/neu eu gweithredoedd. Rhaid i gyfwelwyr fod yn barod i gynnal y cyfweliad ag uniondeb, tryloywder ac empathi gan gynnal urddas pob parti.

Dylai pob cyfwelydd fod yn gyfarwydd â'r fethodoleg briodol i gynnal cyfweliadau ymchwiliadol, gan gynnwys â phobl sy'n agored i niwed a/neu ag anghenion ychwanegol.

Pan fydd y cyfwelydd yn paratoi i gynnal cyfweliad, dylai gymryd y camau canlynol:

- Dylai'r cyfwelydd gynllunio'r cyfweliad drwy bennu rolau cyfwelwyr (e.e. prif gyfwelydd, ysgrifennydd nodiadau).
- Rhaid adolygu'r wybodaeth a'r dystiolaeth sy'n ymwneud â'r honiad o gamymddwyn a dylid defnyddio'r rhain i greu rhestr o gwestiynau posibl, ynghyd ag unrhyw gyngor, arweiniad neu linellau ymholi allweddol a ddarparwyd gan y Corff Dyfarnu. Dylid dylunio cwestiynau o gwmpas y sawl sy'n cael ei gyfweld, ac ni ddylent fod yn arweiniol. Yn aml, defnyddir y dull twndish, lle mae'r cyfweliad yn dechrau â chwestiynau penagored ac yn arwain at gwestiynau mwy treiddgar i helpu i gasglu gwybodaeth. Tuag at ddiwedd y cyfweliad, defnyddir cwestiynau caeedig i gau llinellau ymholi lle mae angen cadarnhad pendant o bwyntiau allweddol.
- Dylai'r cyfwelydd ofyn a chael gwybod cyn gynted â phosibl am unrhyw reswm posibl pam mae'r sawl sy'n cael ei gyfweld yn agored i niwed (e.e. cyflyrau meddygol, cyflyrau iechyd meddwl, anawsterau dysgu).
- Dylai'r cyfwelydd gael gwybod os yw addasiadau priodol wedi'u hystyried a'u defnyddio e.e. seibiannau ychwanegol, iaith symlach, cymhorthion gweledol (e.e. tystiolaeth o iaith anwedus mewn sgript ac ati).
- Dylai'r cyfwelydd sicrhau bod y cyfweliad yn cydymffurfio â'r holl bolisiau a fframweithiau cyfreithiol perthnasol fyddai'n cynnwys polisiau canolfannau (e.e. cynnal cyfweliad ag ymgeisydd) a gweithdrefnau statudol.
- Dylai'r cyfwelydd sicrhau bod unigolyn priodol ar gael i ddarparu cefnogaeth pe bai angen (e.e. cynrychiolydd undeb, ymgynghorydd cyfreithiol, neu eiriolwr) a bod y rhain yn bodloni'r meini prawf gofynnol yn unol ag adran 5.27 y ddogfen hon.
- Dylid cynnal y cyfweliad mewn man tawel a niwtral, yn y ganolfan fel rheol.

5 Cynnal y Cyfweliad

Wrth ddechrau'r cyfweliad, dylai'r prif gyfwelydd gyflwyno pob cyfranogwr a'u rolau. Dylai hefyd esbonio pwrpas y cyfweliad, y broses, ac unrhyw dystiolaeth sy'n cael ei hystyried. Dylai hefyd roi gwybod i'r sawl sy'n cael ei gyfweld am ei hawliau (e.e. adran 5.33 y ddogfen hon, cynrychiolaeth, cymryd seibiannau ac ati) ac yna gofyn a oes gan y sawl sy'n cael ei gyfweld unrhyw bryderon neu a oes angen cefnogaeth ychwanegol.

Cyn gynted â bod y sawl sy'n cael ei gyfweld yn ymwybodol o'i hawliau ac wedi cael cefnogaeth neu eiriolwr (pe bai angen), dylid cynnal y cyfweliad gan ystyried y canlynol:

- Os canfyddir unrhyw anghysondebau y mae angen eu harchwilio'n fwy treiddgar, dylid egluro'r rhain mewn modd sensitif i sicrhau nad yw cwestiynau'n swnio'n gyhuddol nac yn awgrymu bod y sawl sy'n cael ei gyfweld yn dweud celwydd
- Bydd aralleirio'r atebion a roddir gan y sawl sy'n cael ei gyfweld yn gallu helpu i symleiddio atebion cymhleth sy'n cynnwys llawer o wybodaeth
- Rhaid i'r cyfwelydd roi amser i'r sawl sy'n cael ei gyfweld i feddwl ac ymateb ar eu cyflymder eu hun, heb dorri ar eu traws. Dylid ailadrodd neu aralleirio cwestiynau os nad ydynt yn eglur
- Wrth gyfweld â phobl niwroddargyfeiriol, efallai y byddant yn dangos ymddygiadau annisgwyl sydd, iddynt hwy, yn rhan normal o gyfathrebu. Gallai hyn gynnwys y sawl sy'n cael ei gyfweld yn siarad ag atal, yn osgoi cyswllt llygaid, yn gwingo'n ormodol neu'n dangos ticiau (geiriol neu gorfforol). Mae'n bwysig nad yw'r ymddygiadau hyn yn cael eu dehongli na'u barnu fel arwydd o uniondeb yr atebion.
- Os yw'r sawl sy'n cael eu cyfweld yn dangos arwyddion nad ydynt yn ymdopi â'r cyfweliad, dylid cynnig seibiant neu addasiad. Mae enghreifftiau yn cynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:
 - Mwy o anallu i ddeall cwestiynau neu ateb yn ddealladwy
 - Ticiau corfforol neu eiriol yn cynyddu i raddau sy'n peryglu lles y sawl sy'n cael cyfweliad
 - Camreoli emosiynol fel ymosodedd, crïo, gorbryder neu fania sy'n amharu ar allu'r sawl sy'n cael cyfweliad i ymateb i gwestiynau
- Mewn sefyllfaoedd lle mae cwestiwn penodol wedi achosi trallod i'r sawl sy'n cael ei gyfweld, yn enwedig lle byddai'r/lle mae'r ateb a roddwyd yn cadarnhau camymddwyn ar ran y sawl sy'n cael ei gyfweld; dylai cyfwelwyr ddefnyddio disgresiwn i ystyried a fyddai oediad byr neu seibiant yn helpu'r sawl sy'n cael ei gyfweld heb danseilio hygredd yr ateb.

Wrth ddod â'r cyfweliad i ben, dylai'r cyfwelydd grynhoi'r pwyntiau allweddol a'r ymatebion. Dylid rhoi cyfle i'r sawl sy'n cael ei gyfweld ddarparu gwybodaeth ychwanegol ac esbonio'r camau nesaf a'r amserlen ddisgwyliedig o ran canlyniadau. Dylid gofyn hefyd a oes gan y sawl sy'n cael ei gyfweld unrhyw gwestiynau, neu a oes unrhyw beth nad yw wedi'i ddeall am y broses.

Ar y diwedd, dylai'r cyfwelydd ddiolch i'r sawl sy'n cael ei gyfweld am gydweithredu a thawelu eu meddwl am y cyfyngiadau cyfrinachedd.

Dylid dilyn y broses ar ôl y cyfweliad fel sydd wedi'i amlinellu ym mhrosesau'r Corff Dyfarnu perthnasol.

6 Rhoi gwybod i'r unigolyn am ganlyniad ymchwiliad

Y drefn arferol yw bod Pennaeth y Ganolfan yn hysbysu'r unigolyn am ganlyniad

unrhyw ymchwiliad camymddwyn.

Dylid gwneud hyn ar adeg briodol o'r dydd, ac mewn man niwtral preifat i'r unigolyn. Dylid darparu unrhyw gefnogaeth y gofynnwyd amdani cyn hyn, e.e. cydweithiwr, rhiant/gofalwr neu gynrychiolydd undeb os yw'n briodol ac unrhyw gefnogaeth benodol arall y cyfeiriwyd ati fel y nodwyd uchod. Mae hyn yn arbennig o bwysig os mai'r canfyddiad yw bod yr unigolyn wedi camymddwyn.

Dylid cynnig cefnogaeth hefyd os oes camau dilynol i'w cymryd yn unol â'r sancsiynau a osodwyd, er enghraifft hyfforddiant ychwanegol neu oruchwyliaeth.

7 Casgliad

Mae'n gyfrifoldeb i bawb sy'n ymwneud â phrosesu a chasglu gwybodaeth i sicrhau, cyn, yn ystod ac ar ôl unrhyw ymchwiliad i amheuaeth o gamymddwyn, bod strategaethau diogelu a lles effeithiol yn cael eu defnyddio a champau priodol yn cael eu cymryd i ddiogelu lles corfforol ac emosiynol pawb dan sylw.

Drwy ddilyn y canllawiau hyn, bydd casglwyr gwybodaeth wedi sicrhau:

- Bod y sawl sy'n cael eu cyfweld yn deall eu hawliau o ran proses y cyfweliad
- Bod proses y cyfweliad yn hygyrch i unrhyw un gan ystyried unrhyw rwystr corfforol, emosiynol neu amgylcheddol
- Bod y sawl sy'n cael eu cyfweld yn cael eu parchu, yn cael gwrandawriad ac yn cael cyfle teg i esbonio eu gweithredoedd, eu hymddygiadau a'u cymhellion
- Nad oedd y cyfweliad wedi achosi straen diangen. Eu bod wedi rhagweld unrhyw achlysur lle byddai angen gwneud addasiadau ar gyfer y sawl sy'n cael ei gyfweld, ac wedi darparu hyn
- Bod pob parti wedi cael ei gadw'n ddiogel a'i gefnogi. Bod unrhyw ddatgeliad a wneir ynglŷn â risg o niwed i unigolyn yn cael ei reoli yn unol â pholisïau diogelu'r ganolfan a'r sefydliadau cyfweld
- Bod yr holl wybodaeth (ac eithrio datgeliadau priodol fel pryderon diogelu) am y cyfweliad wedi'i chadw'n ddiogel a'i thrin â lefelau cyfrinachedd uchel.

Atodiad 12

Manylion Cyswllt

AQA

malpractice@qa.org.uk

CCEA

malpractice@ccea.org.uk

City & Guilds

investigationandcompliance@cityandguilds.com

NCFE

providerassurance@ncfe.org.uk

Cambridge OCR

Cymwysterau Galwedigaethol

compliance@ocr.org.uk

Cymwysterau Cyffredinol

compliance@ocr.org.uk

Pearson

Camymddwyn/Camweinyddu gan Staff

pqsmalpractice@pearson.com

Camymddwyn gan Ymgeiswyr

candidatemalpractice@pearson.com

CBAC

camymddwyn@cbac.co.uk